Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-2022



www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon ar ôl cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd .... 4
Adroddiad ar Berfformiad .... 5
Datganiad y Prif Weithredwr .... 5
Cyflwyno CNC .... 7
Swyddogaethau a chyfrifoldebau .... 8
Ein Gwerthoedd .... 8
Ein Hamcanion Llesiant a Blaenoriaethau Strategol .... 9
CNC mewn rhifau .... 10
Crynodeb o risgiau allweddol .... 11
Crynodeb o gyllid .... 13
Crynodeb o berfformiad .... 15
Dadansoddi Perfformiad .... 16
Adroddiad Atebolrwydd .... 42
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol .... 43
Adroddiad y Cyfarwyddwyr .... 43
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .... 46
Datganiad Llywodraethu .... 47
Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio) .... 66
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio) .... 80
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd .... 81
Datganiadau Ariannol .... 86

# Rhagair y Cadeirydd

Croeso i adroddiad blynyddol a chyfrifon CNC ar gyfer 2021/22.

Roedd y pandemig yn her i bob un ohonom fabwysiadu dulliau gweithio newydd yn ddi-oed, ac rydym yn parhau â'r momentwm hwn i sbarduno arloesedd a bod yn fwy ymatebol eto i anghenion cwsmeriaid. Mae ein rhaglen Adfywio yn adolygu ble a sut rydym yn gweithio – gan edrych ar ein hadeiladau, ein cludiant a'n peiriannau. Mae lleihau ein hôl troed carbon yn hanfodol wrth i ni gyfrannu at gyrraedd y targedau sero net. Hefyd, rydym yn gwella ein cynnig digidol, gan alluogi ein cwsmeriaid i ymgysylltu â ni'n fwy effeithiol, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd i bob un ohonom.


Wrth i'r cyfyngiadau godi, mae'n amlwg bod manteision gweithio ar-lein yn enfawr o safbwynt teithio llai, mynediad cyfartal a thryloywder, a rhaid sicrhau bod y manteision hyn yn parhau. Fodd bynnag, bydd ailgysylltu â phartneriaid a chydweithwyr trwy ddigwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn bwysig, ac yn hanfodol ar gyfer cryfhau cysylltiadau a meithrin rhai newydd. Mae ein rhanddeiliaid yn bwysig iawn i ni, felly rydym wrthi'n archwilio sut y gallwn sicrhau bod ein hymgysylltiad yn ystyrlon, yn bwrpasol ac yn effeithiol.

Mae'r dull gweithredu hwn wedi bod yn allweddol fel rhan o waith y tasglu Ansawdd Afonydd Gwell. Gwyddom fod y seilwaith i ddelio â'n carthffosiaeth yng Nghymru o dan bwysau sylweddol oherwydd y newid yn yr hinsawdd, newidiadau mewn dwysedd a dosbarthiad y boblogaeth, a datblygiadau newydd. Heb weithredu, bydd y pwysau hwn yn cyfrannu at gynnydd yn y llifoedd mewn gweithfeydd trin, gan arwain at gynnydd posibl yn nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm (y cyfeirir atynt fel gorlifoedd) sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar ein hamgylchedd dŵr.

Mae camau gweithredu cydgysylltiedig rhwng sefydliadau yn hanfodol er mwyn newid a gwella sut rydym yn rheoli ac yn rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Mae'n dda gennyf weithio gyda chydweithwyr CNC, Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, Afonydd Cymru a Chyngor Cwsmeriaid Cymru ar y tasglu, sydd wedi bod yn gweithio'n ddiwyd tuag at gyhoeddi llwybr ar y cyd ar gyfer gwella ansawdd afonydd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio i ddechrau ar orlifoedd storm, ac mae'n darparu sylfaen ardderchog ar gyfer rhagor o gydweithio er mwyn gwella'r sefyllfa o safbwynt gollyngiadau carthion yng Nghymru.

Mae datblygu'r model newydd hwn o weithio mewn partneriaeth wedi bod yn gyffrous gan ein bod wedi gweithio ar draws ffiniau sefydliadol i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r materion, a’r cyfraniad y gallwn ei wneud ar y cyd ac fel sefydliadau unigol at fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn o ansawdd dŵr. Mae neilltuo'r amser hwn yn bwysig ac rwy'n hyderus y bydd yn rhoi sylfaen gadarn i ni symud ymlaen yn gyflym i fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd.

Yn olaf, yn fy mhedwaredd flwyddyn fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i'n staff am eu holl waith caled wrth barhau i gyflawni yn ystod heriau'r pandemig, a hoffwn ddiolch i Aelodau ein Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus - yn enwedig y rhai sydd wedi dod i ddiwedd eu cyfnod gyda ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Elizabeth Heywood a Howard Davies wedi bod yn gwbl allweddol i waith y bwrdd, ac rwy'n diolch yn ddiffuant iddynt am eu cefnogaeth dros y chwe blynedd y bu'r ddau yn gwasanaethu ar y bwrdd.



**Syr David Henshaw Cadeirydd** **13 Gorffennaf 2022**

# Adroddiad ar Berfformiad

Yn y tudalennau canlynol, mae Clare Pillman, ein Prif Weithredwr, yn cynnig ei safbwynt ar ein perfformiad eleni ac rydym yn amlinellu diben ein sefydliad, ein prif rolau a chyfrifoldebau, a’r risgiau a'r problemau rydym yn eu hwynebu, yn ogystal ag esbonio sut rydym wedi rheoli’r gwaith o gyflawni ein hamcanion eleni.

## Datganiad y Prif Weithredwr

Mae sefyllfa'r byd wedi newid eto, ac wrth i ni ddysgu byw gydag effeithiau parhaus y pandemig Covid, mae'r byd wedi troi ei olygon tuag at bobl Wcráin ac ymosodiad Rwsia. Rydym yn llwyr gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddynodi Cymru'n genedl noddfa, ac rydym wrthi'n archwilio sut mae CNC yn gallu cefnogi ymdrechion dyngarol i ddarparu cysgod diogel a chyfleoedd i ffoaduriaid o Wcráin.

Mae arbenigwyr yn rhagweld y bydd y gwrthdaro'n para am gyfnod hir, ac rydym wrthi'n monitro effeithiau ehangach y rhyfel ledled y byd, a sut y byddant yn effeithio arnom ni yng Nghymru. Rydym yn dadansoddi'r sbardunau a'r risgiau cysylltiedig, gan gynnwys newidiadau i gyflenwadau ynni a bwyd, defnydd tir a rheoleiddio tir, a'r effaith ar gostau byw sydd eisoes yn codi - i gyd yn erbyn cefnlen goblygiadau parhaus ymadawiad Prydain â'r UE.

Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i ganolbwyntio'n well ar gyflawni. Ni all y materion byd-eang pwysig hyn dynnu ein sylw oddi ar realiti newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i osod yr argyfwng hinsawdd a natur wrth wraidd ei phenderfyniadau yn ei Rhaglen Lywodraethu, a buom yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion a swyddogion i gytuno ar bum blaenoriaeth gyffredin er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb llawn o safbwynt disgwyliadau a darparu gwasanaethau. Mae'r meysydd ffocws hyn yn adlewyrchu gwaith archwiliadau dwfn gweinidogion, ac maent yn cynnwys ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, atal llifogydd a thomennydd glo, galluogi plannu coed, a chaniatâd morol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Buom yn gweithio'n ddiwyd gyda Llywodraeth Cymru i amlinellu ac adolygu gweithgareddau sylfaenol CNC. Mae ffrydiau gwaith wedi'u diffinio ac maent yn cynnwys lefelau gwasanaeth, blaenoriaethu cyffredin a'n cyllideb ar gyfer y dyfodol. Hefyd, rydym yn defnyddio'r cyfle hwn i archwilio'r potensial ar gyfer buddsoddi i arbed ac arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau. Cyflwynir y gwaith hwn i'r Gweinidog yn ystod haf 2022.

Eleni rydym wedi gwneud cynnydd da ar lawer iawn o'n rhaglenni gwaith yng nghanol heriau parhaus Covid-19 a nifer o lifogydd difrifol. Mae hyn wedi cynnwys cyrraedd ein targed o leihau'r perygl llifogydd ar gyfer 800 o eiddo trwy ein gwaith cyfalaf erbyn mis Rhagfyr 2021. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa ar gyfer mwy o eiddo erbyn diwedd 2022/23 gan gynnwys, er enghraifft, prosiect mawr i sicrhau diogelwch hirdymor llyn naturiol mwyaf Cymru, Llyn Tegid. Mae'r llyn naturiol yn gwneud cyfraniad hanfodol at y gwaith o reoleiddio llifoedd a rheoli llifogydd yn Nyffryn Dyfrdwy. Mae'r gwaith yn cynnwys cryfhau'r gwrthgloddiau ac adnewyddu’r amddiffynfeydd cerrig ar hyd glannau’r llyn yn ei gyfanrwydd ac fe'i rheolir o dan ddeddfwriaeth cronfeydd dŵr gan fod gwrthgloddiau'r llyn yn diogelu tref y Bala rhag llifogydd.

Lansiwyd ein sgwrs genedlaethol, Natur a Ni, ym mis Ionawr gyda'r nod o annog pobl Cymru i siarad am sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol, a pham y mae angen i berthynas cymdeithas â byd natur newid. Bydd y gwaith hwn yn

llywio'r broses o ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer 2050 ac mae'n ystyried y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud yn arwain at 2030 a 2050, fel unigolion ac fel cenedl.

Mae ein partneriaeth adfer rhywogaethau flaenllaw, 'Natur am Byth!', yn parhau i ddatblygu’n gyflym, ac rydym yn ddiolchgar i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru am eu cyllid i gefnogi'r gwaith hwn. Nod y bartneriaeth, sy'n cynnwys naw corff anllywodraethol amgylcheddol a CNC, yw atal dirywiad 62 o rywogaethau sydd dan fygythiad yng Nghymru, ac mae 40 ohonynt mewn perygl o ddiflannu os nad ydym yn gweithredu ar unwaith. Fel rhan o'r rhaglen, rydym yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr, cymunedau ac ystod amrywiol o bobl a fyddai'n elwa fwyaf ar gael mwy o gysylltiad â byd natur.

Mae dau brosiect a fydd yn diogelu, yn gwella ac yn helpu i adfer natur a'r amgylchedd wedi'u lansio eleni hefyd. Bydd y prosiectau, a ariennir trwy Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, yn sicrhau y bydd cyfanswm o £13.8 miliwn yn rhoi hwb sylweddol i heriau cadwraethol dybryd dros y pum mlynedd nesaf.

Bydd mwy na naw miliwn o bunnoedd yn cael eu buddsoddi i sicrhau bod pedair afon mewn cyflwr da - afon Teifi, afon Cleddau, afon Tywi ac afon Wysg. Amcangyfrifir y bydd 500km o afonydd yn cael eu gwella.

Hefyd, bydd ychydig dros £4.5 miliwn yn cael ei wario ar warchod corsydd crynedig. Y mwyaf o'r corsydd crynedig sydd ar ôl yng Nghymru yw Cors Crymlyn, ar gyrion Abertawe. Mae ardaloedd eraill sy'n rhan o'r prosiect yn cynnwys Tyddewi yn Sir Benfro ac ym Mhen Llŷn. Mae angen gofal dwys ar bob un ohonynt oherwydd y difrod a wnaed yn y gorffennol o ganlyniad i ddraenio, llygredd neu esgeulustod. Yn ogystal â bod o ddiddordeb o safbwynt dal carbon, mae rhywogaethau prin iawn yn llechu yno o hyd – gan gynnwys pry cop mwyaf Prydain, sef corryn arnofiol y gors galchog yng Nghrymlyn, a glöyn byw brith y gors yn Sir Benfro a Gwynedd.

Bydd y pum mlynedd nesaf yn hollbwysig i'r broses o wneud cynnydd pendant i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Wrth i ni edrych ymlaen at yr hyn a fydd yn flwyddyn bontio i raddau helaeth wrth symud o un cynllun corfforaethol i'r llall, rydym yn paratoi ein hunain i ymateb i'r heriau o’n blaenau ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae ein staff wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rwy'n hynod ddiolchgar iddynt am eu hymrwymiad, wrth iddynt rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i ddiogelu natur a chymunedau Cymru.



**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **13 Gorffennaf 2022**

## Cyflwyno CNC…

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben craidd yw Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu un sefydliad sy'n cyfuno llawer o'r dulliau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd integredig. Mae adnoddau naturiol Cymru yn wych – mynyddoedd a choetiroedd garw, tirweddau a morlinau hardd, a bywyd gwyllt anhygoel. Maent yn hanfodol i'n goroesiad ac yn rhoi i ni'r pethau sylfaenol sydd eu hangen arnom i fyw: aer glân, dŵr glân, a bwyd. Maent yn creu swyddi ar gyfer llawer o filoedd o bobl, gan gynnwys ffermwyr, coedwigwyr a gweithredwyr twristiaeth – gan greu cyfoeth a ffyniant.

*Mae gennym un cais ar gyfer darllenwyr yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon - wrth ddarllen yr adroddiad hwn, os ydych chi'n credu y dylem wneud newidiadau i'n hadroddiad blynyddol a chyfrifon nesaf, cysylltwch â ni i rannu'ch syniadau. Rydym yn ymrwymo i fyfyrio ar yr holl adborth, a byddwn yn parhau i wneud newidiadau i'r adroddiad yn y dyfodol – gan sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn parhau i fod yn deg, yn gytbwys ac yn hawdd i'w deall ar gyfer darllenwyr.*

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Fel y corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gennym ystod eang o swyddogaethau a chyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni mewn ffordd integredig er mwyn cyflawni ein diben cyffredinol. Mae'r swyddogaethau a chyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- **Cynghorydd** i Lywodraeth Cymru, diwydiant, ffermio, tirfeddianwyr, rheolwyr, a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, gan gyfathrebu ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol
- **Rheoleiddiwr** ar gyfer diwydiant, gwastraff, ynni, y môr, coedwigoedd a safleoedd dynodedig i amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol a chefnogi busnesau cyfreithlon
- **Dynodwr** Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Parciau Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- **Ymatebwr** i fwy na 7,000 o adroddiadau o ddigwyddiadau amgylcheddol fel ymatebwr brys Categori 1
- **Ymgynghorydd statudol** ar fwy nag 8,000 o ymgynghoriadau cynllunio
- **Rheolwr** mwy na 7% o arwynebedd tir Cymru (ac yn dylanwadu ar arwynebedd ehangach), gan gynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd rhag llifogydd, asedau, cyfleusterau hamdden, deorfeydd, a labordy dadansoddol
- **Partner, addysgwr a galluogwr** sy'n cefnogi ac yn hwyluso gwaith sefydliadau eraill ac yn helpu pobl i ddysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu ar ei gyfer a dysgu amdano
- **Casglwr tystiolaeth**, gan fonitro'r amgylchedd, dylanwadu, comisiynu a gwneud gwaith ymchwil, datblygu a rhannu gwybodaeth, a chadw cofnodion cyhoeddus
- **Cyflogwr** tua 2,100 o staff, yn ogystal â chontractwyr, ac yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn dangos beth rydym am i CNC fod a sut rydym yn gweithio:

- Rydym yn **angerddol** am amgylchedd naturiol Cymru
- Rydym yn **gofalu** am ein gilydd a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw
- Rydym yn gweithio â **gonestrwydd**
- Rydym yn **gwneud gwahaniaeth** nawr ac ar gyfer y dyfodol
- Rydym yn **falch o wasanaethu** pobl Cymru

# Ein Hamcanion Llesiant a Blaenoriaethau Strategol

Adlewyrchir sut rydym am gyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2023. Dyma ein Hamcanion Llesiant:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru’n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig
- Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus
- Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy’n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Ar gyfer y flwyddyn 2021/22, roeddem yn parhau i ganolbwyntio ar weithio i gyflawni ein hamcanion llesiant trwy'r un pum blaenoriaeth strategol a nodwyd ar gyfer 2020/21:

- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd
- Ymateb i'r argyfwng natur
- Datblygu a defnyddio ein tystiolaeth gyda phartneriaid i eirioli dros reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'i gyflawni
- Datblygu CNC i fod yn sefydliad rhagorol sy'n cefnogi cymunedau Cymru
- Ymateb i’r pandemig COVID-19 ac i’r DU yn ymadael â’r Undeb Ewropeaidd, gan fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau adferiad gwyrdd

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae ein blaenoriaethau strategol wedi'u diweddaru. Gweler ein Cynllun Busnes 2022/23 am ragor o wybodaeth. I gael gwybodaeth am sut y mae ein sefydliad wedi'i strwythuro i gyflawni, gweler ein Hadroddiad Atebolrwydd (‘Ein Gweithrediaeth’ yn yr adroddiad hwn, neu ar ein gwefan yma).

# CNC mewn rhifau

Dyma rai ffigurau yn ymwneud â'n gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhywfaint o waith gydag eraill:

### Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

- Mae dros 1,100 o safleoedd yng Nghymru wedi'u dynodi'n SoDdGA[1], AHNE, GNG a/neu Barc Cenedlaethol
- Mae CNC yn aelod o bob un o'r 15 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

### Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

- Rydym yn rheoli mwy na 7% o dir Cymru
- Rydym yn cynnal a chadw tua 4,030 o asedau rheoli perygl llifogydd
- Rydym wedi prosesu 1,292 o geisiadau am drwyddedau[2]

### Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

- Rydym yn rheoli 56 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (rhai mewn partneriaeth ag eraill)
- Rydym yn gyfrifol am y 12 milltir forol o'r morlin
- Rydym wedi cyhoeddi 1,874 o drwyddedau rhywogaethau

### Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

- Rydym yn cynnal a chadw 455 o gilometrau o amddiffynfeydd perygl llifogydd
- Roedd 220 o ddigwyddiadau amgylcheddol wedi cael effaith ddifrifol (mawr neu sylweddol)
- Mae 113,732 o adeiladau wedi cofrestru i dderbyn ein rhybuddion llifogydd

### Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

- Roedd mwy na 3.2 miliwn o bobl wedi ymweld â rhai o'n safleoedd mwyaf poblogaidd yn 2021
- Fe wnaethom dderbyn 222 o geisiadau am ganiatâd yn 2021 ar gyfer digwyddiad[3] gan ddefnyddio tir a reolir gennym
- Rydym yn gyfrifol am 25 o lwybrau 'cerdded' gradd hygyrch gydag arwyddion
- Rydym yn rheoli 4 canolfan ymwelwyr

### Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol, sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

- Fe wnaethom ymateb i 8,862 o ymgynghoriadau cynllunio
- Fe wnaethom sicrhau 59 o erlyniadau am droseddau amgylcheddol yn 2021
- Fe wnaethom greu £37m mewn incwm pren

### Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

- Fe wnaethom dderbyn dros 28,000 o ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu drwy e-bost[4]
- Nodwyd bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2% (2.5% yn 2020/21)
- Gwariwyd £255 miliwn gennym

---

[1] SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), GNG (Gwarchodfa Natur Genedlaethol)
[2] trwy ein Gwasanaeth Trwyddedu
[3] (neu ddigwyddiadau lluosog)
[4] trwy ein Hyb Cwsmeriaid

## Crynodeb o risgiau allweddol

Fel sefydliad â swyddogaethau a chyfrifoldebau amrywiol, rydym yn rheoli sawl risg a mater allweddol er mwyn lliniaru eu heffaith ar gyflawni ein gwaith. Fel yr amlinellwyd yn ein Hadroddiad Atebolrwydd, mae'r risgiau i gyflawni'n hamcanion wedi'u nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi drwy gofrestrau risg ar lefelau amrywiol o'r busnes. Roedd ein cofrestr risg strategol yn cynnwys y risgiau allweddol canlynol:

**Methiant Asedau**

Mae ein hasedau yn cynnwys seilwaith mawr megis cronfeydd dŵr ac asedau llifogydd, yn ogystal â rhannau helaeth o ystâd goetir Llywodraeth Cymru. Gallai methiant yn yr asedau hyn gael effaith fawr ar y cyhoedd, felly rydym yn rhoi llawer o ymdrech i reoli ein hasedau i'r safonau gofynnol. Mae systemau wedi'u sefydlu ar gyfer arolygu ac atgyweirio asedau perygl llifogydd, ac er bod perfformiad yn parhau i fod yn uchel, mae gwelliannau i'n prosesau'n cael eu gwneud ac eraill yn cael eu cynllunio. Bydd y rhain yn gwella ein gwaith o ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ar asedau a lleoliadau risg uchel ac yn adnewyddu ein strategaethau sefydliadol ar reoli asedau. Rydym mewn sefyllfa well o lawer o safbwynt rheoli'r risg i gronfeydd dŵr gan ein bod yn cydymffurfio â 'Mesurau i'w Cymryd er Budd Diogelwch'. *Gweler* 'WBO4: Lleihau'r risg...' *i gael mwy o wybodaeth am hyn*.

**Cyllid**

Rydym yn dibynnu ar gymorth grant Llywodraeth Cymru am ychydig dros hanner ein cyllid, yn ychwanegol at incwm masnachol ac incwm o daliadau rheoliadol. Cwblhawyd darn sylweddol o waith i sicrhau bod yr arian sydd ei angen i fodloni ein gofynion statudol yn cael ei sicrhau yn ogystal â'r blaenoriaethau diffiniedig sy'n mynd y tu hwnt i'n hymrwymiad statudol gofynnol. Rydym yn parhau i geisio cynyddu ein dulliau o greu incwm er mwyn ein helpu i gyflawni. *Gweler ein 'Crynodeb o gyllid' am ragor o wybodaeth am hyn.*

**Ymateb i ddigwyddiadau**

Mae gennym ddyletswyddau statudol i reoli digwyddiadau fel ymatebwr categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl gyda chyfrifoldebau i gydweithio â'n partneriaid i reoli a lliniaru effeithiau digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd, sychder a llygredd amgylcheddol ar bobl a'r amgylchedd. Rydym yn dibynnu ar ein staff medrus, ein systemau a'n gweithdrefnau i gynnal ein hymateb i ddigwyddiadau, ac oherwydd newidiadau i rai contractau staff, mae adnoddau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y system rota. Roedd hwn yn ddarn o waith sylweddol a gyflwynwyd yn llwyddiannus, a phan fydd staff wedi'u hyfforddi'n llawn (22/23), bydd gan y system rota adnoddau llawn. *Gweler 'Ymateb i ddigwyddiadau drwy'r pandemig' am fwy o wybodaeth am ein gweithgarwch ymateb i ddigwyddiadau.*

**Recriwtio**

Mae'r farchnad recriwtio allanol wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. Mae nifer sylweddol o swyddi'n cael eu hysbysebu ledled y farchnad, ac mae'r sefyllfa bresennol yn ffafrio'r rhai sy'n chwilio am waith. Mae methu â recriwtio yn risg sylweddol ledled y busnes, ac mae'r broblem yn ddifrifol iawn mewn rhai meysydd. Mae'r risg wedi datblygu ac wedi dwysáu'n gyflym, ac erbyn hyn mae wedi'i chofnodi yn ein cofrestr risg Strategol fel un o'r risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n ein hwynebu. *Gweler 'Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol am fwy o wybodaeth am hyn.*

**Cyflawni**

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y risg hon a'r risgiau Cyllid a Recriwtio. Er mwyn i ni ddarparu ein holl wasanaethau a chyflawni ein holl swyddogaethau, mae angen sicrwydd cyllid arnom ac adnoddau staff digonol. Roedd hon yn risg gynyddol yn ystod y flwyddyn ac er bod cyllidebau a Chynlluniau Busnes wedi'u cytuno, byddwn yn parhau i fonitro'r risg hon yn ofalus nes ein bod yn hapus bod y risg wedi'i lleihau'n ddigonol. *Gweler ein 'Crynodeb o gyllid' am ragor o wybodaeth am hyn*.

**Cydymffurfiaeth**

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y risg hon trwy gydol y flwyddyn, ac mae wedi bod yn destun craffu rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Roedd sawl darn o waith sylweddol wedi dechrau tuag at leihau'r risg hon, gan gynnwys sicrwydd sefydliadol, llywodraethu a gwelliannau i'r ail linell a rheoliadau cysylltiedig, a bydd y gwaith hwn yn parhau gydol y flwyddyn gyda'r nod o gryfhau rheolaethau mewnol. Gweler '*Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol* *am fwy o wybodaeth am hyn.*

# Crynodeb o gyllid

**Cyllid a sut y gwnaethom wario ein harian**

Cyfanswm ein hincwm ar gyfer y flwyddyn oedd £88 miliwn. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru Gymorth Grant gwerth £130 miliwn a grantiau eraill tuag at ganlyniadau amrywiol, a dyrannwyd £38 miliwn o'r cyllid hwn i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Yn y datganiadau ariannol, caiff Cymorth Grant ei ystyried yn gyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid yn ffynhonnell incwm.

Yn 2021/22, cynyddodd ein gwariant o £225 miliwn i £255 miliwn. Mae'r newid mewn gwariant yn deillio o sawl rheswm gan gynnwys cynnydd mewn costau staff oherwydd pensiynau yn bennaf, cyflwyno ein rhaglenni cyfalaf a phris ein coed a gwympwyd yn ystod y flwyddyn. Dyma ddosbarthiad cyfanswm ein cyllid a gwariant:

- Cyllid yn ôl math: Grant Llywodraeth Cymru (60% / £130m), Taliadau (17% / £37m), Incwm masnachol ac incwm arall (22% / £48m), Ewropeaidd ac allanol arall (1% / £2m)
- Gwariant yn ôl math: Costau staff (47% / £119m), Gwaith cyfalaf y talwyd amdano yn ystod y flwyddyn (10% / £26m), Gwariant arall (43% / £110m)

**Rheoli ein harian**

Yn 2021/22, arhosodd ein cyllid 'craidd' gan Lywodraeth Cymru ar yr un lefelau arian parod â'r flwyddyn flaenorol (cyn i hynny gael ei leihau oherwydd yr ymateb i'r pandemig Covid-19). Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid arall yn ystod y flwyddyn er mwyn ymateb i bwysau ar y gyllideb y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Hefyd, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid grant penodol i ni ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u creu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Cynyddodd ein hincwm pren oherwydd y farchnad fywiog, ac mae'r holl incwm hwn wedi'i ailfuddsoddi mewn coedwigaeth. Rydym wedi llwyddo i gadw ein lefelau incwm taliadau ar lefel debyg i flynyddoedd ariannol blaenorol. Cafodd y gyllideb ei chraffu a'i chymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

**Edrych i'r dyfodol**

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae ein Cynllun Corfforaethol presennol yn parhau tan 2023. Rydym wedi gosod ein cynlluniau yn seiliedig ar adnoddau disgwyliedig, gan gynnwys Cymorth Grant, taliadau, a dyraniadau ac amcangyfrifon incwm masnachol. Mae incwm taliadau'n dueddol o fod yn weddol sefydlog, ond gall ein hincwm masnachol fod yn llai rhagweladwy gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau i'r gyfradd gyfnewid, sy'n effeithio ar brisiau pren. Mae gennym ddyraniadau Cymorth Grant dangosol ar gyfer 2023/24 ymlaen a fydd yn helpu gyda'n gwaith cynllunio. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'r lefelau cymeradwy o gyllid a fydd ar gael, gan gynnal adolygiad parhaus o'r cyllid a'r lefelau gwasanaeth cysylltiedig a allai ddenu cyllid ychwanegol neu arwain at newidiadau derbyniol i lefelau gwasanaeth.

**Asedau anghyfredol**

Roedd ein hasedau anghyfredol yn werth £2,535miliwn ar 31 Mawrth 2022, sef 21% (£434 miliwn) yn fwy o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran fwyaf arwyddocaol yw

gwerth yr ystad goedwig ac asedau biolegol, sy'n cyfrif am £2,181 miliwn o'r cyfanswm, a phrisiad cryf y cnydau ar yr ystad oedd y prif reswm dros y cynnydd mawr.

**Taliadau masnach a thaliadau eraill**

Rydym wedi ymrwymo i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. Disgynnodd y perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan ychydig o dan hynny (83.7%). Fe wnaethom fynd i'r afael â'r mater hwn ac erbyn mis Mawrth 2022 roeddem yn uwch na'r trothwy o 95%.

**Perfformiad dyledwyr**

Mae ein rheolaeth barhaus o ddyled fasnachol wedi gweld cynnydd bach mewn dyled fasnachol, gyda nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwsmeriaid dalu yn gostwng i 1 diwrnod o'i gymharu â 3 diwrnod yn 2020/21.

Mae ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol wedi gweld gostyngiad yn lefel y ddyled o 5.6% yn 2020/21 i 2.91% ar ddiwedd 2021/22.

Disgwylir i CNC golli credyd gwerth £0.1 miliwn ar 31 Mawrth 2022.

**Busnes Gweithredol**

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2022 yn dangos ecwiti trethdalwyr cadarnhaol o £2,437 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan Gymorth Grant Llywodraeth Cymru a thrwy ddefnyddio incwm y dyfodol. Rydym wedi cymeradwyo Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23. Felly, mae'n briodol mabwysiadu dull busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

**Pensiynau**

Datgelir y rhwymedigaeth pensiwn yn y Datganiadau Ariannol ar sail Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r rhwymedigaeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gostwng o £106.6 miliwn i £54.4 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amcangyfrif bod ganddi ddigon o asedau i fodloni 110% o'i rhwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2022.

**Archwilwyr**

Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2021/22 oedd £193,000.

**Adroddiadau eraill**

Fel sefydliad, rydym yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn rheolaidd, gan gynnwys adroddiad blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol, a Datganiadau Ardal; mae llawer ohonynt ar gael yma. Gellir cael mynediad at adroddiadau tystiolaeth ac ymchwil a gyhoeddwyd yma hefyd (gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 ar gyfer Cymru).

# Crynodeb o berfformiad

Mae pob mesur yn ein fframwaith perfformiad yn ymwneud â'n Hamcanion Llesiant. Mae adrodd a chraffu ar adroddiadau pynciau ac adroddiadau mesurau yn ein dangosfwrdd Cynllun Busnes blynyddol yn digwydd mewn sesiwn gyhoeddus agored mewn cyfarfodydd o Fwrdd CNC bedair gwaith y flwyddyn, gyda chraffu pellach ar yr adroddiadau hyn drwy Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd blwyddyn 2021/22, roedd ein dangosfwrdd Cynllun Busnes yn cynnwys 30 o fesurau[5], ar draws 20 pwnc. Ar ddiwedd y flwyddyn, o'r mesurau hynny:

- roedd 22 yn Wyrdd (h.y. wedi cyflawni'r targed neu'r garreg filltir)
- roedd 6 yn Felyn (h.y. yn agos at y targed neu'r garreg filltir)
- roedd 2 yn Goch (h.y. wedi methu'r targed neu'r garreg filltir)

O gymharu perfformiad â'r flwyddyn flaenorol (2020/21), ar ddiwedd 2021/22 roedd gennym un mesur gwyrdd ychwanegol, a chwech yn llai o fesurau melyn neu goch (ac roedd dangosfwrdd 2021/22 yn adlewyrchu pump yn llai o fesurau yn gyffredinol[6]). Gellir gweld adroddiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar ein tudalen we Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd – gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant a'r dangosyddion cysylltiedig.

[5] Roedd rhai mesurau wedi'u tynnu o'r dangosfwrdd hwn hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ac ychwanegwyd un mesur. Nid yw'r mesurau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigur mesurau diwedd blwyddyn.

[6] Gan fod natur, ffurf, manylion a chyd-destun ein mesurau dangosfwrdd yn gallu amrywio i ryw raddau bob blwyddyn, rhaid nodi na fydd modd cymharu'r sefyllfa a adroddwyd o ran mesurau yn uniongyrchol bob amser.

# Dadansoddi Perfformiad

Nod y rhan hon o'r adroddiad ar berfformiad yw cofnodi rhai o'r pethau a gyflawnwyd eleni, gan gynnwys enghreifftiau sy'n adlewyrchu uchafbwyntiau penodol a meysydd her sylweddol.

Yn ôl Amcan Llesiant, rydym yn amlinellu:

- sefyllfa diwedd blwyddyn[7] ar gyfer pob un o fesurau dangosfwrdd ein Cynllun Busnes;
- rhywfaint o'n gweithgarwch blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- nifer o enghreifftiau cyflawni yn ymwneud â'r Amcan Llesiant (y mae rhai ohonynt yn ymwneud â nifer o Amcanion Llesiant)

Hefyd, mae rhai myfyrdodau ehangach ar ein dull o baratoi ein hadroddiadau blynyddol wedi'u cynnwys mewn perthynas â: Nodau Llesiant Cymru (gweler isod), Datganiadau Ardal; Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau.



***Nodau Llesiant Cymru***: *Yn y rhan ganlynol o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, rydym wedi nodi nifer o eitemau sy'n ymwneud â Nodau Llesiant Cymru[8]. Mae Nodau cysylltiedig a ddewiswyd wedi'u dangos mewn* ***print trwm*** *ac mae unrhyw 'brif' Nodau cysylltiedig* ***wedi'u tanlinellu.***

*E.e.: Pe bai'r llinell isod yn cael ei chynnwys ar gyfer eitem byddai'n adlewyrchu "Nod 6 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" fel y 'prif' Nod cysylltiedig, a bod "Nod 3 – Cymru iachach" a "Nod 4 – Cymru sy'n fwy cyfartal", yn gysylltiedig ag e hefyd*

*e.e. Nodau Cymru Cysylltiedig*: *1,2,**3**, **4**, 5, **6**, 7*

[7] I weld ein sefyllfa yr adroddwyd arni yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr holl fesurau hyn, gweler ein papurau Bwrdd CNC a gyhoeddir yma.

[8] I ddysgu mwy am Nodau Llesiant Cymru, gweler tudalennau gwe Nodau Llesiant Cymru. Neu, i gael rhagor o wybodaeth am berthnasedd y Nodau â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gweler perthynas y Nodau Datblygu Cynaliadwy â Dangosyddion Cenedlaethol Cymru a Nodau Llesiant Cymru.

## WBO1: Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

Ein nod yw hyrwyddo'r amgylchedd naturiol yn ein holl waith – yn y wybodaeth a ddarperir gennym, wrth gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac wrth fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith – er mwyn helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar y manteision y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun – nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Cwblhau camau gweithredu ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ar dir a reolir gan CNC*, gyda 365 o gamau blaenoriaeth a gynlluniwyd wedi'u cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Dilysu ceisiadau am grantiau coetir Glastir*, gyda thros 200 o geisiadau bellach wedi'u dilysu ar draws cylchoedd creu ac adfer y cynllun grant. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Cefnogi'r Cynllun Morol Cenedlaethol*, gan gymeradwyo canllawiau ar egwyddorion gwella ac adfer. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Hyrwyddo'r defnydd o'r Adroddiad diweddaraf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol*, gan wrando ar adborth gan ddefnyddwyr a gweithredu i gefnogi'r newidiadau angenrheidiol i'r systemau. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Defnyddio Datganiadau Ardal yn ein sefydliad*, gan lunio ein cynlluniau lle ar gyfer y dyfodol ar sail blaenoriaethau a chyfleoedd Datganiadau Ardal. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Parhau i weithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth 2050 a rennir ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru (Natur a Ni),* gan lansio'r ymgyrch a'r cynllun ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Statws y mesur: Gwyrdd

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflwyno ein Rhaglen Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio*

- *Datblygu a dechrau gweithredu ein Strategaeth Fonitro, gan wella ansawdd ein data a'n prosesau monitro amgylcheddol*

- *Cyfrannu at Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Llesiant gan ddefnyddio ein Datganiadau Ardal fel canolbwynt ar gyfer materion amgylcheddol lleol*

- *Hwyluso Natur a Ni - datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd hyd at 2050 a chamau gweithredu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

## Sefyllfa adnoddau naturiol a'n ffocws ar gyfer y dyfodol

**Amlinellodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yr angen i drawsnewid y systemau y mae cymdeithas yn effeithio ar yr amgylchedd drwyddynt er mwyn galluogi Cymru i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.** Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn adroddiad pum mlynedd statudol sy'n ceisio llywio gwaith datblygu polisi Llywodraeth Cymru, cynlluniau awdurdodau lleol a Datganiadau Ardal. Yn ogystal â'r angen am gamau gweithredu parhaus trwy ddulliau rheoleiddio a rheoli amgylcheddol traddodiadol, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen i ni drawsnewid sut rydym yn byw a'r systemau sy'n cynnal ein ffordd o fyw er mwyn sicrhau bod Cymru yn rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Wrth alw am drawsnewid y systemau ynni, trafnidiaeth a bwyd (y tri dylanwad mwyaf ar yr amgylchedd byd-eang) roedd yr adroddiad yn adleisio adroddiadau IPCC y Cenhedloedd Unedig ac IPBES[9]. O ystyried bod llawer o bobl yn cefnogi'r angen am ddull systemau o'r fath, mae'n anodd nodi union effaith yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Fodd bynnag, rydym wedi clywed bod awdurdodau lleol, grwpiau cymdeithas sifil, megis TUC Cymru, a Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i'r adroddiad a'u bod yn ei ddefnyddio i lywio eu syniadau ar gyfer camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

## Sut rydym yn defnyddio'r Datganiadau Ardal

**Rydym yn defnyddio Datganiadau Ardal trwy adlewyrchu'r themâu sy'n codi o'r rhain yn y cynllun Lle ar gyfer pob un o ardaloedd gweithredol ein sefydliad** (Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, De-ddwyrain Cymru, Canol De Cymru, a De-orllewin Cymru). Er enghraifft, mae gan Ddatganiad Ardal y De-ddwyrain bedair thema (Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd; Cysylltu ein Tirweddau; Iach Heini Cysylltiedig; Ffyrdd o Weithio), ac mae chwe thema Cynllun Lle y De-ddwyrain yn cynnwys y themâu hyn. Mae adlewyrchu Datganiadau Ardal yn ein Cynlluniau Lle fel hyn yn sicrhau bod y Datganiadau Ardal yn cael eu hymgorffori'n wirioneddol yn ein Gweithrediadau. Mae'r Datganiad Ardal ar gyfer y Môr hefyd yn sylfaen i Gynllun Morol blynyddol Cymru.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth wedi ystyried Datganiadau Ardal hefyd. Felly, er enghraifft, cafodd y Cynllun Gwasanaeth Stiwardiaeth Tir ei ddatblygu'n ailadroddus ac roedd yn cyfuno blaenoriaethau'r Datganiadau Ardal mewn fframwaith cenedlaethol.

Nid yw Datganiadau Ardal yn ddigyfnewid a byddant yn esblygu'n ailadroddus trwy'r broses o gynyddu ymgysylltiad a chasglu tystiolaeth newydd, gan arwain at syniadau newydd a gweithio ar draws ffiniau.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1***, ***2***, *3*, *4*, *5*, *6*, ***7***

[9] IPCC y Cenhedloedd Unedig (Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd) ac IPBES (Y Platfform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau)

## Nodweddion gwella ecolegol mewn strwythurau amddiffyn arfordirol

**Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn datblygu dogfennau canllaw a phecynnau cymorth hyfforddi y gellir eu defnyddio i gefnogi cynnydd yn y defnydd o nodweddion gwella ecolegol (fel pyllau creigiau artiffisial a phaneli morwaliau byw) o fewn strwythurau amddiffyn yr arfordir.** Mae defnyddio nodweddion o'r fath yn rhan annatod o thema'r Datganiad Ardal Forol i godi ymwybyddiaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur ar yr arfordir a chynyddu'r defnydd ohonynt. Mae nodweddion fel pyllau creigiau artiffisial a phaneli morwaliau byw yn helpu i gefnogi gwelliannau mewn bioamrywiaeth ar strwythurau amddiffyn yr arfordir drwy ddynwared priodweddau a chymhlethdod yr arwyneb ar draethau naturiol.

Mae'r deunyddiau canllaw wedi'u bwriadu ar gyfer timau rheoli perygl llifogydd a rheoli asedau yn ein sefydliad a rhanddeiliaid ehangach sydd â gweithrediadau amddiffyn yr arfordir neu sy'n berchen ar asedau ar hyd yr arfordir megis awdurdodau lleol, Network Rail a Dŵr Cymru. Maent yn rhoi crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth yn ymwneud â defnydd y nodweddion hyd yn hyn, prosesau dangosol fesul cam i gynorthwyo ymarferwyr i gwblhau'r camau amrywiol sy'n gysylltiedig â phrosiectau, ac astudiaethau achos o'u defnydd yng Nghymru.

Yn ystod y broses, buom yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i nodi rhai o'r rhwystrau a'r heriau allweddol i ddefnyddio'r nodweddion yn eu gweithrediadau, ac rydym wedi nodi cyfres o gamau gweithredu i helpu i'w goresgyn. Bydd llwyddiant llawer o'r prosiectau hyn yn dibynnu ar gydweithio rhwng sefydliadau gwahanol (gan gynnwys ein sefydliad, Prifysgolion, diwydiant a chyflenwyr) sydd wedi sefydlu arbenigedd mewn agweddau gwahanol ar y prosesau. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn sefydlu prosiect prawf i ddefnyddio nodweddion gyda thimau yn fewnol neu randdeiliaid ehangach.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: *1*, ***2***, *3*, *4*, *5*, *6*, *7*

## Natur a Ni

**Mae Natur a Ni yn sgwrs genedlaethol rydym wedi'i chynnal. Y nod yw cynnig cyfleoedd i bobl yng Nghymru feddwl am sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol, ystyried sut mae angen i berthynas cymdeithas â natur newid nawr a thros y 30 mlynedd nesaf.**

Mae'r rhaglen Natur a Ni yn ceisio cynnwys pawb yng Nghymru mewn sgwrs genedlaethol am ddyfodol yr amgylchedd naturiol. Nodau deuol y fenter yw cynyddu ymwybyddiaeth o natur a'r argyfwng hinsawdd, a chreu llwyfan i feithrin cydweithrediad rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector (i dreialu syniadau newydd, lansio arbrofion a chefnogi arloesedd ar gyfer gweithredu). Wrth gynllunio ein dull gweithredu rydym yn ymgorffori egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac SMNR – gan feddwl yn yr hirdymor drwy ddefnyddio adnoddau Dyfodol, archwilio ymgysylltiad, cyfranogiad a chydweithio. Rydym wedi gorfod ystyried yr ystod o adnoddau cyfathrebu ac ymgysylltu sydd ar gael i ni, a sut y gallwn wneud y fenter mor ddiddorol â phosibl i ystod eang o gynulleidfaoedd. Buom yn siarad ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli lleisiau nas clywir yn aml er mwyn deall eu hanghenion, ac o ganlyniad, aethom ati i ddatblygu dulliau gwahanol o gynnwys pobl ac adnoddau ychwanegol fel bod modd i grwpiau bach gymryd rhan. Hefyd, aethom ati i gomisiynu dau 'awdur preswyl' er mwyn helpu pobl i ymgysylltu.

Rydym wedi derbyn y nifer fwyaf o ymatebion ar gyfer ymarferiad ymgysylltu CNC hyd yma, a bydd cyfle i ni ddatblygu llawer o elfennau cadarnhaol sy'n deillio o'r ymarferiad. Fodd bynnag, mae bylchau o hyd o safbwynt amrywiaeth demograffig yr ymatebwyr. Mae angen i ni weithio hyd yn oed yn galetach i ennyn diddordeb pobl ifanc a lleisiau nas clywir yn aml. Mae angen i ni fod yn fwy lleol neu bersonol yn ein dull o drafod "materion pwysig" gan ganolbwyntio ar hygyrchedd yr iaith a ddefnyddir gennym.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022-23 wrth i ni geisio atgyfnerthu'r cysylltiadau rydym wedi'u datblygu hyd yn hyn.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: **1, 2, 3, 4, 5, 6, 7**

## WBO2: Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

Gall dull cwbl integredig o reoli tir a dŵr yng Nghymru mewn modd cynaliadwy ddod â manteision lluosog ym mhob sector – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd eto. Ein nod yw rhoi'r dull hwn ar waith ar y tir ac yn y dŵr a reolir gennym, ac annog pob rheolwr tir a dŵr i fabwysiadu dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Gweithredu i adfer Mawndiroedd Cymru*, gyda 785 hectar o weithgarwch adfer mawndiroedd wedi'i gwblhau ledled Cymru. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Creu coetir newydd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gan nodi/caffael 157 hectar a phlannu 27 hectar.*[10] Statws y mesur: Melyn
- *Cynnal Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig*, gan gadw ardystiad yn dilyn yr archwiliad allanol diweddaraf. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cyflwyno ymchwiliadau ac ymatebion sy'n gysylltiedig â dŵr*, gyda 2,268 o ymchwiliadau wedi'u cynnal o gyfanswm o 2,597 gofynnol, ac adolygu ac ymateb i ymgynghoriadau ar gynlluniau[11]. Statws y mesur: Coch
- *Datblygu camau gweithredu rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru,* gyda'r holl brosiectau perthnasol wedi'u cwblhau. Statws y mesur: Gwyrdd

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflwyno'r Rhaglen Creu Coetiroedd (gan gynnwys Argymhellion 'Archwiliad Dwfn' Llywodraeth Cymru) a gwasanaethau cysylltiedig*
- *Cyflwyno'r 3ydd cylch o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan sicrhau gwelliannau*
- *Cyflwyno cam nesaf y Rhaglen Adfer Mwyngloddiau Metel i fynd i'r afael â gwaddol tir halogedig, effeithiau ar ansawdd dŵr a pheryglon mwyngloddiau*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

[10] Ar ôl penderfynu oedi cyn plannu ar ddau safle er mwyn caniatáu rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid
[11] Yn dilyn cyhoeddi'r cynllun y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth, gan gynnwys mewn Dalgylchoedd Cyfle.

## Amgylchedd dŵr Cymru – cyflwr, heriau a mesurau

**Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn amlinellu cyflwr amgylchedd dŵr Cymru a'r camau sydd eu hangen i'w gynnal a'i wella. Rydym wedi ymgynghori ar Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd diwygiedig i'w cyhoeddi yn ddiweddarach eleni a fydd yn dylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol.**

Mae dŵr ac amgylcheddau dŵr yn hanfodol i fywyd a bywoliaethau. Mae dŵr yn adnodd hanfodol i fusnesau ac amaethyddiaeth, ac yn hollbwysig i sicrhau y bydd yr economi yn ffynnu. Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr[12], mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn defnyddio dull gweithredu holistaidd, o'r dalgylch i'r arfordir, er mwyn rheoli'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr a'r camau gweithredu gofynnol i'w warchod a'i wella. Yn ôl yr asesiad diweddaraf o statws cyrff dŵr Cymru (yn 2021), roedd gan 40% ohonynt statws da (neu well).

Yn 2021/22 cwblhawyd 664 o ymchwiliadau gennym yn ymwneud â gwella neu gynnal statws dyfroedd o gwmpas Cymru, ac erbyn hyn rydym wedi cwblhau cyfanswm o 2,268 fel rhan o raglen o 2,597. Mae'r ymchwiliadau hyn yn gwella dealltwriaeth o'r rhesymau pam nad oes gan rai cyrff dŵr statws da. Mae camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau blaenorol wedi arwain at ragor o welliannau yn yr amgylchedd dŵr. Er bod llai o ymchwiliadau na'r disgwyl wedi'u cwblhau yn ystod 2021/22, bydd yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn helpu i wella a chynnal amgylcheddau dŵr o gwmpas Cymru yn y dyfodol. Gan fod Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cael eu diweddaru ar sail cylch 6 blynedd, rydym wedi ymgynghori ar gynlluniau newydd a'u datblygu, a disgwylir i'r cynlluniau ar gyfer y Dyfrdwy a Gorllewin Cymru gael eu lansio yn haf 2022/23[13].

Er mwyn dylanwadu ar fuddsoddiad cwmnïau dŵr yn y dyfodol, buom yn gweithio hefyd gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) a chwmnïau dŵr. Bydd rhywfaint o'r buddsoddiad hwn yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddalgylchoedd ACA (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig), gorlifoedd stormydd, a Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Fodd bynnag, bydd pob maes deddfwriaethol amgylcheddol sy'n berthnasol i gwmnïau dŵr yn cael ei ystyried.

## Trwyddedau cwympo coed yn y dyfodol

**Roedd yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnwys cynnig i roi'r pwerau i ni ddiwygio trwyddedau cwympo coed ac ychwanegu amodau atynt. Ar ôl cael ei basio'n ddeddf, bydd y cynnig hwn yn ein helpu i sicrhau bod pob trwydded coedwigaeth a gyhoeddir gennym yn helpu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.**

Trwyddedau cwympo coed yw'r unig drwyddedau a gyhoeddir gennym na allwn eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu maes o law os oes angen. Ni allwn ychwanegu rhagor o amodau cyffredinol atynt y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu diffinio'n fanwl iawn gan Ddeddf Coedwigaeth 1967 ychwaith. Fe wnaeth Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ddatganiad ar arwyddocâd y sefyllfa hon yn ystod Cyfarfod Llawn o'r Senedd ym mis Rhagfyr 2021, gan

[12] Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017
[13] Disgwylir i'r cynllun ar gyfer yr Hafren, dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd, gael ei lansio yn ddiweddarach eleni

gyfeirio'n benodol at wiwerod coch ond gan gydnabod y defnydd ehangach hefyd. Bydd newid deddfwriaethol arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) sydd i'w ystyried gan y Senedd yn gynnar yn hydref 2022 yn barod i dderbyn Cydsyniad Brenhinol tua dechrau haf 2023.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buom yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru yn rhinwedd ein rôl gynghori, gan egluro sut y gellir defnyddio'r pwerau newydd arfaethedig a darparu tystiolaeth o effeithiau posibl. Cafwyd diddordeb mawr gan randdeiliaid, yn enwedig cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r diwydiant coedwigaeth. Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru CNC dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyfranogiad y rhanddeiliaid hyn. Mae'r diwydiant coedwigaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei berfformiad amgylcheddol trwy fabwysiadu Safon Coedwigaeth y DU ym 1998, a bydd y broses o dderbyn y pwerau ychwanegol hyn yn ein galluogi i ystyried ffactorau pwysig sy'n berthnasol i safleoedd penodol. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r Safon ac yn helpu i ddiogelu adnoddau naturiol Cymru.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Gwella hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor ffermydd da byw

**Roedd Datganiad Ardal Canolbarth Cymru yn cefnogi menter ymchwil dan arweiniad ffermwyr yn Ne Powys i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth leol a nodwyd gan ffermwyr da byw sydd am wella hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor eu ffermydd.** Mae cynhyrchu da byw, sy'n dibynnu ar gynhyrchiant glaswelltir, yn gwneud cyfraniad pwysig at gynhyrchu protein yn gynaliadwy, yn ogystal ag amsugno mwy o garbon a rheoli bioamrywiaeth ar gyfer gwasanaethau ecosystemau lluosog.

Yn aml, mae gwaith ymchwil ar effaith pori ar ecosystemau wedi canolbwyntio ar gymariaethau cymharol syml rhwng tir pori a thir nad yw'n cael ei bori – dull sy'n gallu hepgor mân wahaniaethau arwyddocaol, yn enwedig ar lefel leol. Er mwyn llenwi'r bwlch hwn, ymchwiliodd y prosiect i sut mae gwybodaeth leol – am y math o bori a'r dwysedd – yn hanfodol wrth nodi effeithiau ar iechyd pridd a stociau carbon pridd. Ariannwyd y prosiect gan bartneriaeth sero net AHDB/BBSRC[14] a'i nod oedd nodi'r dull gorau o reoli pori sy'n berthnasol i'r amodau lleol a mesur eu manteision i fioamrywiaeth pridd, cynnwys carbon pridd a chynaliadwyedd glaswelltir.

Hefyd, nododd y prosiect ddulliau o gyfleu'r pwnc cymhleth hwn i ffermwyr eraill er mwyn cymell newid posibl mewn ymddygiad a datblygu arferion ffermio mwy cynaliadwy. Mae ymchwilwyr o Brifysgol Swydd Gaerloyw, y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol, a Cynidr Consulting gyda chymorth CNC a Lantra wedi cydweithio â phartneriaid o blith ffermwyr i gyd-ddylunio egwyddorion er mwyn lleihau effeithiau pori da byw ar ecosystemau. Roedd y prosiect yn cyflawni yn erbyn themâu a blaenoriaethau amrywiol Datganiad Ardal Canolbarth Cymru ac mae'n enghraifft o weithio mewn partneriaeth ac o ddiddordeb cyffredin y partneriaid perthnasol mewn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

[14] Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC)

## Atal llygredd i fyny'r afon

**Mae ein prosiect Llaeth wedi helpu ffermwyr i wneud y gorau o'r maethynnau yn y slyri a gynhyrchir gan eu stoc trwy roi cyngor ac arweiniad ar storio a defnydd buddiol, cefnogi eu busnes fferm, a diogelu ansawdd ein hafonydd.** Mae ein prosiect Llaeth wedi bod yn cefnogi ffermwyr i wneud y defnydd gorau o'r maethynnau yn eu slyri a diogelu ansawdd ein hafonydd yn ystod 21/22.

Mae'r prosiect wedi ymweld â mwy nag 80 o ffermydd newydd yn ystod y flwyddyn ac wedi gwneud ymweliad dilynol â mwy na 140 o ffermydd a oedd wedi cael ymweliad blaenorol. Yn ystod yr ymweliadau dilynol, cofnodwyd mwy na 70 o welliannau sylweddol, yn ogystal â llawer o fân atgyweiriadau megis cafnau glaw wedi'u hatgyweirio.

Cofnodwyd bod nifer o ffermydd wedi cynyddu eu lle storio slyri hefyd drwy osod lagwnau slyri pridd a thanciau storio uwchben y ddaear. Mae nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer ffermydd amrywiol ledled Cymru ar y gweill hefyd. Mae'r gwaith pwysig hwn ar ffermydd yn helpu i ddiogelu ein cyrsiau dŵr ac yn cynorthwyo busnesau fferm i wneud y gorau o'r maethynnau sydd ar gael iddynt.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## WBO3: Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

Nododd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol na fydd llawer o ecosystemau'n gallu addasu'n ddigon da i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill yn y dyfodol, ac felly na fyddant yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom o bosibl – fel aer a dŵr glân. Rydym yn dynodi safleoedd arbennig fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er enghraifft – ond mae ein gwaith yn llawer ehangach na hynny. Ein nod yw ystyried bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Gweithredu ar yr Argyfwng Hinsawdd*, gan adrodd ar gyflawni blaenoriaethau a sefydlu Tîm Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio newydd. Statws y mesur: Melyn

- *Gweithredu ym maes bioamrywiaeth*, gan gyflawni dros Natur Hanfodol a rhoi bioamrywiaeth wrth wraidd ein gwaith, gan greu rhaglen waith bioamrywiaeth ar draws ein holl swyddogaethau. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Gwella cyflwr nodweddion safleoedd gwarchodedig*, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Cynorthwyo rhywogaethau sy'n dirywio, neu sydd ar fin diflannu*, gan gynnwys rhai o'n rhywogaethau mwyaf prin, er nad ydym wedi adrodd ar y broses o ddatblygu blaenoriaethau yn unol â'r bwriad [15]. Statws y mesur: Melyn

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflwyno'r Rhaglen Rhywogaethau sy'n Prinhau i dargedu rhywogaethau sy'n prinhau neu'r rhai sydd ar fin diflannu*

- *Cyflwyno Rhaglenni Adfer Cynefinoedd, gan gynnwys datblygu Cynllun Gweithredu Glaswelltir Cenedlaethol*

- *Cyflwyno ein prosiectau LIFE yr UE*

- *Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr 'Archwiliad Dwfn' o fioamrywiaeth a helpu i roi'r argymhellion ar waith*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

[15] er mwyn canolbwyntio ar adolygiad o rywogaethau a warchodir Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodlenni 5 ac 8, sy'n adlewyrchu anifeiliaid a phlanhigion a warchodir)

## Ein swyddogaeth wrth fynd i'r afael â'r argyfwng Hinsawdd a Natur

**Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn hanfodol er mwyn rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, felly mae'n allweddol i gyflawni ein Hamcanion Llesiant.** Ers datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019, rydym wedi bod yn gweithio i brif ffrydio ystyriaeth o newid yn yr hinsawdd yn ein holl raglenni gwaith, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Mae Rheoli ein Hystâd yn hanfodol, yn enwedig y broses o adfer mawndiroedd ac ehangu coetiroedd er mwyn cynyddu lefelau storio carbon ar y 7% a mwy o dir Cymru a reolir gennym. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn enghraifft wych o brosiect lle rydym yn adfer tua 700 hectar o fawndir bob blwyddyn ledled Cymru gan arwain at fanteision bioamrywiaeth a lleihau allyriadau carbon. O safbwynt ein hadeiladau a'n fflyd, rydym wedi bod yn modelu goblygiadau gweithio hybrid ar ôl Covid a'r potensial sylweddol sy'n deillio o hynny i leihau ein hôl troed carbon sefydliadol drwy leihau cymudo. Rydym wedi datblygu cyfres o egwyddorion a safonau a fydd yn llywio'r adolygiad presennol o'n hadeiladau er mwyn lleihau eu defnydd o ynni a'u gwneud yn fwy gwydn i dywydd eithafol yn y dyfodol. Yn ogystal â chynllunio ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn eang ar ein safleoedd, rydym wedi cyflwyno Olew Llysiau Hydrogenaidd fel tanwydd pontio ar gyfer cerbydau a pheiriannau na ellir eu disodli eto gan gerbydau trydan cyfatebol, gan arwain at ostyngiad o tua 90% mewn allyriadau.

Mae rhannu ein profiad gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy weithdai rhanbarthol a grwpiau cydweithredol yn helpu i gyflymu camau gweithredu ehangach. Gwnaethom arwain brosesau cydweithio rhwng asiantaethau amgylcheddol y DU er mwyn cyflwyno'r achos o blaid defnydd ehangach o atebion sy'n seiliedig ar natur yn CoP26 yn Glasgow a thrwy ddigwyddiadau Wythnos Hinsawdd Cymru. Roedd CoP26 yn gyfle i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r heriau newid yn yr hinsawdd sy'n ein hwynebu a chyflwyno'r achos o blaid camau gweithredu cyflym ledled Cymru – dylai'r gynhadledd bioamrywiaeth gyfatebol (CoP15) yn ddiweddarach yn 2022 fod yn achlysur tebyg ar gyfer byd natur.

## Datblygu Natur am Byth

**Trwy weithio mewn partneriaeth â naw elusen amgylcheddol, mae ‘Natur am Byth’ yn gweithredu i achub rhywogaethau rhag diflannu ac ailgysylltu pobl â natur – gan wella tirweddau ac ardaloedd arfordirol ledled Cymru.** Mae partneriaeth Natur am Byth[16] wedi bod yn datblygu un o raglenni treftadaeth naturiol ac allgymorth mwyaf Cymru i achub rhywogaethau rhag diflannu ac ailgysylltu pobl â natur. Rydym yn disgwyl ysbrydoli pobl o bob cefndir yng Nghymru i weithredu – gan ysgogi cymunedau amrywiol i ofalu am y bywyd gwyllt ar eu stepen drws. Rydym yn cydweithio yn y bartneriaeth â naw elusen amgylcheddol, ac mae’n darparu modd pwysig iawn yn y sector treftadaeth naturiol o achub rhywogaethau sydd o dan fygythiad.

Wrth ddatblygu’r rhaglen, mapiodd y bartneriaeth 62 o rywogaethau dan fygythiad yn erbyn themâu a nododd y tirweddau a’r ardaloedd arfordirol i dargedu gwaith cadwraeth ac ymgysylltu. Rydym yn canolbwyntio ar naw ardal o gwmpas Cymru. Mae Natur am Byth yn bartneriaeth unigryw sy’n cyfuno materion rheoli’r tir a’r môr - gan gefnogi rhywogaethau morol sy’n agored i niwed yn ogystal â rhywogaethau ar y tir ac mewn dŵr croyw. Yn y rhan

[16] Partneriaeth sy’n cynnwys ein sefydliad ni a’r canlynol: Amphibian and Reptile Conservation, Bat Conservation Trust, Buglife, Bumblebee Conservation Trust, Butterfly Conservation, Plantlife, Marine Conservation Society, RSPB a Vincent Wildlife Trust

fwyaf o ardaloedd, byddwn yn defnyddio dull integredig ar draws cynefinoedd i sicrhau manteision lluosog ar gyfer rhywogaethau prin. Mae rhai ardaloedd yn cynnwys poblogaethau ynysig o rywogaethau sydd ar fin diflannu, ac mae angen camau penodol i sicrhau eu bod yn parhau i oroesi.

Ym mis Mehefin 2021, dyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri dros £900,000 i ddatblygu'r prosiect yn wreiddiol, a bydd y cam gweithredu yn cael ei gyflawni yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf. #naturambyth

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: *1*, ***2***, ***3***, ***4***, *5*, ***6***, ***7***

## WBO4: Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

Rydym yn cynghori ar y tebygolrwydd o lifogydd ac yn rhagweld ac yn monitro'r tebygolrwydd o lifogydd ac, yn ogystal â datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, rydym yn cefnogi cymunedau lleol i leihau eu risgiau. Yn yr un modd, rydym yn cynghori ac yn rheoleiddio safleoedd diwydiant a safleoedd gwastraff er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd llygredd yn cyrraedd yr amgylchedd naturiol ehangach. Hefyd, rydym yn darparu ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n codi er gwaethaf ein hymdrechion gorau. Rydym yn ceisio gweithredu yn gadarn ond yn deg, gan ymchwilio i ddigwyddiadau a defnyddio ein hystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol pan fydd angen.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Cynnal a chadw asedau perygl llifogydd*, gan sicrhau bod 98.1% o asedau perygl llifogydd mewn systemau risg uchel yn y cyflwr targed ar ddiwedd y flwyddyn. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Ymateb i ddigwyddiadau,* gan ymateb i 98% o ddigwyddiadau a aseswyd yn wreiddiol fel categori uchel o fewn pedair awr. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Diogelu mwy o eiddo rhag llifogydd*, gan ddarparu llai o amddiffyniad neu amddiffyniad parhaus i 1,081 eiddo yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan ragori ar ein targed. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Lifogydd*, a bydd nifer nad oeddent wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn yn cael eu gweithredu dros y misoedd nesaf. Statws y mesur: Melyn.
- *Parhau â gwaith i leihau llygredd o fwyngloddiau metel,* gan gynnwys gwaith yng Nghwm Rheidol ac Abbey Consols. Fodd bynnag, nid yw'r holl waith a gynlluniwyd wedi'i gwblhau, ac mae gwaith arall wedi'i ddwyn ymlaen. Statws y mesur: Melyn

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflawni ein rhaglenni cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod ein hamddiffynfeydd rheoli perygl llifogydd yn parhau i ddarparu amddiffyniad parhaus ar gyfer cymunedau sydd mewn perygl*
- *Ymchwilio a darparu opsiynau i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau drwy'r Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd*
- *Cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys y blaenoriaethau a'r cynlluniau strategol ar gyfer pob dalgylch ledled Cymru*
- *Cwblhau adolygiad o'n dull o ymdrin â digwyddiadau amgylcheddol yn ein cylch gwaith*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

## Ymateb i ddigwyddiadau yn ystod y pandemig

**Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol pwysig[17] i ymateb yn uniongyrchol i ddigwyddiadau sydd o fewn ein cylch gwaith, ac i gefnogi swyddogaethau rheoli digwyddiadau sefydliadau eraill fel y gwasanaethau brys, er mwyn helpu i leihau'r risg i bobl a chymunedau sy'n deillio o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd.** Hefyd, rhaid i ni roi cynlluniau ar waith i sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein swyddogaethau, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yn ystod cyfnod o amharu.

Arweiniodd y pandemig Covid-19 at yr amhariad mwyaf ar arferion gwaith a welwyd gennym erioed. Fe wnaethom reoli ein hymateb i hyn drwy sefydlu ein grwpiau ymateb i ddigwyddiadau strategol a thactegol, ar sail ein cynlluniau ar gyfer y pandemig ac ymateb cynharach y sefydliad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Llwyddwyd i drosglwyddo'n gyflym i drefn lle'r oedd y rhan fwyaf o bobl yn gweithio gartref gan ganolbwyntio ar ddiogelu llesiant, iechyd a diogelwch ein staff ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau craidd, gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau.

Cynyddodd nifer y digwyddiadau amgylcheddol a adroddwyd i ni yn ystod y pandemig, o 6,270 yn 2019/20 i 7,350 yn 2020/21 a 7,670 yn 2021/22, sydd, yn ein barn ni, yn rhannol adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn treulio amser yn yr awyr agored yng nghefn gwlad Cymru ac felly'n fwy tebygol o arsylwi ac adrodd am ddigwyddiadau. Gwnaethom barhau i ymateb i'r adroddiadau hyn am ddigwyddiadau, gan gynnwys trwy fynychu digwyddiadau os oedd hynny'n angenrheidiol yn unol â'n canllawiau ac ar ôl rhoi asesiadau risg priodol ar waith. Hefyd, buom yn ymgysylltu ag Ymatebwyr Categori 1 eraill, trwy'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, er mwyn helpu i reoli ymateb ehangach y sector cyhoeddus i'r pandemig, gan ddarparu cymorth ar y cyd lle gofynnwyd amdano.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Rheoleiddio yn ystod y cyfyngiadau symud

**Mae ein gwaith rheoleiddio yn bwysig wrth ddiogelu'r amgylchedd, iechyd pobl, a llesiant. Er bod cyfyngiadau wedi'u rhoi ar waith i ymateb i bandemig y Coronafeirws, fe aethom ati i roi mesurau ar waith i gynnal ein gwasanaeth i'r graddau posibl, gan sicrhau bod ein staff ac eraill yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach**.

Yn gynnar yn ystod y pandemig, fe aethom ati i gysylltu â'n holl weithredwyr diwydiant, gwastraff a dŵr a reoleiddir i'w hysbysu am ein disgwyliadau mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd. Er ein bod yn awyddus i sicrhau bod pob gweithredwr yn parhau i fodloni amodau ei drwyddedau, esboniwyd ein bod yn cydnabod na fyddai modd gwneud hynny o bosibl oherwydd y sefyllfa anarferol. Felly, gofynnwyd i weithredwyr ymgysylltu'n rhagweithiol â ni er mwyn trafod unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfiaeth fesul achos.

Gwnaethom 19 o benderfyniadau rheoleiddio dros dro i hwyluso rheoleiddio yn unol â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol gan adlewyrchu'r newid cyflym mewn amgylchiadau. Un enghraifft o benderfyniad a wnaed i hwyluso rheoliad cadw pellter cymdeithasol oedd llacio'r gofyniad am lofnodion personol ar ddogfennau Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff a dogfennau cludo traws-ffiniol.

---

[17] fel Ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)

Cafodd cyfyngiadau Covid-19 effaith fawr ar y gwaith cydymffurfio a oedd gennym mewn golwg; fodd bynnag, rhoddwyd blaenoriaeth i ymweliadau â safleoedd ac ymateb i faterion a oedd yn peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd a'r chyhoedd. Datblygwyd dulliau newydd o weithio i barhau ag asesiadau cydymffurfio, gan ddefnyddio galwadau ffôn, ymweliadau ffocws â safleoedd â blaenoriaeth ac amrywiaeth o ddulliau amgen er mwyn casglu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, fe wnaethom lwyddo i ddefnyddio dulliau arolygu o bell neu ddull hybrid lle archwiliwyd dogfennau o bell cyn ymweld â safle. Mae adborth gan weithredwyr ar y dulliau hyn wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac rydym wedi dysgu hefyd bod angen gwaith paratoi ychwanegol i sicrhau bod gwaith cydymffurfio o bell yn llwyddiannus.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Rhaglen Adolygu Llifogydd – dysgu gwersi a rhoi gwelliannau ar waith

**Mae'r Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd yn canolbwyntio ar wella ein gwasanaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau proffesiynol i Gymru**, a fydd yn ei dro yn sicrhau dyfodol gwell i bobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru sydd mewn perygl oherwydd llifogydd ac i staff CNC sy'n ymwneud â gwaith rheoli ac adfer yn dilyn digwyddiadau.

Ym mis Chwefror 2020, dioddefodd Cymru rai o'r llifogydd mwyaf dinistriol a welwyd mewn cenhedlaeth. Roedd rhai o'n gwasanaethau o dan bwysau sylweddol yn ystod y digwyddiadau eithafol hyn, a chynhaliwyd adolygiad gennym i asesu'r gwersi a ddysgwyd. Cyhoeddwyd ein hadroddiad Adolygiad o Lifogydd ym mis Hydref 2020, gan nodi 74 o gamau i wella gweithrediadau CNC yn ystod llifogydd. Rydym wedi mynd ati i roi'r camau gweithredu ar waith drwy'r Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd, a gwnaethom gynnydd da yn 2021/22, gyda 46 o'r 74 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn gwneud cynnydd ar y camau gweithredu sy'n weddill, ac mae angen rhoi llawer ohonynt ar waith dros yr hirdymor.

Mae'r heriau sy'n deillio o gael tywydd eithafol yn amlach sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn sylweddol, a bydd yr heriau hyn yn cynyddu yn y dyfodol. Bydd gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Lifogydd yn gwella ein gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn ystod llifogydd, ac yn helpu i gyflawni ein hamcan llesiant. Byddant yn helpu ein staff hefyd, trwy roi mesurau ar waith i wella gwydnwch ein hymateb. Rydym wedi adolygu ein harferion rheoli tir hefyd, gan sicrhau gwelliannau yn y maes hwn. Mae dysgu o ddigwyddiadau a rhoi gwelliannau ar waith yn elfen allweddol o ddull hyblyg sy'n defnyddio tystiolaeth i helpu i atal risgiau yn yr hirdymor.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Dulliau Rheoleiddio ac Iechyd

**Mae 36 o drwyddedau amgylcheddol ar gyfer gosodiadau trin gwastraff wedi'u hadolygu a'u huwchraddio er mwyn sicrhau bod y gosodiadau hyn yn perfformio yn unol â'r safonau amgylcheddol uchaf.** Roedd hyn yn cynnwys adolygu trwyddedau presennol yn erbyn arferion gorau diweddaraf y diwydiant – Dogfen Gyfeirio Technegau Gorau sydd ar Gael (BREF) yr UE.

Roedd yr adolygiadau o drwyddedau hyn yn un o ofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ac maent yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau cysylltiedig yn parhau i ddefnyddio'r technegau gorau ar gyfer atal neu leihau allyriadau ac effeithiau ar yr amgylchedd. Gall technegau gynnwys y dechnoleg sy'n cael ei defnyddio a sut mae gosodiad yn cael ei gynllunio, ei adeiladu, ei gynnal, ei weithredu a'i ddatgomisiynu.

Roedd cyfleusterau mawr sy'n defnyddio ystod eang o dechnolegau i drin gwastraff wedi'u cynnwys yn yr adolygiad - gan gynnwys cyfleuster trin gwres i ddiheintio gwastraff clinigol peryglus, prosesau Treulio Anaerobig biolegol, ac adfer oergelloedd ar ddiwedd eu hoes. Lle mae gwelliannau wedi'u nodi a'u gweithredu, bydd hyn yn arwain at berfformiad amgylcheddol gwell a llai o allyriadau.

Roedd amodau newydd ar gyfer safleoedd treulio anerobig yn cynnwys gwelliannau i fesurau cadw eilaidd a gofynion ychwanegol ar gyfer monitro a rheoli paramedrau gwastraff a phrosesau allweddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd yn y gosodiad treulio a lleihau'r posibilrwydd o niwsans oherwydd arogleuon. Hefyd, mae'n darparu rhybudd cynnar am unrhyw fethiant yn y system, gan leihau'r risg o ffrwydradau a cholli rheolaeth. Bydd gan safleoedd sy'n derbyn ac yn adfer oergelloedd ar ddiwedd eu hoes derfyn llymach ar gyfer rhyddhau'r llygrydd niweidiol clorofflrocarbonau (CFCs).

Mae'r trwyddedau wedi'u hailgyhoeddi erbyn hyn ac mae'r amodau wedi'u diweddaru er mwyn gwella systemau rheoli'r amgylchedd, gan ddarparu lefel uwch o berfformiad amgylcheddol ac ymrwymiad i welliant parhaus.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## WB05: Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

Yn ogystal â darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer hamdden ar y tir sy'n cael ei reoli gennym ein hunain, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog pawb i fwynhau'r awyr agored ledled Cymru a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cefnogi prosiectau cymunedol ac yn helpu pobl i ddysgu am werth yr amgylchedd naturiol, ei bwysigrwydd mewn bywyd bob dydd a'i ran yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Darparu hyfforddiant iechyd ac addysgwyr,* gan gynnwys ar gyfer Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru 2022 ac atgyfnerthu ein syniadau ym maes polisi iechyd. Statws y mesur: Gwyrdd

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Gwella ein darpariaeth ar gyfer ymwelwyr lleol neu ymwelwyr o leoedd eraill yn y coetiroedd a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a reolir gennym*

- *Cynghori Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen diwygio mynediad a chyfrannu at yr adolygiad o Lwybr Arfordir Cymru a'r broses o integreiddio â rhwydweithiau llwybrau ehangach*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

## Pobl yn mwynhau eu hamgylchedd lleol

**Hyrwyddo a hwyluso gweithgareddau iach ar draws yr Ystad a reolir gennym – gan helpu i wella iechyd meddwl a chorfforol.** Fel rhan o'r broses o annog pobl i fynd allan i wella eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, rydym wedi gwneud gwelliannau ledled Cymru ar gyfer safleoedd a reolir gennym. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Gwella arwyddion, dulliau dynodi llwybrau a dehongli ochr y llwybr ar gyfer y 266 o lwybrau ag arwyddbyst ar yr ystad a reolir gennym - gan wella profiad ymwelwyr yn y coetiroedd hyn a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

- Arddangos dehongliad treftadaeth newydd yn ein canolfannau ymwelwyr, gan gynnwys esbonio arwyddocâd diwylliannol y nodweddion safle hyn

- Ffilm hyrwyddo am ymweld â'n coetiroedd a'n gwarchodfeydd

- Gwella'r stoc ffotograffiaeth sy'n adlewyrchu ymweliadau â safleoedd sy'n gysylltiedig â hamdden

- Darparu gwybodaeth newydd am hygyrchedd safleoedd a llwybrau i ymwelwyr – gan alluogi pobl i benderfynu pa lwybrau fyddai orau iddynt ymweld â nhw

- Cynnal 47 o lwybrau beicio

- Y nifer uchaf erioed o ymweliadau â'r prif safleoedd ymwelwyr (ar ôl Covid)

- Diweddariadau statws gwefan mewn perthynas â safleoedd – gan sicrhau bod ymwelwyr yn derbyn y newyddion diweddaraf am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar yr ymweliadau.

Hefyd, fe wnaethom barhau i groesawu ceisiadau am ganiatâd ar gyfer digwyddiadau hamdden, gan gynnwys beicio, rhedeg, marchogaeth a thriathlonau – gan hybu a chefnogi ymarfer corff yn yr awyr agored ar y safleoedd a reolir gennym.  Hefyd, rydym yn gweithio ar system TG newydd i gefnogi'r ceisiadau hyn a'r ymgynghoriad arnynt yn y dyfodol.

Buom yn cynllunio rhagor o welliannau i'n cefnogaeth ar gyfer prosiectau coetiroedd cymunedol, ac mae Llais y Goedwig yn cefnogi prosiectau newydd a phrosiectau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys: Coed y Bont, Coetir Ysbryd Llynfi, Llyn Parc Mawr a Golygfa Gwydyr. Rydym yn cydnabod y manteision niferus sy'n deillio o brosiectau o'r fath, e.e. meithrin tîm, ymarfer corff mewn 'campfeydd gwyrdd', cyfle i gyfarfod â phobl eraill yn eich cymuned, gwneud ffrindiau a bod yn rhan o rywbeth cadarnhaol – a'r cyfan yn cyfrannu at iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwell[18].

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Dysgu am oes – Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu am ein hamgylchedd naturiol a dysgu ar ei gyfer

**Rydym wedi darparu deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio ledled Cymru, gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i ehangder y Cwricwlwm newydd i Gymru ac sy'n**

[18] Mae'r gweithgaredd hwn yn cyfrannu at nifer o argymhellion yr Archwiliad Dwfn i Goed a Phren

**cefnogi cynnydd naturiol i bawb.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ehangu ein cynnig i'r sector addysg i gynnwys amrywiaeth o adnoddau newydd a dull cyfunol o hyfforddiant wyneb yn wyneb a hyfforddiant trwy weminarau. Mae'r argyfwng natur ac hinsawdd a'r angen i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i'n hadnoddau addysg – sy'n cynnwys cynlluniau gweithgareddau, cardiau adnoddau, gemau a nodiadau gwybodaeth i gynorthwyo pob addysgwr a lleoliad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pynciau yn cynnwys Mawndiroedd, Llwybr Arfordir Cymru a Newid Hinsawdd, a dywedodd un addysgwr: "Mae'n gwrs gwych, ac rwy'n gadael gyda neges gadarnhaol sy'n ysbrydoli rhywun i weithredu." Mae sesiynau eraill yn ystyried plentyndod cynnar a sut mae natur yn gallu ein helpu i fod yn hapus ac yn iach, gan roi cyfle i gyfranogwyr fel gwarchodwyr plant a staff Meithrin, ymhlith eraill, i ddechrau sefydlu agweddau cadarnhaol at yr amgylchedd o oedran cynnar.

Mae dau brosiect strategol wedi dechrau yn Sir y Fflint a Sir Gaerfyrddin gyda'r nod o gynyddu'r oriau addysgu yn yr awyr agored a datblygu gwybodaeth staff a dysgwyr am yr amgylchedd. Gan ddefnyddio dull 'Mantell yr Arbenigwyr' dangoswyd sut y gellir defnyddio digwyddiad llygredd ffug i addysgu ar draws y cwricwlwm. Yn ôl un athrawes, roedd y broses o roi'r dull hwn ar waith ar gyfer ei dysgwyr yn "un o'r wythnosau mwyaf cofiadwy ac ANHYGOEL yn fy ngyrfa fel athrawes!"

Erbyn hyn, mae ein cynnig ehangach yn cynnwys cylchlythyr misol sy'n llawn enghreifftiau o ymarfer da, ein hadnoddau diweddaraf, ymgyrchoedd diddorol a diweddariadau ar gyllid, ac rydym yn chwilio o hyd am astudiaethau achos i amlygu arfer da. Hefyd, mae gan bob lleoliad addysg y cyfle i ymgysylltu â Miri Mes a Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, dwy ymgyrch sy'n hyrwyddo cysylltiad â natur ac ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol.

## WB06: Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Rydym am i Gymru gael ei chydnabod yn lle gwych i wneud busnes, sy'n croesawu twf gwyrdd, sectorau newydd, ymchwil ac arloesi. Yn ogystal â datblygu ein gweithgareddau masnachol ein hunain, rydym am annog busnesau i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a gweithio tuag at economi gylchol. Rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio – trwyddedu, monitro i gadarnhau cydymffurfiaeth a gorfodi – er mwyn diogelu'r amgylchedd naturiol a sicrhau nad yw busnesau cyfreithlon yn cael eu tanseilio.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Rheoleiddio safleoedd, ac ansawdd gollyngiadau dŵr,* gan sicrhau ymateb rheoleiddiol priodol i 100% o achosion torgydymffurfiaeth categori 1 a 2. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cynigiwyd 809,000m$^3$ o bren i'r farchnad*. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Mynd ati i roi ein Strategaeth Fasnachol ar waith,* gan baratoi ein hadolygiad blynyddol. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Diweddaru ein cyfraniad yn dilyn yr ymadawiad â'r UE,* gan barhau i gyfrannu at ddeddfwriaeth amgylcheddol newydd a gweithio gydag eraill. Statws y mesur: Gwyrdd

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflawni ein rhwymedigaethau statudol i drwyddedu, sicrhau cydymffurfiaeth a chymryd camau gorfodi*
- *Sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a chynghori mewn ymateb i'r newidiadau cyflym sydd eu hangen i gyflawni'r amcan Sero Net gan ymateb i bryderon amgylcheddol cyffredinol yn unol â Chod y Rheoleiddwyr*
- *Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddelio â gwaddol canrifoedd o fwyngloddio, gan sicrhau bod gwaith ar domennydd sy’n peri perygl yn cael ei wneud yn gyflym*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

## Gweithio gydag eraill i gefnogi adferiad (gwyrdd)

**Mae angen cydgynhyrchu cadarn yn awr yn fwy nag erioed. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i hwyluso gwaith y Grŵp Adferiad Gwyrdd.** Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar adfer o'r pandemig, gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau cyfunol a fydd yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ar gyfer pobl a byd natur. Mae camau gweithredu yn cael eu hysgogi drwy'r Grŵp Adfer Gwyrdd aml-asiantaeth a Grŵp y Sector Galluogi'r Amgylchedd.

Cafodd y Grŵp Adferiad Gwyrdd amlsector ei gynnull ym mis Mai 2020 i nodi blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu i sicrhau adferiad gwyrdd, ac roedd cyfiawnder cymdeithasol yn un o'i egwyddorion arweiniol. Un o dasgau eraill y Grŵp oedd datblygu cynllun ar y cyd i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd. Mae'r Grŵp yn cydweithio i ddatblygu a chefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ar y cyd, a fydd yn rhoi camau gweithredu ar waith ac yn sicrhau canlyniadau ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a natur ar gyfer pobl a byd natur. Fel rhan o'r gwaith Adferiad Gwyrdd, mae 'Grŵp y Sector Galluogi'r Amgylchedd' wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chyllidwyr er mwyn sbarduno camau gweithredu strategol cydweithredol yn ymwneud â chyllid grant yng Nghymru a chyfleoedd ariannu ehangach mewn perthynas â chanlyniadau amgylcheddol/natur yng Nghymru.

Drwy waith y bartneriaeth mae cyllid gwerth £5.3m wedi'i ddyrannu, trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bennaf, i awdurdodau lleol a detholiad o brosiectau llai. Hefyd, mae'r Grŵp wedi helpu i sicrhau cyllid gwerth £900,000 trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd sectorau mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cymorth ar gyfer datblygiad sefydliadol fel hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r cynnig ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol wedi deillio o allbynnau'r grŵp hefyd. Bydd y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn system i Gymru gyfan sy'n ysgogi pobl i gefnogi adferiad natur, gan weithredu fel dolen sy'n cysylltu pobl â hyfforddiant seiliedig ar natur, prentisiaethau, cyflogaeth, mentergarwch a gwirfoddoli.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5,*** 6, ***7***

## Gwerthiant Pren Cynaliadwy

**Rydym wedi llwyddo i gyflwyno rhaglen gwerthu coed fawr gan ennill £37 miliwn eleni er mwyn rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru**. Yn 2021/22 cynhaliwyd pedwar digwyddiad gwerthiant cystadleuaeth agored a gwahoddwyd cynigion ar gyfer 290 lot o bren, sef cyfanswm o dros 652,000 tunnell. Mae hyn yn cyfateb i 809,000m$^3$ o goed sy'n sefyll, ac fe wnaethom lwyddo i gyrraedd 97% o'n targed ar gyfer y flwyddyn. Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal y lefel hon o gynhyrchu yn rhwydd.

Cynyddodd y farchnad goed am ran helaeth o'r flwyddyn nes iddi sefydlogi yn gynnar yn 2022. Incwm diwedd y flwyddyn o werthiant coed oedd £37 miliwn, o ryw 25,000 swp o goed, sef cyfanswm o 625,000 tunnell. Mae'r prisiau cyfartalog ar hyn o bryd wedi cyrraedd eu lefel uchaf erioed. Yn ôl y rhagolygon ar gyfer 2022/23, bydd y farchnad yn parhau i fod yn gyfnewidiol wrth i gyfyngiadau Covid gael eu codi ac wrth i'r rhyfel yn Wcráin greu ansicrwydd yng Ngorllewin Ewrop o safbwynt cyflenwadau.

Yn unol ag argymhellion yr 'archwiliad dwfn'[18] o goed a phren, a'n Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren, sefydlwyd prosiect gennym i ddatblygu dulliau amgen o werthu pren (hyd at 30% ohono) - gan geisio sicrhau ystod o werthoedd a buddion ar wahân i incwm yn unig.

Ledled y DU roedd 13 o farwolaethau yn gysylltiedig â gwaith coed yn ystod y flwyddyn, sy'n sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen, ac arweiniodd hyn at drafodaeth ar lefel Bwrdd ar rôl arweinyddiaeth CNC ym maes Llesiant, Iechyd a Diogelwch. Fe aethom ati i ddarparu rhagor o hyfforddiant staff ar reoli contractau gwerthu, a phenderfynwyd terfynu ein holl gontractau gwerthu gydag un cwsmer a oedd ag arferion iechyd a diogelwch annerbyniol.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Newid gweithgarwch masnachol

**Rydym yn rhoi prosiectau masnachol ar waith ar yr ystad a reolir gennym mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar werth economaidd da a sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol.**

Mae Strategaeth Fasnachol 2021-2026 yn nodi'r weledigaeth ar gyfer sut y bydd gweithgarwch masnachol yn ein sefydliad yn newid - gan gyd-fynd yn well â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a gweithredu mewn ffordd gadarnhaol ar yr argyfyngau Hinsawdd a Natur. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu prosiectau masnachol sy'n cyflawni ym meysydd Pobl, Planed a Ffyniant. Rydym eisiau bod yn hyblyg wrth arallgyfeirio ac arloesi ar draws ein portffolio, gan greu dulliau gwell o weithio mewn partneriaeth a mesur ein perfformiad.

Mae'r broses o integreiddio'r dulliau hyn wedi bod yn datblygu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'n partneriaid ar draws y sector ynni adnewyddadwy i chwilio am ddulliau newydd o wella ein gwasanaeth Cyflenwi Ynni. Mae ein tîm Gwerthu a Marchnata Pren wedi cychwyn prosiect sy'n adolygu sut y gallwn ddarparu dulliau amgen o brynu hyd at 30% o'n pren. Rydym wedi datblygu Rhaglen Arloesi Masnachol sy'n ystyried sut i ddarparu amrywiaeth o brosiectau masnachol newydd gan gynnwys claddedigaethau naturiol, nwyddau e-fasnach, cyllid gwyrdd, ynghyd â chysylltu â chyfleoedd ymchwil a datblygu academaidd yn y cyfnod cynnar. Hefyd, rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd masnachol eraill mewn sectorau fel y celfyddydau, diwylliant, hamdden a thwristiaeth.

Rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar ddarparu gwasanaeth masnachol mwy cydlynol i bartneriaid yn ein sefydliad, ac i'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw mewn sectorau eraill. Mae ein digwyddiad Rhwydwaith Masnachol cyntaf wedi rhoi cyfle i ni rannu ein cynnydd gyda mwy o randdeiliaid allanol, ac rydym yn bwriadu parhau â'r digwyddiadau hyn yn y dyfodol. Hefyd, mae gweithgarwch mewnol diweddar wedi arwain at welliannau mewn cymorth masnachol ar gyfer meysydd fel hawliau a chaniatâd ffilmio - ac mae cyfleoedd eraill yn yr arfaeth i ddatblygu'r cynnydd hwn yn fasnachol yn 22/23.

## Cefnogi ynni adnewyddadwy yng Nghymru

**Un o'n prif feysydd ffocws o safbwynt helpu i ddarparu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yw gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy. Roedd y gwaith ymchwil manwl yn ceisio mynd i'r afael â chyfleoedd a rhwystrau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn llawn,** gan gyflymu camau

gweithredu i leihau'r galw am ynni a manteisio i'r eithaf ar berchnogaeth leol gan gadw manteision economaidd a chymdeithasol yng Nghymru.

Gwnaethom gyfrannu'n weithredol at y gwaith ymchwil manwl gan helpu i lunio argymhellion, ac ers hynny rydym wedi bodyn gweithio'n rhagweithiol i gyflawni argymhellion sy'n berthnasol i ni. Rydym wedi bod yn cyfrannu at y canlynol, er enghraifft: adolygu dulliau rhoi caniatâd yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o drwyddedu morol; datblygu'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol ategol i lywio datblygiad ynni adnewyddadwy cynaliadwy; nodi adnoddau ar gyfer caniatâd a chynghori gan gynnwys sicrhau adnoddau hirdymor ar gyfer ein Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr; symleiddio cyngor ar ynni ar y môr; cefnogi gwelliannau caffael; ac ymgysylltu â'r gymuned. Hefyd, rydym yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a chynghori presennol yn effeithlon er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac rydym wedi darparu cyngor ar nifer o ymgynghoriadau'r Llywodraeth, fel Datganiadau Polisi Cenedlaethol y DU ar Ynni.

Mae ein tîm Masnachol wedi bod yn gweithio gyda thimau Cyflawni i gefnogi'r gwaith o gwblhau fferm wynt Clocaenog; ymgysylltu â datblygwyr ar gyfer ffermydd gwynt Alwen a Bryn er mwyn cwblhau'r dyluniadau (cyn cynllunio); trafod telerau prydlesu ffermydd gwynt Pant y Wal a Lluest y Gwynt a chwblhau trafodaethau ar gyfer cytundebau Mynediad Trydydd Parti ar gyfer Foel Trawsnant ac Ogwr Uchaf.

Hefyd, buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i helpu i sefydlu'r rhaglen Datblygwr Ynni Adnewyddadwy, gwneud gwaith dichonoldeb ar gyfer prosiect Brechfa dau a chynnal adolygiad bwrdd gwaith o'r ystad ehangach i nodi llif o gyfleoedd datblygu ffermydd gwynt.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## WB07: Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, sy’n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Rydym am fod y sefydliad gorau y gallwn fod, i'n staff, ein cwsmeriaid, a'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi newid yn sylweddol fel sefydliad. Ar ôl cwblhau ein proses ailstrwythuro staff, roedd modd i ni ganolbwyntio ar ddatblygu ein sefydliad er mwyn cefnogi staff a chwsmeriaid i gyflawni amcanion personol a busnes.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

Gan fyfyrio ar **gynnydd yn erbyn dangosfwrdd Cynllun Busnes 2021/22,** rydym wedi gwneud y canlynol:

- *Gweithredu ym meysydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*, gyda’n Bwrdd yn cymeradwyo ein strategaeth sefydliadol newydd ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Datblygu a gweithredu Strategaeth Pobl,* gyda chamau blaenoriaeth ar waith neu wedi'u cwblhau yn unol â'r cynllun gweithredu. Statws y mesur: Gwyrdd

- *Canolbwyntio ar Brofiad Cwsmeriaid,* er nad yw'r gweithgarwch a gynlluniwyd yn ymwneud â mapio teithiau cwsmeriaid wedi datblygu fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, a bydd yn symud ymlaen yn 2022/23. Statws y mesur: Coch

- *Ymgysylltu â Rhanddeiliaid,* ac mae archwiliad cysylltiedig o ganfyddiadau rhanddeiliaid yn cael ei ddadansoddi. Statws y mesur: Melyn

- *Gweithredu ein Rhaglen Adfywio Covid-19*, gan gynnwys gweithgarwch i hwyluso neu gefnogi dulliau gweithio hybrid. Statws y mesur: Melyn

Wrth edrych ymlaen, mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ein hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y **flwyddyn nesaf**:

- *Cyflwyno Adfywio – ein rhaglen adnewyddu yn dilyn pandemig Covid-19*

- *Meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth gyda'n cymunedau*

- *Darparu cyllid i bartneriaid sy'n cyflawni canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer yr amgylchedd a phobl Cymru*

- *Marchnata hyd at 750,000m$^3$ o bren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio dulliau amgen i farchnata hyd at 30% ohono*

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am nifer o'r sefyllfaoedd mesur terfynol uchod fel rhan o'r **enghreifftiau cyflawni o 2021/22** sy'n dilyn…

## Adfywio – ein rhaglen adnewyddu yn dilyn pandemig Covid-19

**Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sefydlu Adfywio - ein rhaglen adnewyddu yn dilyn y pandemig Covid-19. Mae Adfywio yn ceisio dysgu gwersi o'n hymateb i'r pandemig Covid-19, a thrawsnewid y ffordd rydym yn darparu rhai o'n gwasanaethau** - gan fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, yn ogystal â chynorthwyo pobl ac economi Cymru i adfer yn gynaliadwy o effeithiau Covid-19.

Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys adeiladau, teithio a thechnoleg, ac rydym wedi gwneud y canlynol:

- Amlinellu'r egwyddorion craidd ar gyfer ein hadeiladau a fydd yn llywio'r newidiadau sydd eu hangen i leihau allyriadau, addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng natur
- Nodi'r offer sydd eu hangen i hwyluso dulliau gweithio hybrid o leoliadau ledled Cymru
- Cyflwyno nifer o welliannau gan gynnwys gwelliannau i systemau TGCh, offer a chymorth ar gyfer gweithio o bell ac archebu ystafelloedd.
- Nodi'r bobl, y polisïau a'r gweithdrefnau y mae angen eu newid er mwyn cefnogi a galluogi gweithio hybrid
- Ymgysylltu â staff er mwyn gwella dealltwriaeth o agweddau at ddulliau gweithio hybrid

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: ***1, 2, 3, 4, 5, 6, 7***

## Gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid pan fydd nifer yr ymholiadau yn uchel

**Rydym wedi gwella sut rydym yn ymateb i ymholiadau cwsmeriaid eleni, ar sail adborth gan gwsmeriaid a staff. Diolch i'n dull gweithredu wedi'i ddiweddaru, rydym wedi llwyddo i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid a lleihau pwysau ar staff drwy ddarparu ymatebion cyson ac amserol i geisiadau cwsmeriaid.**

Derbyniodd Hwb Cwsmeriaid ein sefydliad dros 28,0000 o ymholiadau cyffredinol y llynedd dros y ffôn neu drwy e-bost. Fel rhan o'n strategaeth cwsmeriaid, ac yn unol â'n hegwyddorion SMNR, rydym wedi cydweithio ac ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â staff a chwsmeriaid er mwyn gwella sut rydym yn ymateb pan fydd nifer uchel o ymholiadau gan gwsmeriaid. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth cwsmeriaid i fod yn sylfaen i'n penderfyniadau, a gwelliannau dilynol i sut rydym yn defnyddio technoleg er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf.

Mae pryderon penodol gan gwsmeriaid (e.e. hela, a thrwyddedau adar cyffredinol) yn arwain at gynnydd sylweddol ym mhob math o gyswllt â chwsmeriaid, o ymholiadau syml a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol i geisiadau rhyddid gwybodaeth mwy cymhleth. Gall hyn effeithio ar ein gallu i fodloni safonau gwasanaeth cwsmeriaid disgwyliedig, yn ogystal ag effeithio ar staff ledled y sefydliad sy'n ymateb i'r ceisiadau hyn. Rydym wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth ymdrin â materion o bwys. Mae hyn yn cynnwys datblygu

ymatebion safonol sy'n glir ac yn gyson - gan ein galluogi i ymateb yn gyflymach i'n cwsmeriaid a darparu gwybodaeth amserol a chywir ar adegau pan fyddwn yn derbyn nifer sylweddol o geisiadau gan gwsmeriaid.

*Nodau Cymru Cysylltiedig*: *1, 2, 3, 4, 5, 6, 7*



**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **13 Gorffennaf 2022**

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae’r Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu’r prif nodweddion o ran sut rydym yn rheoli ein sefydliad. Mae ganddo dair adran.

Yn y tudalennau canlynol, bydd ein hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n tîm uwch-reolwyr, sut maen nhw'n gweithio, a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae’r Adroddiad Cyflogau a Staff yn disgrifio sut rydym yn ymdrin â chyflogau'r Bwrdd ac uwch-reolwyr yn ogystal â darparu trosolwg o gyfansoddiad ein staff.

Mae’r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio yn dwyn ynghyd gofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt i ddangos ein hatebolrwydd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, rheoleidd-dra gwariant, a barn ein harchwilydd allanol.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Caiff y Prif Weithredwr ei gefnogi gan dîm o Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n dod ynghyd i ffurfio ein Tîm Gweithredol. Ni fu unrhyw newidiadau i'r Tîm Gweithredol yn ystod 2021/22.

| Enw | Deiliad y swydd | Hyd Gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Clare Pillman | 26 Chwefror 2018 - presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Ceri Davies | 1 Ebrill 2013 - presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Rachael Cunningham | 7 Medi 2020 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Gareth O'Shea | 27 Ebrill 2015 - presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Prys Davies | 1 Ebrill 2019 - presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Sarah Jennings | 7 Medi 2020 – presennol |

Mae Cofrestr Buddiannau ein Tîm Gweithredol ym mis Mawrth 2022 wedi'i chynnwys yma.

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Yn byw mewn ardal a allai gael ei hystyried ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig | | |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Aelodaeth Weithredol neu Anweithredol o Fwrdd, Pwyllgor neu Ymddiriedolaeth | Personol | Aelod o Fwrdd Cynghori FLEXIS, prosiect a ariennir gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru sy'n cefnogi ymchwil i ynni yng Nghymru. |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Arall | Personol | Aelod o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff |
| Prys Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Aelodaeth Weithredol neu Anweithredol o Fwrdd, Pwyllgor neu Ymddiriedolaeth | Personol | Llywodraethwr Ysgol, Ysgol Pen-cae, Caerdydd |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Rachael Cunningham | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Aelodaeth Weithredol neu Anweithredol o Fwrdd, Pwyllgor neu Ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Elusen Chwarae Teg |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Aelodaeth Weithredol neu Anweithredol o Fwrdd, Pwyllgor neu Ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Aelodaeth Weithredol neu Anweithredol o Fwrdd, Pwyllgor neu Ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Sefydliad Cymunedol Cymru |

Mae'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer aelodau o'n Bwrdd ar gael ar ein gwefan o dan Cofrestr Buddiannau.



**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **13 Gorffennaf 2022**

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, Ddatganiad o Gyfrifon ar y ffurf a sail a amlinellir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r incwm a gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol
- cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn modd darbodus; osgoi gwastraff a gorwario; a sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, fel y nodwyd yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethu, rheolaethau mewnol a fframweithiau sicrwydd sydd wedi bod ar waith yn CNC yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22 ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, fy rôl hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau mewn modd effeithiol. Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ddarlun gwir a theg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn hon. Cadarnhaf hefyd nad oes gwybodaeth heb ei chasglu sydd wedi dod i'm sylw neu wybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi cael ei chyflwyno er sylw Archwilio Cymru.

## Ein strwythur llywodraethu

Mae ein strwythur sefydliadol yn dangos sut rydym wedi'n sefydlu i weithio a chyflawni ein hamcanion.

Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein Cadeirydd yn atebol i'n gweinidog nawdd yn Llywodraeth Cymru.


Ar hyn o bryd, mae gennym 13 o aelodau bwrdd sy'n cael cyflogau, dan arweiniad ein Cadeirydd, Syr David Henshaw, gyda 11 aelod anweithredol a finnau fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Yr Athro Steve Ormerod yw Is-Gadeirydd penodedig CNC a Julia Cherrett yw'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol. Cyflwynwyd y rôl Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol i gefnogi'r cadeirydd yn ei rôl; gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol pan fo angen; arwain y cyfarwyddwyr anweithredol wrth oruchwylio'r Cadeirydd, a sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu'n glir rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd pum newid i'n Bwrdd eleni: daeth cyfnodau Dr Elizabeth Haywood a Mr Howard Davies i ben ar 31 Awst 2021; penodwyd yr Athro Calvin Jones, Mr Mark McKenna, a Mr Paul Griffiths yn Gyfarwyddwyr anweithredol ar 1 Medi 2021.

I wneud ein dyletswyddau, rydym yn cwrdd fel Bwrdd llawn gyda chraffu ychwanegol yn cael ei wneud gan chwe phwyllgor. Mae ein Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a'n pwyllgorau ar gyfer craffu a gwneud penderfyniadau yn ôl y gofyn.

Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r Bwrdd ac, heblaw am y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, mae pob un yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol arall o'r Bwrdd. Mae gan aelodau anweithredol eraill o'r Bwrdd wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau heb hawliau pleidleisio. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu, gan fod ein haelodau bwrdd anweithredol yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu meysydd ffocws gwaith a phresenoldeb ar ein Bwrdd a'n pwyllgorau.

| Aelodau anweithredol | Cyfnod | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen cyfredol |
|---|---|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 1 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2023 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 1 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2022 |
| Karen Balmer | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 8 Tachwedd 2022 |
| Catherine Brown | 1 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2022 |
| Julia Cherrett | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Howard Davies | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 31 Awst 2021 |
| Dr Elizabeth Haywood | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 31 Awst 2021 |
| Zoe Henderson | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 8 Tachwedd 2022 |
| Yr Athro Peter Rigby | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2023 |
| Yr Athro Calvin Jones | 1 | 1 Medi 2021 | 31 Awst 2022 |
| Mark McKenna | 1 | 1 Medi 2021 | 31 Awst 2022 |
| Paul Griffiths | 1 | 1 Medi 2021 | 25 Mai 2022 |
| Dr Rosie Plummer | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2024 |
| Geraint Davies | 1 | 1 Ionawr 2019 | 31 Hydref 2024 |

Roedd y dyddiadau gorffen a nodir yn y tabl uchod yn gywir adeg y dyddiad adrodd ond mae trafodaethau'n parhau i ymestyn contractau rhai aelodau o'r bwrdd oherwydd amgylchiadau eithriadol sydd wedi arwain at rywfaint o oedi cyn penodi aelodau newydd o'r Bwrdd yn 2022.



## Cyfarfodydd Bwrdd

Cynhaliwyd chwe chyfarfod deuddydd; cynhaliwyd dau gyfarfod wyneb yn wyneb a phedwar cyfarfod rhithwir oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae'r eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys y canlynol: cyllid yn ystod y flwyddyn; adrodd ar berfformiad; ymateb i Argyfyngau Hinsawdd a Natur; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a phwyllgorau.

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae papurau Bwrdd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ac maent yn destun craffu a chymeradwyaeth fewnol cyn cyfarfodydd Bwrdd.

Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ac agendâu blaenorol ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â'r papurau a'r cofnodion o'n sesiynau cyhoeddus. Mae Tîm Gweithredol CNC, ein Bwrdd a'n pwyllgorau wedi parhau i gyfarfod drwy gydol y pandemig COVID-19. Oherwydd y cyfyngiadau symud, nid ydym wedi cael llawer o gyfleoedd i gyfarfod yn gyhoeddus, ac mae aelodau'r cyhoedd yn gallu arsylwi ar gyfarfodydd rhithwir. Mae'r diffyg cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi golygu nad yw'r Bwrdd wedi gallu symud o amgylch rhanbarthau gwahanol yng Nghymru yn ôl yr arfer na chynnig sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ymgysylltu allanol yw un o elfennau ein gwaith yr effeithiwyd arni fwyaf, gan arwain at oedi mewn rhaglenni ymgysylltu a hyfforddi.

### Presenoldeb aelodau'r Bwrdd 2021/22

| Enw | Presenoldeb mewn Cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 6/6 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 6/6 |
| Karen Balmer | 5/6 |
| Catherine Brown | 5/6 |
| Julia Cherrett | 5/6 |
| Geraint Davies | 6/6 |
| Howard Davies | 2/2 |
| Dr Elizabeth Haywood | 2/2 |
| Zoe Henderson | 6/6 |
| Yr Athro Calvin Jones | 3/4 |
| Mark McKenna | 4/4 |

| Enw | Presenoldeb mewn Cyfarfodydd |
|---|---|
| Paul Griffiths | 4/4 |
| Dr Rosie Plummer | 5/6 |
| Yr Athro Peter Rigby | 6/6 |
| Clare Pilman (Prif Weithredwr) | 6/6 |

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro a chraffu ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg, a herio’r trefniadau hynny. Cadeirydd y Pwyllgor hwn yw Catherine Brown. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu CNC, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol bellach yn mynychu'r pwyllgor i drafod unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Goruchwylio a Llywodraethu Gwerthiannau Pren
- Gwelliannau i'n dull rheoli risg
- Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21 a chynlluniau ar gyfer yr adroddiad hwn, 2021/22
- Model gweithredu diwygiedig Twyll / Gwrth-dwyll

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn 2021/22

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Catherine Brown (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Karen Balmer | 6 | 6 |
| Dr Rosie Plummer | 6 | 6 |
| Yr Athro Peter Rigby | 6 | 4 |

## Pwyllgor Pobl a Chyflogau

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, taliadau, a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros oruchwylio tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu cynllun pensiwn, cynllun y sefydliad, llesiant, iechyd a diogelwch, gofal cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu cynllun y Gymraeg. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Cynllunio'r Sefydliad
- Llesiant, Iechyd a Diogelwch ac Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol
- Gwaith craffu ar bolisïau Rheoli Pobl arfaethedig
- Recriwtio a'r Broses Recriwtio
- Cynllunio ar gyfer olyniaeth sefydliadol
- Strategaeth Pobl
- Rhaglen Adfywio

### Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn 2021/22

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Zoe Henderson (Cadeirydd) | 4 | 4 |
| Karen Balmer | 4 | 4 |
| Howard Davies | 1 | 1 |
| Julia Cherrett | 4 | 4 |
| Mark McKenna | 2 | 2 |

## Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynghori, goruchwylio a chraffu ar strategaeth, rheolaeth a pherfformiad mewn perthynas â chyllid, cynllunio busnes a pherfformiad, cynlluniau codi tâl, a materion masnachol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfeiriad a datblygu strategol, ond mae hefyd yn chwarae rôl wrth graffu ar berfformiad a chyflawniad. Mae Syr David Henshaw yn gweithredu fel Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor nes y penodir Cadeirydd newydd.

Eleni, gwnaeth y Pwyllgor ystyried y canlynol:

- Monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn
- Cynllunio Ariannol a Busnes ar gyfer 2022/23
- Adolygiad Strategol o Godi Tâl
- Goruchwylio gwerthu a marchnata pren
- Ymarferiad Llinell sylfaen CNC
- Strategaeth grantiau

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Cyllid yn 2021/22

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd Dros dro) | 8 | 8 |
| Julia Cherrett | 8 | 8 |
| Dr Elizabeth Haywood (hyd at fis Awst 2021) | 4 | 3 |
| Zoe Henderson (o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2021) | 5 | 5 |
| Paul Griffiths (o fis Rhagfyr 2021) | 3 | 3 |
| Yr Athro Calvin Jones (o fis Rhagfyr 2021) | 3 | 3 |
| Dr Rosie Plummer | 8 | 8 |

## Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur a thirweddau gwarchodedig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Mae aelodau o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor ar faterion ehangach yn ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig a gwaith achos strategol, gan gynnwys rheoli tirwedd, tirweddau dynodedig, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn 2021/22

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Howard Davies (Cadeirydd, hyd at fis Awst 2021) | 1 | 1 |
| Dr Rosie Plummer (Cadeirydd, o fis Awst 2021) | 3 | 3 |
| Geraint Davies | 3 | 3 |
| Dr Elizabeth Haywood (hyd at fis Awst 2021) | 1 | 1 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3 | 3 |
| Mark McKenna (o fis Hydref 2021) | 2 | 2 |

## Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (Grŵp Cynghori gynt)

Mae'r Pwyllgor yn gynghorol ac mae'n adrodd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd presennol a rhai’r blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar gyflawni gwaith sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau, a'r Pennaeth Cyllid.

Roedd y meysydd a adolygwyd gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn cynnwys y canlynol:

- blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd
- llywodraethu rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd
- goruchwylio'r rhaglen gweithredu adfer ac adolygu ar gyfer llifogydd
- sgiliau a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- goruchwylio gwaith i wella sut mae CNC yn rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn 2021/22

| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd, hyd at fis Awst 2021) | 3 | 3 |
| Julia Cherrett (Cadeirydd, o fis Medi 2021) | 5 | 5 |
| Karen Balmer (o fis Ebrill i fis Awst 2021) | 3 | 3 |
| Geraint Davies | 5 | 4 |
| Paul Griffiths | 2 | 2 |
| Yr Athro Calvin Jones | 2 | 2 |

## Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn bwyllgor cynghorol sy'n darparu cyngor annibynnol a her mewn perthynas â swyddogaeth dystiolaeth CNC. Mae'r Pwyllgor hefyd yn helpu i gryfhau dealltwriaeth yn y gymuned ymchwil ehangach, a chyda defnyddwyr tystiolaeth yn y llywodraeth, o brosesau a blaenoriaethau tystiolaeth.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, saith aelod allanol annibynnol, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, a Phennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth.

Adolygodd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth feysydd yn cynnwys lansio Adroddiad CNC ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, rôl CNC yn dynodi Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a'r safbwyntiau seiliedig ar dystiolaeth y byddai angen eu trafod yn y Pwyllgor, a derbyniodd gyflwyniadau yn arddangos Porth Amgylcheddol Cymru a'i fanteision addysgol ac ynghylch y dull aml-gyfalaf o sicrhau newid trawsnewidiol.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn 2021/22


| Enw | Nifer y cyfarfodydd | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Yr Athro Peter Rigby (Cadeirydd) | 3 | 3 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3 | 3 |


## Adolygiadau Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd yn cynnal gwerthusiadau blynyddol gyda phob Cyfarwyddwr Anweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r broses adolygu yn cynnwys hunanasesiad byr a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal gwerthusiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gyda'r pum Cyfarwyddwr Gweithredol.

# Ein Tîm Gweithredol

Caiff ein sefydliad ei reoli o ddydd i ddydd drwy'r Tîm Gweithredol, sy'n fy nghynnwys i fel Prif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n adrodd i mi. Mae'r Tîm Gweithredol yn cyfarfod ddwywaith y mis i ystyried busnes corfforaethol craidd, er enghraifft diweddariadau cyllid, gwybodaeth am berfformiad, llesiant, iechyd a diogelwch, adolygu a chraffu ar y gofrestr risgiau strategol, ac ati. Hefyd, mae'n craffu ac yn ystyried penderfyniadau sy'n ymwneud â materion strategaeth, polisi a gweithredol.




O dan ein Tîm Gweithredol, mae ein Tîm Arwain yn chwarae rôl arweiniol wrth reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Mae ei aelodau'n benaethiaid adrannau sy'n atebol i'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys y rheiny yn ein swyddogaethau corfforaethol (megis Cyllid, Adnoddau Dynol, Cyfathrebu). Mae Grŵp y Tîm Arwain yn cwrdd yn fisol i ddatrys materion trawstoriadol, er enghraifft, y gwaith cychwynnol yn ymwneud â blaenoriaethau'r gyllideb, ac i adolygu perfformiad yn fanwl, megis ein gwybodaeth reoli fisol.

Mae ein strwythur yn pwysleisio cyflawni ar sail lle: mae saith Pennaeth Lle o fewn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau unigol yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein holl swyddogaethau mewn rhanbarth penodol yng Nghymru. Yna mae gennym Benaethiaid Gwasanaeth enwebedig (y mae pob un ohonynt yn Bennaeth Lle hefyd) sy'n arwain ar oruchwylio'r gwaith o gyflawni swyddogaeth benodol ledled Cymru. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'n harweinwyr polisi – o'r enw Penaethiaid Busnes – sy'n goruchwylio cyfeiriad strategol ein gwaith ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau cydlyniant rhwng meddwl strategol a chyflawniad gweithredol, mae gennym gyfres o Fyrddau Busnes sy'n nodi'r gofynion polisi ac yn cynllunio natur weithredol ein gwaith ar draws y strwythur seiliedig ar le newydd. Mae pob un o'r rhain yn cael ei arwain gan y Pennaeth Busnes / Pennaeth Gwasanaeth.

Rydym yn cynhyrchu cynllun busnes blynyddol sy'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol. Rydym wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru bod y Cynllun Corfforaethol presennol (2017-22) yn cael ei ymestyn tan 2023.

Mae cynllun busnes 2021-22 wedi'i gyflwyno ar draws pum blaenoriaeth strategol ac mae'n 'gyfran' un flwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Caiff cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn ei fonitro bob chwarter gan ddefnyddio dangosfwrdd perfformiad o fesurau, y mae ein Byrddau Busnes, Cyfarwyddwyr Gweithredol a Bwrdd CNC yn craffu arnynt cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Caiff gwybodaeth reoli fanwl ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfodydd y Grŵp Tîm Arwain ac o Ch3 yn 21-22, caiff ei hadrodd yn chwarterol i Gyfarwyddwyr Gweithredol a Bwrdd CNC hefyd, ochr yn ochr â'r dangosfwrdd perfformiad.

Drwy gydol 2021-22 roeddem yn wynebu argyfwng iechyd y cyhoedd a oedd yn parhau, ac mae'r effeithiau'n debygol o barhau ledled y byd ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi gorfod ail-lunio'n sylweddol sut rydym yn gweithio ers i'r cyfyngiadau gael eu codi, ac rydym yn parhau i adolygu ein Cynlluniau Parhad Busnes i sicrhau bod staff cyflenwi ar gael ar gyfer unigolion allweddol ac absenoldebau lluosog. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar lesiant, iechyd a diogelwch ein staff, ein partneriaid a'n cwsmeriaid a byddwn yn parhau i wneud hyn wrth i ni ddysgu o'r cyfnod heriol hwn a chynllunio sut y byddwn yn gweithio yn y dyfodol.

Serch hynny, mae nifer o sylfeini allweddol wedi'u gosod yn 2021/22 ar gyfer gweithredu byd-eang – ac mae tystiolaeth newydd wedi'i chyflwyno gan adroddiadau IPBES y Cenhedloedd Unedig, cytundebau rhyngwladol COP26 yn Glasgow a pharatoadau ar gyfer COP15 yn Kunming ym mis Ebrill /Mai 2022. Yng Nghymru, newidiodd y cyd-destun gwleidyddol yn sgil cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu newydd ym mis Mehefin, ac yna'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r naill a'r llall yn pwysleisio ymrwymiad cadarn iawn i'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan gydnabod pwysigrwydd gweithredu ymarferol ac arloesol.

Mewn ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r pwysau cyllidebol parhaus ledled y sector cyhoeddus, rydym wedi gweithio gyda Gweinidogion a swyddogion drwy gydol 2021/22 i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'n hadnoddau, ein blaenoriaethau a'r awydd a'r cyfle i wneud pethau'n wahanol.

Fel ymatebwr categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifi Posibl (2004), rydym wedi parhau i ymateb i ddigwyddiadau o fewn ein cylch gwaith mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol. Rydym wedi rheoli ein hymateb i'r pandemig Covid trwy ein gweithdrefnau rheoli digwyddiadau, gan ddefnyddio ein Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Strategol, Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Tactegol, a chelloedd technegol ategol amrywiol i sicrhau ein bod yn parhau i arwain a llywio ein staff i weithio mewn ffordd sy'n ddiogel o ran Covid. Hefyd, rydym wedi ymateb i lifogydd, stormydd a digwyddiadau amgylcheddol eraill drwy gydol y flwyddyn. Yn dilyn proses ymgynghori, rydym wedi sicrhau newid cytundebol yn ddiweddar i gontractau tua 1200 o staff o bob cwr o'r sefydliad er mwyn helpu a chefnogi ein rotas digwyddiadau, gan sicrhau ein bod yn fwy gwydn i ymateb i ddigwyddiadau nawr ac yn y dyfodol.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Nid ydym wedi derbyn unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol eleni.

## Ein Fframwaith Rheoli Mewnol

Mae ein fframwaith rheoli mewnol yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau, mesurau ac achrediadau rydym wedi'u rhoi ar waith i warchod ein hadnoddau wrth i ni gyflawni ein hamcanion.

Mae cyflymder y newidiadau i addasu i gyfyngiadau'r pandemig wedi bod yn gyflym ond dan reolaeth hefyd. Mae ein rheoliadau ariannol allweddol o fewn systemau awtomatig a'n cynlluniau dirprwyo i sicrhau y caiff dyletswyddau eu gwahanu'n briodol yn parhau i fod ar waith ac yn gyfredol. Mae'r dogfennau 'Rheoli ein Harian' a 'Chynllun Statudol a Chyfreithiol CNC' yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nodwyd rheolaethau newydd lle gweithredwyd newidiadau sylweddol – er enghraifft gofynnwyd i reolwyr gynnal rhestrau o asedau TGCh ar gyfer eitemau ychwanegol yr aethpwyd â nhw adref i gefnogi cynnydd parhaus mewn gweithio gartref.

## Rheoli Risg

Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn elfen hanfodol o'n fframwaith Llywodraethu. Mae'n ein cynorthwyo i reoli ein busnes, a diogelu ein hadnoddau a'n henw da. Yn 2020, gwnaethom fabwysiadu fframwaith rheoli risg gwell, ac ers hynny rydym wedi parhau i ymgorffori'r fframwaith hwn, gan wneud gwelliannau sylweddol i'r gwaith o reoli risgiau ac adrodd amdanynt.

Mae cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg wedi'u hamlinellu'n glir yn ein fframwaith rheoli risg. Mae gan bob risg Berchennog Risg ar lefel Weithredol a Rheolwr Risg ar lefel Arweinwyr neu Reolwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Perchnogion Camau Gweithredu perthnasol i drafod achosion, digwyddiadau, canlyniadau, sgoriau, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig. Yn ogystal, mae cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn cynnal archwiliad dwfn rheolaidd o bob un o'r Risgiau Strategol, ac mae pob un wedi'i neilltuo ar gyfer craffu ychwanegol drwy archwiliad dwfn yn y Pwyllgor Bwrdd perthnasol.

Mae risg yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac mae pob pwyllgor yn cynnal archwiliad dwfn o'r risgiau sydd wedi'u neilltuo iddynt, gan adrodd ar ganlyniadau pob archwiliad dwfn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ar y gofrestr risg strategol a'i herio. Mae'n cael sicrwydd o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg ac yn rhoi cyngor i'r Bwrdd er mwyn rhoi sicrwydd iddo ynglŷn ag effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. Mae pwyllgorau eraill y Bwrdd yn adolygu risgiau strategol perthnasol.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar ddatganiadau ar y parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y mwyafrif o'n risgiau strategol ac mae'n cynnal adolygiad blynyddol o'n risgiau strategol a'n parodrwydd i dderbyn risg. Bydd datganiadau o barodrwydd i dderbyn risg yn cael eu hysgrifennu ar gyfer unrhyw risgiau strategol newydd a nodir unwaith y bydd y risg wedi'i datblygu'n llawn.

Mae ein fframwaith rheoli risg yn nodi sut a phryd y dylid uwchgyfeirio risgiau, ac rydym wedi gweld llawer o enghreifftiau o hyn yn ymarferol drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi nodi canlyniadau ychwanegol posibl y pandemig Covid ar gyfer ein risgiau a'r camau sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn, ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

## Sicrhau gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, a'n bod yn parhau i sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn agored a diogelwch, gan sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael eu sicrhau bod lefelau diogelwch priodol ar waith. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen waith integredig i gryfhau ein hymateb i wydnwch yn erbyn bygythiadau seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth. Unwaith eto, rydym wedi ennill ein hachrediad Cyber Essential Plus blynyddol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'i archwilio'n annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys. Byddwn yn parhau i gyflwyno rhaglen waith seiberddiogelwch yn seiliedig ar ein strategaeth seiber gyfredol. Mae hyn yn cynnwys mentrau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys hyfforddiant seiberddiogelwch ar-lein.

Ddwywaith y flwyddyn, rydym yn darparu cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol ar gyfer staff ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Diogelwch Cyfrifiaduron yn y Gweithle a Diogelu Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn gwybod y diweddaraf am sut rydym yn rheoli'r wybodaeth rydym yn ei derbyn a'i chadw. Mae cyfraddau cwblhau ar gyfer dysgu ar-lein gorfodol wedi gwella oherwydd dull gweithredu newydd a rhagor o waith monitro, ond byddwn yn parhau i ategu'r hyn a ddysgir ag ymwybyddiaeth ac ymgysylltu pwrpasol. Hefyd, rydym wedi cydweithio â phartneriaid strategol megis Llywodraeth Cymru, y Gymuned Diogelu Data, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i rannu dysgu a chynnal safonau.

Eleni, roedd yn dda nodi na fu unrhyw achosion o dorri amodau gwybodaeth y mae angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.

| **Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** | | |
|---|---|---|
| 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
| 0 | 0 | 0 |

## Datganiad o Fuddiannau

Mae ein polisi a'n canllawiau Rheoli Gwrthdaro Buddiannau'n cefnogi'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd gyda'n proses barhaus i ddatgan buddiannau personol perthnasol i'n helpu i reoli unrhyw wrthdaro posib neu ymddangosiadol o fewn eu rolau proffesiynol. Amlygodd adolygiad Archwilio Mewnol yn 2020/21 fod angen gwelliannau sylweddol i'n polisi, gweithdrefnau, hyfforddiant a dulliau adrodd mewn perthynas â Gwrthdaro Buddiannau, a daeth y gwaith hwn i ben ym mis Medi 2021.

## Chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o gywirdeb ac atebolrwydd ac o fod yn agored.

Felly, rydym wedi sefydlu mesurau ar gyfer codi pryderon difrifol am gamymddwyn neu amhriodoldeb. Mae ein fframwaith yn cynnwys mynediad i linell adrodd allanol lle mae modd codi pryderon yn ddienw. Yn 2020, daeth CNC yn 'berson rhagnodedig' a chael ei

ychwanegu at restr o sefydliadau ac unigolion y gall gweithiwr ddod atynt y tu allan i'w weithle i adrodd camymddwyn hysbys neu amheuaeth o gamymddwyn.

O'r 4 achos a adroddwyd yn ystod 2021/22: cafodd un achos ei adrodd i Berson Rhagnodedig arall mewn perthynas â CNC; cafodd dau achos eu hadrodd yn fewnol mewn perthynas â CNC; cafodd un achos ei adrodd i CNC, fel Person Rhagnodedig, mewn perthynas â sefydliad arall.

| **Nifer yr achosion o chwythu'r chwiban a gofnodwyd** | | |
|---|---|---|
| 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
| 4 | 0 | 2 |

# Twyll

Mae Strategaeth Gwrth-dwyll 2022-2026 yn amlinellu cyfeiriad strategol newydd sydd â’r nod o gefnogi a chryfhau gallu CNC i ddiogelu ei hun rhag niwed posibl gan dwyll. Trwy ganolbwyntio'r strategaeth hon ar arferion gorau a safonau proffesiynol, bydd modd sicrhau bod dull gwrth-dwyll yn dod yn rhan annatod o sut rydym yn gweithio. Cefnogir ein Strategaeth Gwrth-dwyll gan Bolisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth a Gweithdrefn Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth. Mae cyrsiau dysgu ar-lein blynyddol gorfodol yn cael eu darparu ar gyfer staff ar faterion Gwrth-dwyll, Atal Llwgrwobrwyo ac Atal Llygredigaeth. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio i helpu staff i adnabod rhybuddion a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol. Roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol hwn wedi gwella'n sylweddol yn 2021. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw cyfraddau cwblhau ar gyfer dysgu ar-lein gorfodol yn 100% ar hyn o bryd. Yn 2022 byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wella'r cyfraddau cwblhau yn unol â'n Strategaeth Gwrth-dwyll a'n Cynllun Cyflawni diwygiedig.

**Ystadegau Cwblhau ar gyfer 2021**




Rydym wedi derbyn 8 honiad o dwyll, ac fe gawsant eu trin yn unol â phroses gwrth-dwyll ac atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth CNC. Mae'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae pob ymchwiliad wedi cael ei reoli gan Arbenigwr Gwrth-dwyll Achrededig neu ymchwilwyr allanol sydd â chymwysterau tebyg. Mae'r adroddiad terfynol ar bob achos yn cael ei atgyfeirio i uwch staff annibynnol.

| Nifer yr honiadau a gofnodwyd | | |
| --- | --- | --- |
| 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
| 8 | 10 | 7 |

Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn wynebu pwysau ariannol ar hyn o bryd. Mae lefel chwyddiant wedi cyrraedd 7% ac rydym yn wynebu cynnydd digynsail mewn costau tanwydd ac ynni domestig. Mae'r argyfwng costau byw yn bryder mawr i lawer o bobl. Mae cyrff y sector cyhoeddus wedi gweld cynnydd mewn achosion o dwyll mewnol, gan gynnwys achosion twyll rheoli amser. Mewn ymateb, rydym yn cael ein cynghori i fod yn fwy gwyliadwrus.

Er bod trefniadau gwrth-dwyll cadarn yn rhan o ymateb CNC, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gefnogi ein gweithwyr a'u teuluoedd. Yn unol â hyn, mae cydweithwyr yn y Gwasanaethau Pobl yn gweithio ar fentrau amrywiol i gefnogi unrhyw un sy'n wynebu problemau ariannol a chynnig cymorth os oes modd.

## Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Rydym wedi cwblhau adolygiad sylfaenol ac wedi sicrhau bod ein strwythur, ein polisïau a'n gweithdrefnau sefydliadol yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Mae ein harweinyddiaeth yn cyd-fynd â rolau a chyfrifoldebau disgwyliedig uwch-reolwyr; mae gweithdrefnau cefnogol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir i sicrhau atebolrwydd a rhannu dyletswyddau'n briodol a bod rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff cyflogau uwch-staff eu hystyried gan aelodau anweithredol i sicrhau annibyniaeth ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n rhanddeiliaid allweddol i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol.

## Ein Fframwaith Sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys y mesurau canlynol, sydd ar waith i sicrhau fy mod yn derbyn tystiolaeth amserol i ddangos bod y rheolaethau gofynnol ar waith ac yn gweithio'n briodol.

### Archwilio Mewnol

Mae'r farn archwilio flynyddol yn cael ei llywio'n rhannol gan y gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol. Eleni, darparwyd "sicrwydd annerbyniol" ar gyfer un maes archwilio, sef Cynllunio'r Gweithlu a "sicrwydd cyfyngedig" ar gyfer dau faes archwilio arall: Chwythu'r Chwiban ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allweddol ledled y sefydliad cyfan.

Nododd yr archwiliad cynllunio'r gweithlu nad oes gan CNC ddull effeithiol o gynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, nodir bod diffyg gwaith cynllunio'r gweithlu effeithiol yn risg strategol hirdymor i CNC a bod y sefydliad ar ddechrau'r daith aeddfedrwydd tuag at ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu. Hefyd, nododd yr archwiliad faterion llywodraethu yn ymwneud ag adrodd, herio a goruchwylio. Mae gan CNC risg ar hyn o bryd oherwydd materion arwyddocaol mewn perthynas ag anawsterau recriwtio ac adnoddau oddi mewn i CNC. Mae'r materion hyn wedi'u cydnabod trwy uwchgyfeirio risg adnoddau i'r Gofrestr

Risg Strategol. Cafwyd argymhelliad gan Waith Dilynol ar yr Archwiliad Mewnol o Recriwtio (cyhoeddwyd yr archwiliad gwreiddiol ym mis Mai 2020) fod angen mynd i'r afael â'r risgiau recriwtio a nodwyd. Hefyd, nodir bod archwiliadau lluosog yn 2021/22 wedi amlygu materion yn ymwneud â hyfforddi a datblygu staff mewnol. Ni lwyddwyd i gydymffurfio â'r gofyniad hwn wrth sicrhau achrediad Iechyd a Diogelwch BSI ISO45001.

Nid yw CNC wedi croesawu ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y sefydliad gan nad yw wedi'i gynnwys mewn llywodraethu, strwythuro neu brosesau gwneud penderfyniadau perthnasol. Diffyg cyfeiriad strategol a pherchnogaeth pob grŵp rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am hyn. Nid oes unrhyw gynllun strategol cyfredol sy'n darparu dull cyfannol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y sefydliad, nac unrhyw strategaethau neu gynlluniau ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid penodol. O ganlyniad, nid oes modd rhoi camau gweithredu ar waith i nodi a rheoli rhanddeiliaid strategol er mwyn sicrhau bod yr amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Fodd bynnag, nododd yr archwiliad o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fod y grŵp rhanddeiliaid cwsmeriaid wedi ennill ei blwyf yn well o'i gymharu â grwpiau rhanddeiliaid eraill a nodwyd. Mae'r grŵp rhanddeiliaid cwsmeriaid wedi datblygu strategaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer mapio teithiau cwsmeriaid. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Tîm Cwsmeriaid wedi gwneud gwaith sylweddol i 'lanhau data' cwsmeriaid i'w lanlwytho i system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, yn barod ar gyfer lansiad tua chanol 2022. O ystyried y cynnydd a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, a'r strategaeth, y broses adnabod a'r cynlluniau clir i reoli rhanddeiliaid yn y maes hwn o waith CNC, darparwyd "sicrwydd cymedrol" gennym ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y grŵp unigol hwn o randdeiliaid.

Roedd yr archwiliad chwythu'r chwiban wedi darparu barn sicrwydd cyfyngedig yn bennaf oherwydd diffyg mecanwaith adrodd effeithiol a dealltwriaeth wael o chwythu'r chwiban ledled y sefydliad. Ni nododd yr archwiliad fod achosion o chwythu'r chwiban wedi'u cam-drafod. Mae nifer yr achosion o chwythu'r chwiban a gofnodwyd yn isel iawn yn CNC, a hynny'n fewnol ac yn ei rôl fel Sefydliad Rhagnodedig. Nodwyd bod prosesau llywodraethu chwythu'r chwiban yn gadarn, ond bod angen mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth, a diweddaru'r polisi a'r gweithdrefnau er mwyn rheoli'r risg nad yw achosion o chwythu'r chwiban yn cael eu hadrodd neu nad ydynt yn cael eu hymchwilio mewn ffordd briodol.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal 5 archwiliad dilynol i asesu'r digonolrwydd a'r sicrwydd yn ymwneud â chwblhau camau gweithredu yn deillio o archwiliadau blaenorol, lle darparwyd barn sicrwydd cyfyngedig. Darparwyd barn "cynnydd da" ar gyfer un o'r rhain, sef Rheoli Tomennydd Sbwriel Glofeydd. Darparwyd barn "cynnydd rhesymol" ar gyfer tri, sef: Gwerthu Pren, Recriwtio a Rheoli Prosiectau a Rhaglenni. Darparwyd barn "rhywfaint o gynnydd" ar gyfer y gwaith dilynol ar Ddiogelwch Cronfeydd Dŵr. Nodwyd yn ystod y flwyddyn nad oedd y rheolwyr yn asesu camau gweithredu yn erbyn risgiau a nodwyd yn ystod yr archwiliadau gwreiddiol, ac felly nad oedd camau gweithredu yn sicrhau gwelliannau i ddyluniad neu effeithiolrwydd rheolaethau. Mae system adrodd ddiwygiedig ar gyfer cwblhau camau archwilio wedi gwella hyn yn ystod rhan olaf y flwyddyn. Mae cwblhau'r camau archwilio o'r archwiliadau barn "sicrwydd cyfyngedig" yn ymwneud â Rheoli Contractau a Grantiau wedi bod yn fwy cadarn, a disgwylir y bydd canlyniadau dilynol yn gwella yn y dyfodol o ganlyniad.

Roedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys y canlynol hefyd: Ailstocio a Sefydlu Pren, Adolygiad o Gynnydd yr Adroddiad ar Lifogydd, Alinio Cynlluniau Sefydliadol, Dirgryniad Braich Llaw, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol, Cyfrifon Derbyniadwy, Cydymffurfiaeth Rheoli'r Fflyd, Ardaloedd Draenio Mewnol, Trwyddedau Gwastraff, Swyddogaeth Asiantaeth Tir (Caffaeliadau a Gwarediadau), Monitro Samplau Ansawdd Dŵr a Gweithgareddau Masnachol (Cyflenwi Ynni); cafodd pob un ohonynt sicrwydd "cymedrol".

Cafodd yr archwiliadau o'r Gofrestr Asedau Sefydlog, y Cynllun Statudol a Chyfreithiol, a Phensiynau farn sicrwydd "sylweddol". Ar gyfer yr archwiliad pensiynau, roeddem yn gallu defnyddio dadansoddeg data ar gyfer y boblogaeth gyfan a oedd yn rhoi sicrwydd lefel uchel ar gyfer cyfrifiadau, didyniadau a chysoniadau pensiynau.

Mae CNC wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn er mwyn cwblhau camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau. Roedd 22 o gamau gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn, a dim ond 3 ohonynt oedd yn gamau blaenoriaeth uchel nad oeddent wedi'u cyflawni yn unol â'u dyddiad cwblhau targed. Roedd rheolwyr yn mynd i'r afael â'r holl gamau gweithredu hyn gan ddarparu diweddariadau chwarterol ar gynnydd i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Nodwyd mai dim ond 2 o'r camau gweithredu hyn sy'n deillio o 2020, a bod angen cwblhau'r gweddill yn 2021.

Mae CNC yn cydnabod 10 risg strategol, a nodir bod yr holl risgiau yn cael eu cofnodi yn uwch na'r craidd risg targed sydd wedi'i osod ar eu cyfer a bod llawer yn parhau i fod yn rhai risg uchel yn agos at y sgôr risg gynhenid. Ym mis Mawrth 2022, roedd y gofrestr risg strategol yn nodi mai'r risg gynhenid ar gyfer cydymffurfio (SR07) oedd 23 (effaith fawr, tebygolrwydd bron yn sicr) ac mai'r sgôr risg weddilliol gyfredol oedd 21 (effaith fawr, tebygolrwydd yn debygol). Nid oedd hyn yn wahanol i'r sefyllfa yr adroddwyd arni ym mis Mawrth 2021. Mae'r risg hon yn cydnabod bod achosion diffyg cydymffurfiaeth yn ymwneud â pholisïau nad ydynt yn eglur, yn gyfredol nac yn hawdd i'w deall; gweithdrefnau/system sydd wedi'u cynllunio'n wael; diwylliant nad yw'n deall pam mae cydymffurfiaeth yn bwysig; ac ail linell aneffeithiol.

Mae gan CNC fframwaith ar gyfer Rheoli Risg, ac mae wedi datblygu'r gwaith yr adroddwyd arno y llynedd. Nodir bod y gofrestr risg strategol yn parhau i fod yn ddull rheoli annatod a bod Cofrestrau Risg y Grŵp Tîm Arwain a'r Bwrdd Busnes bellach yn cael eu defnyddio i lunio trafodaeth ar y lefelau hyn yn ymwneud â risgiau. Roedd yn dda nodi bod rhai trafodaethau risg deinamig wedi'u cynnal ynglŷn â'r rhyfel yn Wcráin a'r effaith ar CNC, gan amlygu dull rheoli risg sy'n ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Fodd bynnag, mae prosesau rheoli risg yn gyfyngedig o hyd o dan y lefelau hyn, gyda'r swyddogaethau amrywiol yn arfer dulliau cymysg.

Er bod prosesau adrodd am risgiau i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi gwella'n sylweddol yn ystod chwarteri olaf y flwyddyn, prin yw'r gwaith goruchwylio a chyfuno o hyd er mwyn gallu mynd ati i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg neu risgiau cyfunol o gofrestrau risg lefel is. Ar sail y gofrestr risg strategol a gofnodwyd, gellid tybio nad yw CNC yn cymryd camau rheoli risg er mwyn lliniaru neu reoli'r risgiau, gan fod sgoriau risg wedi'u nodi fel rhai statig dros y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu dull gofalus o adrodd am risg a diffyg dealltwriaeth posibl o effaith lliniaru risg ar y sgôr weddilliol.

Er bod CNC wedi cydnabod yr angen i ddatblygu'r model tair llinell yn y fframwaith rheolaeth fewnol yn 2020/21, ni ddyfarnwyd y contract i ddechrau'r gwaith hwn tan fis Mawrth 2022, felly ni wnaed unrhyw welliannau yn ystod y flwyddyn. Rhagwelir y bydd modd defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r broses hon wedyn ledled CNC ar gyfer prosesau allweddol eraill er mwyn darparu fframwaith rheolaeth fewnol gwell.

Cymerodd y Tîm Gweithredol gamau ym mis Ebrill 2022 ar ôl diwedd y flwyddyn i gryfhau'r trefniadau llywodraethu mewnol trwy gymeradwyo dwy ddogfen allweddol. Y Model Gweithredu Llywodraethu a'r Awdurdod Dirprwyedig. Cwblhawyd y gwaith hwn i gryfhau trefniadau llywodraethu mewnol ar ôl diwedd y flwyddyn, ac felly nid yw wedi effeithio ar y farn archwilio mewnol; fodd bynnag, bydd y trefniadau yn cryfhau sefyllfa lywodraethu Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu a'u defnyddio'n llawn.

Trwy gydol 2021/22, mae CNC wedi cymryd camau sylweddol tuag at wella rheolaethau mewnol, llywodraethu a rheoli risg o fewn y sefydliad, gan ddangos arweinyddiaeth gadarn a da. Er bod y farn yn parhau i fod yn gyfyngedig, mae'n amlwg ei bod yn symud yn raddol tuag at farn gymedrol. O ystyried y cynlluniau eraill i fynd i'r afael â mapio sicrwydd, cyflwyno'r rhaglen drawsnewid, gwelliannau llywodraethu a dull gwell o reoli risg, mae'r sylfeini ar gyfer gwella yn sylweddol. Gan fod y gwaith hwn wedi'i gynllunio a'i ddatblygu yn ystod y flwyddyn, nid yw wedi effeithio ar y farn archwilio mewnol. Fodd bynnag, os yw cynlluniau'n symud ymlaen a'r momentwm i wella'r diwylliant cydymffurfio yn parhau, dylai'r amgylchedd llywodraethu, risg a rheoli ddechrau gwella.

I gloi, ar sail fy ngwerthusiad proffesiynol o reolaethau, llywodraethu a rheoli risg mewnol, rwy'n dod i'r casgliad bod gwendidau sylweddol o hyd yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn 2020/21 ac y gallai fod yn annigonol ac yn aneffeithiol. Felly, gallaf gynnig **barn sicrwydd cyffredinol cyfyngedig** ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae CNC wedi dechrau datblygu gwaith sylweddol, ac os yw'n cael ei gyflawni yn ôl y bwriad a'r raddfa arfaethedig, bydd yn rhoi darlun calonogol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Archwiliad allanol

Mae craffu annibynnol yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd, gan ddarparu tystiolaeth o'n ffyrdd o weithio mewn perthynas ag arfer gorau a safonau'r diwydiant. Mewn rhai rhannau o'r sefydliad, rydym yn destun archwiliadau neu adolygiadau allanol o'n gwaith neu'n dewis eu cael. Mae rhai'n digwydd yn flynyddol, er enghraifft Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y DU neu ISO14001:2015 i gynnal ein system rheoli amgylcheddol. Rydym yn gofyn am rai eraill ymhlith sawl darn o waith i roi mwy o wybodaeth i ni am feysydd gwaith neu weithgareddau penodol.

Ar ôl cyhoeddi adolygiad annibynnol Grant Thornton o'n gweithrediadau gwerthiannau pren a'i rannu gyda Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru, rydym yn parhau i ymgorffori newidiadau a gwelliannau yn ein gweithrediadau gwerthu pren, dan arweiniad ein Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol.  Caiff y gwaith hwn ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cyllid a chaiff cynnydd ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod 2021-22 fe gawsom £0.1m (£0.1 miliwn yn 2020-21) o gontract gwerthu pren sy’n sefyll arferol, a oedd yn cynnwys y pren o gontract gwerthu pren sy’n sefyll plws caeedig ac a werthwyd i'r cwsmer gwreiddiol trwy un gam tendr.

## Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol

Er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol bod y fframwaith o reolaethau mewnol ar waith ac yn gweithio'n dda oddi mewn i CNC, mae aelodau'r Tîm Gweithredol a Chadeiryddion Byrddau Busnes wedi cwblhau Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol ac wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd ar waith ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth/Bwrdd Busnes, gan briodoli gradd rhwng sylweddol ac anfoddhaol o safbwynt sicrwydd ym mhob maes unigol.

Eleni fe wnaethom lwyddo i gyflawni cyfradd ddychwelyd o 100% ar gyfer y rhestrau gwirio a thystysgrifau, er bod lefel y manylder yn amrywio rhwng cyflwyniadau. Mae'r opsiynau ar gyfer graddau sicrwydd wedi'u newid eleni ac mae meysydd busnes ychwanegol wedi'u cynnwys; felly, nid oes modd gwneud cymariaethau uniongyrchol â 2020/21.

Priodolodd Byrddau Busnes a Chyfarwyddiaethau lefelau tebyg o sicrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd, gan nodi bod y meysydd sydd â sicrwydd sylweddol o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, neu’r meysydd lle ceir sicrwydd llai boddhaol, yn rhannu nodweddion tebyg.

Yn gyffredinol, ceir teimlad yn y datganiadau bod risgiau'n cael eu cofnodi, eu monitro a'u rheoli'n dda ar draws y sefydliad cyfan, ac y byddai ymgorffori rhagor o waith rheoli risg fel blaenoriaeth allweddol mewn cynlluniau datblygu staff unigol yn sicrhau gwelliannau pellach. Hefyd, dangosodd y datganiadau fod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ledled y sefydliad yn gyson â lefelau dirprwyo a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn drylwyr ac yn destun ymgynghori. Maent yn defnyddio arbenigwyr yn y meysydd gofynnol hefyd.

Mae ymdeimlad eang eto eleni bod arweinyddiaeth y sefydliad yn weladwy, yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn canolbwyntio ar welliant parhaus a datblygiad proffesiynol. Nodir bod arweinwyr mewn lefelau gwahanol o'r sefydliad yn ymddwyn fel esiampl dda i eraill ac yn annog trafodaeth agored. Fodd bynnag, ceir teimlad bod mwy y gall y sefydliad ei wneud i gefnogi ac annog datblygiad arweinwyr a rheolwyr tîm newydd, gan gynnwys gwella gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall sy'n cael ei darparu iddynt. Nodwyd bod hwn yn faes i ganolbwyntio arno ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae meysydd eraill o sicrwydd sylweddol a nodwyd yn y datganiadau yn cynnwys rheoli TGCh a Chofnodion Gwybodaeth. Nodir bod systemau'n cael eu rheoli'n unol â'r polisïau gan mwyaf a bod rheolaethau angenrheidiol yn ymwneud â mynediad i systemau yn cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal, mae'r datganiadau yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o ofynion rheoli data a phrosesau rheoli ansawdd, a chydymffurfiaeth â’r rheini, a lle bo'n berthnasol, bod gwersi’n cael eu dysgu o unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data.

Nododd rhai datganiadau fod rhywfaint o anhawster wrth ddiweddaru canllawiau a dogfennau eraill sy'n eiddo i Fyrddau Busnes, a nodwyd bod ymrwymiad i wneud hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae rhai gweithgareddau wedi'u nodi ar gyfer 2022/23 a fydd yn pwysleisio natur gyfoes a pherchnogaeth polisïau fel pwynt datblygu allweddol.

Nodwyd rheoli contractau yn aml fel maes lle mae staff yn teimlo bod angen hyfforddiant, cymorth ac arweiniad pellach arnynt. Mae hwn yn faes a fydd yn cael cryn sylw yn 2022/23 ar ôl sefydlu'r gwasanaeth cymorth rheoli contractau, wrth iddo barhau i recriwtio aelodau

tîm a chyflawni ei amcanion yn llawn. Mae angen mynd ati trwy gydol y flwyddyn i ddatblygu rôl y gwasanaeth cymorth rheoli contractau wrth roi sicrwydd i'r sefydliad bod contractau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae materion cynllunio'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn feysydd pryder difrifol i lawer. Er y nodwyd bod y broblem wedi gwaethygu yn sgil methu â recriwtio pobl mewn rhai rhannau o'r busnes, nodir bod y pryder hwn yn un difrifol. Nid yw'n ymddangos bod cynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio'r gweithlu yn digwydd mewn ffordd strwythuredig a strategol. Mae rhywfaint o waith cynllunio ar gyfer olyniaeth a gwaith cynllunio'r gweithlu lleol ad-hoc yn cael ei wneud. Mae adnoddau wedi cael ei nodi fel risg o bryder newydd yn ystod 2021/22, ac mae wedi'i chynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Strategol erbyn hyn. Felly, mae'r risg hon yn cael ei rheoli ar lefel strategol oddi mewn i'r sefydliad, a bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn cael eu cynnwys yn y gofrestr risgiau. Bydd angen i'r camau gweithredu penodol arfaethedig i liniaru’r risg sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth hefyd.

Codwyd sawl cwestiwn ynglŷn â rôl Byrddau Busnes yng nghyd-destun rheolaethau a sicrwydd mewnol. Nodwyd bod sawl maes y tu allan i gwmpas Byrddau Busnes at ddibenion yr ymarferiad hwn, gan gynnwys monitro Iechyd a Diogelwch, datblygu cynllun gweithlu a monitro cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau allweddol CNC. Nid oedd rhai datganiadau, ar lefel Bwrdd Busnes yn benodol, yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i fynegi barn am sicrwydd effeithiolrwydd rhai o'r meysydd rheoli hyn, gan fod y rheolaethau yn eiddo i swyddogaethau canolog a chorfforaethol.

Bydd rôl Byrddau Busnes yng nghyd-destun rheolaethau mewnol a llywodraethu sefydliadol yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod fel rhan o'n gwaith datblygu 'gweledigaeth ar gyfer llywodraethu da' parhaus. Bydd yr holl sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â phroses a chynnwys y Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol a'r Dystysgrif Sicrwydd yn cael eu hadolygu, a bydd gwelliannau'n cael eu cynnwys yn y broses ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **13 Gorffennaf 2022**

# Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

## Adroddiad Cyflogau

### Polisi cyflogau

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Chyflogau i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflogau ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan CNC. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r Pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau contractau uwch-weithwyr (aelodau o'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Nid yw'r polisi cyflogau ar gyfer y staff ar y lefel uchaf yn cael ei gydfargeinio, a chytunir ar y pecyn cyflog drwy gyfeirio at y Gwerthusiad Swydd ar gyfer Swyddi Uwch (JESP) a chyfradd cyflog unigol.

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum undeb lafur, a chaiff y telerau ac amodau ar gyfer staff ar lefel is nag aelodau'r Tîm Gweithredol eu gosod trwy gydgytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflogau, telerau ac amodau ac yn gosod cylch cyflog y mae'n rhaid i CNC eu cyflawni o'i fewn. Fel rhan o gynnig cyflog eleni, gwnaethom gytuno, drwy ymgynghoriad ffurfiol, ar gytundeb cyflog o 2.0% am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mai 2022. Cynyddodd y Gwelliannau a'r Taliadau (ac eithrio'r Dyfarniad Teyrngarwch) 2% hefyd o 1 Gorffennaf 2021. Nid oedd y cynnig hwn yn berthnasol i'r rhai a oedd wedi optio allan o'r Cynllun Gwerthuso Swyddi yn barod, gan ei fod eisoes wedi'i gytuno drwy'r ymgynghoriad Gwerthuso Swyddi.

### Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran Gweinidog nawdd CNC yn Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n gofyn i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac yn seiliedig ar gystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan yr aelodau o'r Tîm Gweithredol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn benodiadau penagored. Rhaid i'r swyddogion a'r aelodau Bwrdd hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

### Cyflog a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflog aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddion eraill. Pe bai aelodaeth yn cael ei therfynu'n gynnar, am reswm heblaw am gamymddwyn, byddai'r aelod hwnnw o'r Tîm Gweithredol yn derbyn iawndal sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd

| Aelod y Bwrdd | Dyddiadau dan Gontract | Cyflog 2021/22 (ystod £5,000) | Cyflog 2020/21 (ystod £5,000) |
|---|---|---|---|
| Karen Balmer | 09/11/15 i 08/11/22 | 10-15 | 10-15 |
| Chris Blake[1] | 09/11/15 i 24/02/21 | Ddim yn berthnasol | 10-15 |
| Catherine Brown[2] | 01/11/18 i 31/10/22 | 15-20 | 15-20 |
| Julia Cherrett[3] | 01/11/18 i 31/10/25 | 15-20 | 10-15 |
| Geraint Davies | 01/01/19 i 31/10/24 | 10-15 | 10-15 |
| Howard Davies[4] | 09/11/15 i 31/08/21 | 10-15 | 10-15 |
| Paul Griffiths[5] | 01/09/2021 i 25/05/2022 | 5-10 | Ddim yn berthnasol |
| Elizabeth Haywood[6] | 09/11/15 i 31/08/21 | 15-20 | 10-15 |
| Syr David Henshaw (Cadeirydd)[7] | 01/11/18 i 31/10/23 | 45-50 | 45-50 |
| Zoë Henderson[8] | 09/11/15 i 08/11/22 | 15-20 | 15-20 |
| Calvin Jones[9] | 01/09/2021 i 31/08/2022 | 5-10 | Ddim yn berthnasol |
| Mark McKenna[10] | 01/09/2021 i 31/08/2022 | 5-10 | Ddim yn berthnasol |
| Steve Ormerod (Dirprwy Gadeirydd) [11] | 01/11/18 i 31/10/22 | 15-20 | 15-20 |
| Rosie Plummer[12] | 01/11/18 i 31/10/24 | 15-20 | 10-15 |
| Peter Rigby[13] | 01/11/18 i 31/10/23 | 25-30 | 10-15 |

Roedd y dyddiadau gorffen a nodir yn y tabl uchod yn gywir ar ddyddiad yr adroddiad ond mae trafodaethau'n parhau i ymestyn contractau rhai aelodau o'r bwrdd oherwydd amgylchiadau eithriadol sydd wedi arwain at rywfaint o oedi cyn penodi aelodau newydd o'r Bwrdd yn 2022.

1 Ymddiswyddodd Chris Blake fel aelod o fwrdd CNC ar 24 Chwefror 2021.

2 Catherine Brown yw cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

3 Mae Julia Cherrett wedi bod yn gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ers 31 Awst 2021.

[4] Peidiodd Howard Davies â bod yn aelod o'r bwrdd ar 31 Awst 2021 ac roedd yn gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hyd at y dyddiad hwn. Derbyniodd gyflog rhwng £5,000 a £10,000 ar gyfer gwasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad rhwng £5,000 a £10,000 am wasanaethu fel cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd cyfanswm ei gyflog am y flwyddyn rhwng £10,000 a £15,000.

[5] Daeth Paul Griffiths yn aelod o'r bwrdd ar 1 Medi 2021 ac ymddiswyddodd ar 25 Mai 2022.

[6] Peidiodd Elizabeth Haywood â bod yn aelod o'r bwrdd ar 31 Awst 2021 ac roedd yn gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd hyd at y dyddiad hwn. Derbyniodd gyflog rhwng £5,000 a £10,000 ar gyfer gwasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad rhwng £5,000 a £10,000 am wasanaethu fel cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd cyfanswm ei chyflog am y flwyddyn rhwng £15,000 a £20,000.

[7] Syr David Henshaw yw cadeirydd y Bwrdd a chadeirydd dros dro y Pwyllgor Cyllid.

[8] Zoë Henderson yw cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau.

[9] Daeth Calvin Jones yn aelod o'r bwrdd ar 1 Medi 2021.

[10] Daeth Mark McKenna yn aelod o'r bwrdd ar 1 Medi 2021.

[11] Steve Ormerod yw dirprwy gadeirydd y Bwrdd.

[12] Mae Rosie Plummer wedi bod yn gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ers 31 Awst 2021.

[13] Peter Rigby yw cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth. Derbyniodd gyflog rhwng £15,000 a £20,000 ar gyfer gwasanaethau yn ystod 2021/22 ac ôl-daliad rhwng £5,000 a £10,00 am wasanaethu fel cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd cyfanswm ei gyflog am y flwyddyn rhwng £25,000 a £30,000.

## Cyflogau'r Tîm Gweithredol

| Aelod o'r Tîm Gweithredol | Cyflog (ystod £5,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn[8] (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (ystod £5,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22 | 2020/21 |
| Clare Pillman[1] (Prif Weithredwr) | 140-145 | 140-145 | 0 | 0 | 23,000 | 49,000 | 160-165 | 185-190 |
| Rachael Cunningham[2] | 115-120 | 65-70 | 0 | 0 | 76,000 | 71,000 | 190-195 | 135-140 |
| Ceri Davies[3] | 105-110 | 105-110 | 0 | 0 | 6,000 | 62,000 | 115-120 | 170-175 |
| Prys Davies[4] | 110-115 | 85-90 | 0 | 0 | 26,000 | 31,000 | 135-140 | 115-120 |
| Kevin Ingram[5] | 0 | 5-10 | 0 | 0 | 0 | 16,000 | 0 | 20-25 |
| Sarah Jennings[6] | 120-125 | 65-70 | 0 | 0 | 47,000 | 27,000 | 95-100 | 95-100 |
| Gareth O'Shea[7] | 120-125 | 95-100 | 0 | 0 | 93,000 | 44,000 | 215-220 | 140-145 |

[1] Mae Clare Pillman yn aelod cyflog terfynol (clasurol/clasurol a mwy/premiwm) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Mae pensiwn cyflog terfynol pobl mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at eu cyflog a hyd eu gwasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall ar sail unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Os nad oes codiad cyflog, neu os oes codiad cyflog bach, mae'n bosibl na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn leihau, gan arwain at ostyngiad yng ngwerth buddion pensiwn.

[2] Penodwyd Rachael Cunningham yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar 7 Medi 2020. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2020/21 yw £115,000 i £120,000.

[3] Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Ceri Davies oedd £105,000 i £110,000 hyd at fis Rhagfyr 2021 a £115,000 i £120,000 o fis Ionawr 2022 ymlaen.

[4] Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Prys Davies oedd £95,000 i £100,000. Yn ystod y flwyddyn, cafodd gynnydd cyflog wedi'i ôl-ddyddio a arweiniodd at dâl ychwanegol rhwng £10,000 a £15,000 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae Prys Davies yn aelod cyflog terfynol (clasurol/clasurol a mwy/premiwm) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Mae pensiwn cyflog terfynol pobl mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at eu cyflog a hyd eu gwasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall ar sail unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Os nad oes codiad cyflog, neu os oes codiad cyflog bach, mae'n bosibl na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn leihau, gan arwain at ostyngiad yng ngwerth buddion pensiwn.

[5] Daeth cyflogaeth Kevin Ingram i ben ar 9 Ebrill 2020. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2020/21 oedd £95,000 i £100,000.

[4] Penodwyd Sarah Jennings yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ar 7 Medi 2020. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2020/21 yw £120,000 i £125,000.

[7] Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Gareth O'Shea oedd £105,000 i £110,000. Yn ystod y flwyddyn, cafodd gynnydd cyflog wedi'i ôl-ddyddio a arweiniodd at dâl ychwanegol rhwng £15,000 a £20,000 mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2020.

[8] Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau wedi'u gwneud gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys codiadau oherwydd chwyddiant neu unrhyw newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli swm a fydd yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn. Bwriad y cyfrifiad yw cyfleu i ddarllenydd y cyfrifon amcangyfrif o'r budd y gallai bod yn aelod o'r cynllun pensiwn ei ddarparu. Mae'r tabl buddion pensiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y buddion pensiwn sy'n cael eu cronni gan yr unigolyn.

## Cyflog

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n drethadwy yn y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau yr aethpwyd iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau unigolyn.

## Cyflog cysylltiedig â pherfformiad

Mae unrhyw gynnydd mewn cyflog yn amodol ar asesu perfformiad naill fel perfformiad 'Rhagorol' neu'n 'Cyflawni' gan y Prif Weithredwr a'i gymedroli gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau. Bydd y cynnydd sy'n cael ei ddyfarnu yn cael ei bennu gan y dyfarniad cyflog ar gyfer y rhai yn yr uned gydfargeinio. Ni fydd unrhyw godiad cyflog yn cael ei roi mewn achosion o danberfformio.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel enillion trethadwy gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol dderbyn buddion mewn nwyddau yn ystod 2021/22 a 2020/21.

Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r uwch-staff dderbyn unrhyw daliadau eraill ar wahân i'r symiau a ddangosir uchod.

## Buddion pensiwn

| Aelod o'r Tîm Gweithredol | Pensiwn Cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/22 £000 | Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/22 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn £000 | Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31/03/22 £000 | Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31/03/21 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman (Prif Weithredwr) | 60-65 | 135-140 | 0-2.5 | 0 | 1,261 | 1,187 | 3 |
| Rachael Cunningham | 35-40 | 0 | 2.5-5 | 0 | 513 | 436 | 48 |
| Ceri Davies | 50-55 | 70-75 | 0.2-5 | 0-(2.5) | 1,017 | 958 | (4) |
| Prys Davies | 30-35 | 60-65 | 0-2.5 | 0 | 549 | 509 | 9 |
| Sarah Jennings | 0-5 | 0 | 2.5-5 | 0 | 60 | 21 | 29 |
| Gareth O'Shea | 55-60 | 90-95 | 2.5-5 | 5-7.5 | 1,046 | 912 | 72 |

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar bwynt penodol o amser fel y’i haseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal ar gyfer colli swydd

Ni chytunwyd ar iawndal ar gyfer colli swydd yn ystod yn ystod 2021/22.

## Datgelu cyflog teg

Rhaid i CNC a chyrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae’r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau pan fo'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2021/22, cafodd tri aelod o staff dan gontract (2020/21: 6) eu talu ar gyfradd uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Band cyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf (fel y dangosir uchod) yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 oedd £140,000 i £145,000 (2020/21: £140,000 i 145,000). Roedd hyn 3.8 gwaith (2020/21 4 gwaith) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, gan gymharu â chyflogau chwartel uchaf, canolrif ac isaf fel a ganlyn:

**Cymhareb cyflog y gweithlu**

| | 2021/22 £ | 2020/21 £ | Symudiad % |
|---|---|---|---|
| Chwartel uchaf | 42,885 | 42,044 | 2.0 |
| Cymhareb | 3.3 | 3.3 | |
| Canolrif | 37,119 | 35,288 | 5.2 |
| Cymhareb | 3.8 | 4.0 | |
| Chwartel isaf | 31,490 | 30,873 | 2.0 |
| Cymhareb | 4.4 | 4.5 | |

Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £19,100 i £70,070.

## Adroddiad staff

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau ein gweithlu. Mae'r tablau staff isod yn cynnwys cyflogeion parhaol, penodiadau cyfnod penodol a phrentisiaid yn ogystal â staff asiantaeth, contractwyr, a secondeion.

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,364 | 1,331 | 1,102 | 1,028 | 2,466 | 2,359 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Tîm Arwain | 11 | 10 | 14 | 12.5 | 25 | 23 |
| Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Fesul pen** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,366 | 1,338 | 1,086 | 1,009 | 2,452 | 2,347 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Tîm Arwain | 10 | 10 | 13 | 12.5 | 23 | 22.5 |
| Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd:**

| | 2021/22 | | | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff Parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 2,072 | 72 | 2,144 | 2,070 |
| Staff asiantaeth a chontract | 0 | 164 | 164 | 161 |
| **Cyfanswm** | **2,072** | **236** | **2,308** | **2,231** |

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar brosiectau cyfalaf oedd 232.2 (2020/21: 237.1).

## Trosiant staff

Trosiant staff yn ystod 2021/22 oedd 6.75% heb gynnwys gweithwyr dros dro e.e. Asiantaeth (2020/21 3.79%).

## Costau staff

| | 2021/22 | | | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Staff eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau a chyflogau | 78,250 | 14,873 | 93,123 | 87,338 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 8,346 | 625 | 8,971 | 8,089 |
| Costau pensiwn eraill | 19,804 | 611 | 20,415 | 13,900 |
| **Cyfanswm costau cyflogau net** | **106,400** | **16,109** | **122,509** | **109,327** |
| | | | | |
| **Gwariant arall ar gyfer staff** | | **Nodyn** | | |
| Costau pecynnau ymadael | | | 159 | 204 |
| Tâl gwasanaeth Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau) | | 14 | 16,353 | 9,191 |
| Llai costau pensiwn ymddeoliadau cynnar | | | (15) | (88) |
| Llai cyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn | | | (6,894) | (1,948) |
| Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd | | | (140) | 942 |
| **Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff** | | | **9,463** | **8,301** |
| Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf | | | (12,757) | (11,130) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **119,215** | **106,498** |

Gellir gweld manylion rhwymedigaethau pensiwn CNC yn Nodyn 14.
Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau. Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £11.3 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr (2020/21: £10.3 miliwn).

## Cynlluniau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun agored ac mae'n cynnwys y cynllun buddion

diffiniedig, Alpha yn ogystal â chynllun cyfraniadau diffiniedig partneriaeth rhanddeiliaid. Hefyd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

## Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha". Ond nid yw'r cynlluniau yn nodi cyfran sefydliadau unigol o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r PCSPS fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn: https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/knowledge-centre/resources/resource-accounts/

Ar gyfer 2021/22, roedd £13,204,000 o gyfraniadau cyflogwr yn ddyledus i'r PCSPS (2020/21: £11,846,000) ar un o bedair cyfradd rhwng 26.6% a 30.3% o enillion pensiynadwy (rhwng 26.6% a 30.3% ar gyfer 2020/21), yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod er mwyn talu costau'r buddion a gronnwyd yn ystod 2021/22 sy'n daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

## Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £152,000 (2020/21: £137,000) i'r darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad cyfatebol i gyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £5,000, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy (2020/21: £5,000), yn daladwy i'r PCSPS i dalu costau darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marw yn y swydd neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

## Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), trwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig statudol ac sy'n cael ei ariannu ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus statudol yw'r LGPS. Bob tair blynedd, mae'r EAPF yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Yn dilyn yr asesiad prisio ar 31 Mawrth 2019, nodwyd bod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 106% (2016: 103%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gytundeb derbyn cymunedol gyda'r EAPF i gymryd rhan yn yr LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddodd i CNC ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwarant gan yr EAPF i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau a ddaw yn sgil cyfranogiad CNC yn yr EAPF.

Ar gyfer 2021/22 roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn 24.67% o fis Ebrill 2021 a 23.76 o fis Mehefin 2021 (2020/21: 23.08%). Yn 2021/22, talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £6,894,000 i'r LGPS (2020/21: £1,948,000) sy'n lleihau'r balans yng nghronfa bensiwn IAS 19.

## Pecynnau ymadael

| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost: | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| O dan £10,000 | 2 | 1 |
| £10,001 - £25,000 | 1 | 3 |
| £25,001 - £50,000 | 0 | 0 |
| £50,001 - £100,000 | 2 | 2 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **6** |
| **Cost adnoddau** | **£159,000** | **£204,000** |

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2021/22 nac yn 2020/21.

Mae costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac a gafodd eu cyfrif yn 2021/22. Mewn gwirionedd, talwyd costau ymadael o £226,000 yn 2021/22, sef y flwyddyn ymadael. Mae'r swm hwn yn cynnwys £7,000 o daliadau ychwanegol ar gyfer tri phecyn a ddatgelwyd yn 2020/21. Os yw CNC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan CNC ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

**Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**

Dangosodd ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022) y collwyd 5.9 o ddiwrnodau am bob cyflogai ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 2.7%.

## Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Ar 26 Ebrill 2021, gwnaethom gwblhau'n llwyddiannus ein hymarferiad hunanasesu ac, o ganlyniad, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ail-achredu CNC fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd tan 22 Ebrill 2024.

### Cynllun Gwarantu Cyfweliad 'Tic Dwbl'

Yn ystod 2021/22, gwnaethom barhau i gydymffurfio 100% â'n cynllun gwarantu cyfweliad 'Tic Dwbl', lle mae ymgeiswyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani, yn cael gwahoddiad i gyfweliad yn awtomatig.

Yn allanol, cawsom geisiadau gan 1629 o bobl, gyda 28 (1.72%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Yn fewnol, cafwyd ceisiadau gan 820 o bobl, gyda 4 (0.48%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig.

## Rhwydweithiau Staff (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae'r Rhwydweithiau yn cael eu cynnal gan staff ar gyfer staff, ac maent yn dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r gweithle sy'n uniaethu ag eraill o gefndir neu grŵp tebyg.

Mae Rhwydweithiau Staff yn cyflawni swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio yn gymdeithasol, cefnogaeth gan gymheiriaid, a datblygiad personol. Hefyd, gall rhwydweithiau staff gyfrannu at y gwaith o ddatblygu ein polisïau a'n harferion gweithio.

Fel sefydliad rydym yn cydnabod gwerth grwpiau sy'n trefnu eu hunain o ran creu amgylchedd sy'n parchu amrywiaeth ymhlith staff ac sy'n eu galluogi i gael y budd a’r mwynhad gorau posibl o gymryd rhan yn y gweithle.

Rydym yn cefnogi'r rhwydweithiau drwy:

- Annog rheolwyr i ryddhau gweithwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwaith wedi'i dargedu sy'n codi
- Hyrwyddo'r rhwydweithiau i weithwyr hen a newydd
- Gwrando, mewn ffordd gadarnhaol, ar unrhyw bryderon gan weithwyr a godir trwy'r rhwydweithiau staff
- Cymryd rhan mewn mentrau a ddatblygir gan y rhwydweithiau staff
- Adnewyddu aelodaeth o Employers for Carers ym mis Ionawr 2022
- Adnewyddu ein haelodaeth o Stonewall ym mis Ebrill 2022

Mae gennym saith rhwydwaith staff ar hyn o bryd, fel a ganlyn: -

- Grwpiau Defnyddwyr a Gynorthwyir (TGCh a Theleffoni)
- Rhwydwaith LHDTC+ Calon
- Y Gymdeithas Gristnogol
- Cwtch (Rhwydwaith Gofalwyr)
- Cyfeillion Dementia
- Rhwydwaith Mwslimiaid
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth

Ym mis Awst 2021 cyfarfu ein Rhwydwaith LHDTC+ Calon â Rhwydwaith PRISM Llywodraeth Cymru i drafod dull gweithredu mewn perthynas â chyflwyniad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle (WEI) Stonewall a rhannu ymarfer da ynglŷn â'r dulliau gorau o ymgysylltu â staff. Mae Calon yn gobeithio parhau i gydweithio â PRISM ar ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Mae un aelod o bob Rhwydwaith yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf a rhagolwg o waith y Rhwydwaith. Mae sgyrsiau agored i sicrhau adborth adeiladol yn cael eu hannog mewn cyfarfodydd.

Mae pob Rhwydwaith yn rhoi cyflwyniad yn ystod y cwrs Sefydlu ar gyfer aelodau staff newydd er mwyn helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'n Rhwydweithiau a'r cymorth sydd ar gael ganddynt yn gynnar yn eu gyrfa gyda ni yma.

Yn ystod y flwyddyn, mae calendr digwyddiadau wedi'i ddatblygu sy'n helpu i sicrhau bod ein rhwydweithiau staff yn gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a'i bod yn haws gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau.

## Materion eraill yn ymwneud â chyflogeion (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Yn ystod 2020/21, gwnaethom gwblhau, mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur, y trefniadau cytundebol ar gyfer tua 1200 o swyddi ar sail rota.

## Swyddi oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae gofyn i CNC gyhoeddi gwybodaeth am benodiadau ymgynghorwyr neu aelodau staff sy'n para'n hwy na chwe mis a lle mae unigolion yn ennill mwy na £245 y dydd, lle'r ydym yn talu drwy anfoneb ac nid y gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau os bydd rhywun yn gweithio drwy gyfryngwr a byddai, at ddibenion cyfraniadau treth incwm ac yswiriant gwladol, wedi cael ei ystyried yn gyflogai pe bai'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y cleient (CNC), ei fod yn talu tua'r un cyfraniadau treth incwm ac yswiriant gwladol fel petai wedi'i gyflogi. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sy'n wirioneddol hunangyflogedig.

Cyfrifoldeb y cleient (CNC) yw cynnal yr asesiad at ddibenion treth yn hytrach na'r cyfryngwr. Os yw’r asesydd yn penderfynu bod y rôl o fewn cwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu’r un dreth cyflogai a fyddai cyflogai ar y gyflogres.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn:

**Swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2022, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis**

| Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2022 sydd wedi bodoli am: | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| lai na blwyddyn | 17 |
| rhwng un a dwy flynedd | 22 |
| rhwng dwy a tair blynedd | 21 |
| rhwng tair a phedair blynedd | 17 |
| pedair blynedd neu fwy | 19 |
| **Cyfanswm** | **96** |

Mae mwyafrif y contractwyr yn cefnogi'r tîm Trawsnewid wrth ddatblygu a thrawsnewid ein systemau TGCh.

**Swyddi newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis**

| | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| Nifer y swyddi newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. | 24 |
| o'r rhain: | |
| y nifer a aseswyd fel rhai sy'n dod o dan drefniadau IR35 | 0 |
| Y nifer a aseswyd fel rhai nad ydynt yn dod o dan drefniadau IR35 | 24 |
| Y nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar gyflogres CNC | 0 |
| Nifer y swyddi a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn. | 8 |
| Nifer y swyddi a welodd newid i'w statws IR35 ar ôl yr adolygiad cysondeb. | 0 |

# Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni ddatgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth pan fydd eu cyfanswm yn fwy na £300,000 ac ar gyfer unrhyw eitemau unigol sy'n werth £300,000 neu ragor.

### Colledion unigol o £300,000 neu fwy

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd bod swm o £1,336,000 wedi'i ddileu. Cafodd gwerth ased anniriaethol sy'n cael ei datblygu mewn perthynas â system feddalwedd ar gyfer y labordai ei lleihau gan y swm hwn oherwydd nad oedd cyflenwr y feddalwedd yn gallu cyflawni yn unol â'r contract mwyach. Mae adolygiad annibynnol wedi'i gynnal er mwyn dysgu gwersi ar gyfer prosiectau o'r math hwn yn y dyfodol.

Hefyd, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru daliad arbennig yn ymwneud ag ad-dalu ffioedd gwerth £687,000 i Horizon Nuclear Power ar ôl i weithgareddau datblygu ddod i ben ar safle Wylfa Newydd.

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig gwerth £300,000 neu fwy yn ystod 2020/21.

### Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau i ddileu symiau a cheisiadau am daliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

| Categori neu fath o golled | 2021/22 Nifer | 2021/22 £'000 | 2020/21 Nifer | 2020/21 £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Dileu dyledion na ellir eu hadennill | 45 | 114 | 0 | 0 |
| Asedau a gollwyd | 11 | 1,441 | 15 | 18 |
| Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion) | 20 | 9 | 34 | 104 |
| Taliadau arbennig | 4 | 1,145 | 5 | 17 |
| **Cyfanswm** | **80** | **2,709** | **54** | **139** |

**Clare Pillman**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** **13 Gorffennaf 2022**

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadau gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol am Adroddiad ar Gyflogau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a dealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw neu nad yw'r ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwilir o'r Adroddiad ar Gyflogau yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflogau a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed oddi tano, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bernir bod hynny’n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn

bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achos o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol am bolisïau a gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reoli rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio ac roeddwn yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 12 Medi 2022 | CF11 9LJ |

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# DATGANIADAU ARIANNOL
# a
# NODIADAU I'R CYFRIFON

## ar gyfer 2021/22

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 3 | 119,215 | 106,498 |
| Gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn | 4 | 25,635 | 19,657 |
| Gwariant arall | 5 | 110,128 | 98,788 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 254,978 | 224,943 |
| Incwm taliadau | 6 | (37,311) | (36,721) |
| Incwm masnachol ac arall | 6 | (48,072) | (39,467) |
| Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall | 6 | (2,198) | (2,218) |
| **Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid** | | (87,581) | (78,406) |
| **Gwariant gweithredu net cyn enillion ar ailbrisio asedau ariannol ac asedau biolegol** | | **167,397** | **146,537** |
| Enillion ar ailbrisio asedau biolegol | 7.1 | (104,647) | (231,689) |
| Enillion ar ailbrisio asedau ariannol | 9 | (4,154) | (8,607) |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn ar ôl enillion ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **58,596** | **(93,759)** |
| Cyllido ar asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 14.2.5 | 2,294 | 117 |
| Enillion/colledion net ar ailbrisio | | 975 | 18 |
| **Diffyg/(Gwarged) ar gyfer y flwyddyn** | | **61,865** | **(93,624)** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesuriadau actiwaraidd pensiynau | 14.2.5 | (64,008) | 97,861 |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | SoCTE | (356,562) | (637,477) |
| **Cyfanswm gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | **(358,705)** | **(633,240)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 132 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol

### Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7.1 | 2,020,356 | 1,688,090 |
| Asedau treftadaeth | 7.1 | 7,403 | 7,403 |
| Asedau biolegol | 7.1 | 457,790 | 360,940 |
| Asedau anniriaethol | 7.2 | 29,602 | 27,308 |
| Asedau ariannol | 9 | 16,807 | 14,128 |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 10 | 3,451 | 3,342 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 2,535,409 | 2,101,211 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer a gedwir i'w gwerthu | | 399 | 703 |
| Ased ariannol a gedwir i'w gwerthu | 9 | 1,475 | 0 |
| Rhestrau eiddo | | 580 | 2,082 |
| Symiau masnach ac eraill yn dderbyniadwy | 10 | 26,536 | 19,456 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 11 | 8,993 | 7,855 |
| **Cyfanswm asedau presennol** | | 37,983 | 30,096 |
| **Cyfanswm asedau** | | **2,573,392** | **2,131,307** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach ac eraill yn daladwy | 12 | (38,206) | (32,026) |
| Darpariaethau | 13 | (266) | (73) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | (38,472) | (32,099) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,534,920** | **2,099,208** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 14.2.5 | (54,374) | (106,644) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 8 | (39,844) | (39,897) |
| Symiau taladwy hirdymor | 12 | (3,733) | (4,055) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (97,951) | (150,596) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **2,436,969** | **1,948,612** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol | SoCTE | 565,154 | 459,285 |
| Cronfa ailbrisio | SoCTE | 1,926,189 | 1,595,971 |
| Cronfa pensiynau | SoCTE | (54,374) | (106,644) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,436,969** | **1,948,612** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 132 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 87 i 90 gan y bwrdd ar 13 Gorffennaf 2022 a'u llofnodi ar ei ran gan:

Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2022

# Datganiad Llifoedd Arian

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoCNE | (167,397) | (146,537) |
| Addasu trafodiadau anariannol | | 54,775 | 39,053 |
| Symudiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | (7,189) | (2,705) |
| Symudiad mewn masnach a symiau taladwy eraill | 12 | 5,858 | 3,455 |
| Symudiad mewn rhwymedigaethau ariannol | SoFP | (53) | (45) |
| Symudiad mewn darpariaethau | SoFP | 193 | (339) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(113,813)** | **(107,118)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 7.1 | (8,154) | (7,344) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7.2 | (7,705) | (8,827) |
| Enillion o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer | | 1,158 | 730 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(14,701)** | **(15,441)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | SoCTE | 129,652 | 105,313 |
| **Cyllido Net** | | **129,652** | **105,313** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **1,138** | **(17,246)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **7,855** | **25,101** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | **8,993** | **7,855** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 132 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Bensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans agoriadol** | **459,285** | **1,595,971** | **(106,644)** | **1,948,612** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 358,705 | 0 | 0 | **358,705** |
| **Symudiad yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (356,562) | 356,562 | 0 | **0** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 26,344 | (26,344) | 0 | **0** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (64,008) | 0 | 64,008 | **0** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | 11,738 | 0 | (11,738) | **0** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(382,488)** | **330,218** | **52,270** | **0** |
| **Cyllid** | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 129,652 | 0 | 0 | **129,652** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **565,154** | **1,926,189** | **(54,374)** | **2,436,969** |

Cronfa Gyffredinol – yn adlewyrchu sefyllfa gronnus gwariant net a chyllid gan Lywodraeth Cymru.
Cronfa Ailbrisio – yn adlewyrchu balans cronnus ailbrisio a mynegeio asedau anghyfredol.
Cronfa Bensiwn – yn adlewyrchu sefyllfa gronnus rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Bensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans agoriadol** | **234,407** | **977,163** | **(1,511)** | **1,210,059** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 633,240 | 0 | 0 | **633,240** |
| **Symudiad yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (637,477) | 637,477 | 0 | **0** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 18,669 | (18,669) | 0 | **0** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 97,861 | 0 | (97,861) | **0** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | 7,272 | 0 | (7,272) | **0** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(513,675)** | **618,808** | **(105,133)** | **0** |
| **Cyllid** | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 105,313 | 0 | 0 | **105,313** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **459,285** | **1,595,971** | **(106,644)** | **1,948,612** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 132 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodyn 1 Polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â llawlyfr adroddiadau ariannol (FReM) 2021/22 y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a gyda'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r safonau adroddiadau ariannol rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu eu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sydd fwyaf priodol i roi golwg wir a theg ar Cyfoeth Naturiol Cymru.

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd isod ac yn y gwahanol nodiadau i'r cyfrifon. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'n ofynnol gwneud amryw o amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau cyfrifyddu a symiau yr adroddir amdanynt. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth am ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, rhagdybiaethau ynghylch digwyddiadau'r gorffennol a rhagolygon am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Dangosir y meysydd amcangyfrif a dyfarniadau beirniadol mwyaf arwyddocaol yn erbyn y nodiadau perthnasol, a gall gwir ganlyniadau yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd yn unol â'n polisïau i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau biolegol, anniriaethol ac ariannol i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifyddu berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes gweithredol.

### 1.3 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbynnir gan barti rheoli. Fe'u cofnodir fel trafodiad cyllido ac fe'u credydir yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ac nid trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y mae'r gweithgaredd perthnasol yn cael ei gynnal, yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Ffioedd hawlddewis ac incwm cysylltiedig a dderbynnir gan weithredwyr ffermydd gwynt yw'r unig eithriad, a rhoddir cyfrif amdanynt yn y flwyddyn y cânt eu derbyn. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ffermydd gwynt sy'n ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8) yn daladwy i Lywodraeth Cymru. Cesglir yr incwm gan Cyfoeth Naturiol Cymru, tynnir y gwariant perthnasol o'r incwm a throsglwyddir y balans i Lywodraeth Cymru. Mae'r brydles ar gyfer fferm wynt Cefn Croes yn eithriad yn yr ystyr bod yr incwm a gynhyrchir gan y brydles hon yn cael ei gadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er yn y flwyddyn ariannol hon cafodd rhan o'r incwm hwn ei dalu i Lywodraeth Cymru. I gyfateb i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifyddu, dangosir gwerth net incwm o ffermydd gwynt ar ôl didynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru yn yr incwm ynni adnewyddadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbynnir cyn gwneud y gwaith yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Pan gydnabuwyd incwm a gwariant ond na dderbyniwyd na thalwyd arian parod, cofnodir swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Pan na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, mae balans y symiau derbyniadwy yn cael ei gofnodi a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm na fyddai o bosibl yn cael ei gasglu.

Mae trafodion gwerthu a phrynu sydd â chysylltiad cynhenid, ac y derbynnir neu y gwneir un taliad ar eu cyfer, yn cael eu cyfrif fel un trafodiad. Cymhwysir y polisi cyfrifyddu sy'n briodol i brif elfen y trafodiad.

Cydnabyddir cyfraniadau grant a dderbynnir nad ydynt yn gymorth grant neu na dderbynnir gan Lywodraeth Cymru fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.5 Rhestrau Eiddo

Mae rhestrau eiddo yn cynnwys stociau coed sydd wedi cwympo ac sy'n cael eu prisio fel gwerth teg llai'r costau gwerthu amcangyfrifedig y disgwylir mynd iddynt tan eu cwblhau a'u gwaredu. Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwyliedig.

## 1.6 Treth ar werth

Dosberthir CNC fel corff y mae adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn berthnasol iddo, ac yn unol â hynny, mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn fusnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, pan godir treth allbwn, neu y gellir adennill treth fewnbwn, nodir y symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn net o TAW.

## 1.7 Ardaloedd draenio mewnol

Mae CNC yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n cynnal 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Ariennir y gwaith a wneir ym mhob ardal drwy gyfuniad o ardrethi draenio a godir ar ddeiliaid tir amaethyddol ac ardollau arbennig y mae awdurdodau lleol yn eu talu mewn perthynas â thir nad yw'n amaethyddol.

Mae'n ofynnol, o dan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, i CNC bennu ardrethi draenio, a thrwy reoliad 7 Rheoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992, i gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

Gosodwyd yr ardrethi draenio, ardollau arbennig a phraeseptau ar gyfer 2021/22 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn nodyn 6.

## 1.8 Asedau diriaethol

Yn draddodiadol, mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (yr adroddir amdanynt mewn strwythurau gweithredol) wedi cael prisiad proffesiynol llawn bob pum mlynedd yn unol â safonau gwerthuso a phrisio (Llyfr Coch) Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Yn 2020/21, sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer Prisiadau llawn (gweler Nodyn 7). Rhwng prisiadau llawn, mae asedau'n cael prisiad interim bob blwyddyn. Ar gyfer 2021/21, darparwyd y prisiadau hyn gan gwmnïau perthnasol o syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol. Cwblhawyd y prisiadau ar gyfer yr asedau hyn hefyd yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS fel y cyfeiriwyd ato uchod.

## 1.9 Mabwysiadu dehongliadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu'r llawlyfr adrodd ariannol (FReM) newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

**Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu**

Ni fu unrhyw newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**Newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu**

Ni fu unrhyw newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sy’n effeithiol yn y datganiadau ariannol hyn**

Mae'r holl Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), dehongliadau a diwygiadau sy'n effeithiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi'u mabwysiadu yn y datganiadau hyn.

**Safonau adrodd ariannol rhyngwladol sy’n effeithiol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

*IAS 8 – Polisïau Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifyddu*
Mae angen datgeliadau mewn perthynas ag IFRS newydd, diwygiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Mae nifer o IFRS, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn effeithiol mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru isod. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu unrhyw safonau IFRS newydd yn gynnar a bydd yn cymhwyso'r safonau pan gânt eu mabwysiadu'n ffurfiol yn y FReM.

*IAS 1 - Cyflwyno Datganiadau Ariannol*
Mae'r safon hon yn gosod y gofynion cyffredinol ar gyfer datganiadau ariannol gan gynnwys sut y dylid eu strwythuro, gofynion cynnwys sylfaenol a phrif gysyniadau megis busnes gweithredol. Ar 23 Ionawr 2020 cyhoeddodd yr IASB '*Dosbarthu Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS1).'* Gohiriwyd hyn wedyn a phennwyd 1 Ionawr 2023 fel dyddiad gweithredu. Ni ddisgwylir i'r diwygiad hwn gael effaith sylweddol ar adrodd ariannol.

*IAS 16 - Eiddo, peiriannau ac offer*
Mae'r safon hon yn amlinellu'r dull cyfrifyddu ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o eiddo, peiriannau ac offer. Ar 14 Mai 2020 cyhoeddodd y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) *'Property, Plant and Equipment — Proceeds before Intended Use (Amendments to IAS 16)* ' i'w gweithredu ar gyfer cyfnodau sy'n cychwyn ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwylir i'r diwygiad hwn gael effaith sylweddol ar adrodd ariannol.

*IAS 37 - Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol*
Mae'r safon hon yn amlinellu'r dull cyfrifyddu ar gyfer darpariaethau (rhwymedigaethau lle mae'r amser neu'r swm yn ansicr), ynghyd ag asedau digwyddiadol (asedau posibl) a rhwymedigaethau digwyddiadol (rhwymedigaethau posibl a phresennol nad ydynt yn debygol neu na ellir eu mesur mewn ffordd ddibynadwy). Ar 14 Mai 2020 cyhoeddodd yr IASB '*Onerous Contracts — Cost of Fulfilling a Contract (Amendments to IAS 37)* ' i'w gweithredu ar gyfer cyfnodau sy'n cychwyn 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwylir i'r diwygiad hwn gael effaith sylweddol ar adrodd ariannol.

*IAS 41 - Amaethyddiaeth*
Mae'r safon hon yn amlinellu'r dull cyfrifyddu ar gyfer gweithgarwch amaethyddol – trawsnewid asedau biolegol (planhigion ac anifeiliaid byw) yn gynnyrch amaethyddol (cynnyrch wedi'i gynaeafu asedau biolegol yr endid). Ar 14 Mai 2020 cyhoeddodd yr IASB '*Annual Improvements to IFRS Standards 2018–2020 (taxation in fair value measurements)* ' i'w gweithredu ar gyfer cyfnodau sy'n cychwyn ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny. Ni ddisgwylir i'r diwygiad hwn gael effaith sylweddol ar adrodd ariannol.

*IFRS 16 – Prydlesi*
Gohiriwyd y gwaith o weithredu'r safon hon, ac mae bellach yn effeithiol yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Bydd yn disodli'r holl safonau IFRS presennol ar brydlesi. Mae IFRS 16 yn cyflwyno gofynion newydd neu ddiwygiedig ar gyfer dulliau cyfrifyddu prydlesi. Mae'n cyflwyno newidiadau arwyddocaol i ddulliau cyfrifyddu'r lesddeiliad trwy ddileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredol a phrydlesi cyllid a'u gwneud yn ofynnol cydnabod ased hawl ei ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles pan fydd pob prydles yn cychwyn, ac eithrio ar gyfer prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel.

Disgwylir i'r broes o gyflwyno IFRS 16 gael effaith berthnasol yn nhermau adrodd ariannol (gweler nodyn 16 am ragor o fanylion).

*IFRS 17 – Cytundebau Yswiriant*
Bydd y safon hon yn berthnasol i bob math o gontract yswiriant ac yn cynnig dull blociau adeiladu yn seiliedig ar werth presennol disgwyliedig llif arian yn y dyfodol i fesur rhwymedigaethau contract yswiriant. Mae IFRS 17 yn effeithiol am gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023, neu ar ôl hynny.

Mae Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRAB) yn cael sawl diweddariad gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu IFRS 17. Hysbyswyd FRAB o'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt fel rhan o'r gweithgor technegol ar gyfer gweithredu IFRS 17, gan gynnwys ceisio deall ac amlinellu cwmpas IFRS 17 yn llawn. Mae FRAB yn awyddus i ddeall cwmpas ac effaith y safon hon ar y sector cyhoeddus, yn enwedig gan mai hon fydd y safon gyntaf a fabwysiadwyd yn y DU ar ôl i'r DU adael yr UE. Felly, bydd FRAB yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r awdurdodau perthnasol a'r gweithgor technegol i sicrhau bod IFRS 17 yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Byddwn yn parhau i adolygu'r datblygiadau a'r effaith bosibl.

### 1.10 Darpariaethau ariannol (safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer pob safle tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn cyflwyno trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo angen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb tirlenwi.

Mae'r canlynol yn brif systemau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn ar gyfer dangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (dangosir yn nodyn 12)
- Blaendaliadau arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (dangosir yn nodyn 12)
- Cyfrifon Escrow
- Cytundebau gweithredoedd awdurdodau lleol
- Gwarantau rhiant-gwmni
- Cytundebau ymbarél (yn ymwneud â nifer o safleoedd)

### 1.11 Nodiadau i'r cyfrifon

Mae nodyn 2 yn cynnig dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredu.
Mae nodiadau 3 i 14 yn cynnig dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol a adroddir yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol a llif arian.
Mae nodiadau 15 i 23 yn ymwneud â ffigurau na ddatgelwyd mewn man arall yn y cyfrifon hyn.

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Mae'r segmentau hyn yn gydrannau er mwyn rheoli ac adrodd am wybodaeth ariannol yn fewnol.
Priodolwyd incwm a gwariant a ddangosir isod yn uniongyrchol i'r segmentau.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 27,058 | 99,224 | 59,746 | 8,156 | 8,245 | 52,549 | 254,978 |
| Incwm gweithredu | (37,593) | (43,295) | (1,307) | (5,256) | (130) | 0 | (87,581) |
| **Cyfanswm** | (10,535) | 55,929 | 58,439 | 2,900 | 8,115 | 52,549 | 167,397 |
| **Gwariant cyfalaf** | 8,806 | 2,358 | 4,695 | 0 | 0 | 0 | 15,859 |

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgeliad dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Cyfathrebu â Chwsmeriaid a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a thaliadau | 36,813 | 268 | 230 | 0 | 0 | 0 | 37,311 |
| Masnachol | 780 | 41,720 | 186 | 5,256 | 130 | 0 | 48,072 |
| Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall | 0 | 1,307 | 891 | 0 | 0 | 0 | 2,198 |
| **Cyfanswm** | 37,593 | 43,295 | 1,307 | 5,256 | 130 | 0 | 87,581 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 1,219 | 2,249 | 619 | 5 | 129 | 0 | 4,221 |
| Anllywodraethol | 36,374 | 41,046 | 688 | 5,251 | 1 | 0 | 83,360 |
| **Cyfanswm** | 37,593 | 43,295 | 1,307 | 5,256 | 130 | 0 | 87,581 |

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment (parhad)

**Disgrifiad o segmentau**

| | |
|---|---|
| Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu gwasanaethau ariannol, archwilio a sicrhau risg, gwasanaethau TGCh, rheoli adeiladau a fflyd, a'r rhaglen adnewyddu. |
| Gweithrediadau | Y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau sy'n bennaf gyfrifol am reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ardal ddaearyddol Cymru, gan gynnwys ei hamgylchedd morol, ar draws holl gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn rheoli rhaglenni cyfalaf, gweithrediadau masnachol a gwasanaethau cynllunio a morol ar gyfer Cymru gyfan. |
| Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Mae'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn darparu cydgysylltiad canolog blaengar i'r sefydliad, gan arwain ar y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth, tystiolaeth, offer, safonau, arweiniad a chyngor i alluogi timau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru, cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni eu cylch gwaith. Mae rhai rolau cyflawni uniongyrchol yn y gyfarwyddiaeth hefyd fel y gwasanaeth trwyddedu a'r gwasanaeth rhagweld llifogydd. |
| Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Canolfan cysylltiadau allanol, cyfathrebu a chyswllt â chwsmeriaid. Yn 2020/21 ysgwyddodd y gyfarwyddiaeth hon y cyfrifoldeb dros wasanaethau masnachol a chymorth caffael a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth cyllid a gwasanaethau corfforaethol. |
| Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Mae'r Gyfarwyddiaeth Datblygu a Strategaeth Gorfforaethol yn arwain nifer o swyddogaethau trawsbynciol Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys cynllunio strategol a pherfformiad; gwelliant parhaus a rheoli rhaglenni; datblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff; a llywodraethu corfforaethol. Mae hefyd yn cefnogi bwrdd a phrif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Rheolir yn Ganolog | Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrennir i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr torri coed, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau |

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn Ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 7,730 | 94,851 | 56,300 | 17,433 | 8,081 | 40,548 | 224,943 |
| Incwm gweithredu | (37,150) | (35,706) | (1,462) | (4,004) | (84) | 0 | (78,406) |
| **Cyfanswm** | (29,420) | 59,145 | 54,838 | 13,429 | 7,997 | 40,548 | 146,537 |
| **Gwariant cyfalaf** | 11,147 | 4,160 | 864 | 0 | 0 | 0 | 16,171 |

## 3. Costau staff

Mae manylion pellach am gostau a niferoedd staff bellach yn cael eu datgelu ar dudalen 74 yn yr adroddiad taliadau a staff.

| | 2021/22 | | | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol £'000** | **Staff arall £'000** | **Cyfanswm £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| Taliadau a chyflogau | 78,250 | 14,873 | 93,123 | 87,338 |
| Nawdd cymdeithasol a chostau trethu eraill | 8,346 | 625 | 8,971 | 8,089 |
| Costau pensiwn eraill | 19,804 | 611 | 20,415 | 13,900 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | **106,400** | **16,109** | **122,509** | **109,327** |
| Gwariant arall ar gyfer staff | | | 9,463 | 8,301 |
| Llai symiau a godir ar brosiectau cyfalaf | | | (12,757) | (11,130) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **119,215** | **106,498** |

## 4. Gwaith cyfalaf a osodwyd mewn treuliau yn y flwyddyn

| | 2021/22 | 2020/21 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Gwirioneddol | Wedi'i ymrwymo | Wedi'i ymrwymo |
| **Categorïau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwaith gweithredol | 23,113 | 16,609 | 10,211 | 6,722 |
| Grantiau cyfalaf | 2,522 | 3,048 | 1,719 | 111 |
| **Cyfanswm** | **25,635** | **19,657** | **11,930** | **6,833** |

Mae gwaith cyfalaf a osodwyd mewn treuliau yn y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy’n gyfalaf o ran natur ond lle nad Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gyfrifol am y risgiau a’r buddion sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased sy’n cael ei adeiladu. Yn unol ag IAS 16, nodir bod gwariant yn wariant cyfalaf pan fydd yn gysylltiedig ag asedau y bwriedir eu defnyddio yn barhaus i gyflawni neu wireddu swyddogaethau CNC neu at ddiben gweinyddol. Nid ydynt wedi'u bwriadu i'w gwerthu yn ystod proses arferol y busnes. At ddibenion gwaith cyfalaf a osodwyd mewn treuliau yn y flwyddyn, gellir diffinio natur gyfalaf trwy gytundeb grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru hefyd.

Dyma'r meini prawf i nodi bod gwariant yn waith cyfalaf a osodwyd mewn treuliau yn y flwyddyn:

- Lle mae cyllid cyfalaf dynodedig Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i gynllun, na fyddai'n arwain fel arfer at gaffael ased diriaethol neu anniriaethol sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag IAS 16
- Lle nad yw'r risg a'r buddion sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yn hytrach i drydydd parti, neu
- Lle na fyddai modd nodi'r ased sy'n cael ei greu, waeth beth yw'r ffynhonnell ariannu, mewn unrhyw ymarferiad dilysu asedau yn y dyfodol.

**Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:**

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol wedi'u hadeiladu ar dir nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniataol i gynnal amddiffyniad, megis:

- Adfer ac adnewyddu
  Gwaith i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei gadw yn y cyflwr priodol a'i adfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Argloddiau
  Creu neu wella argloddiau neu eu gwneud yn uwch ar hyd cyrsiau dŵr i leihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Mapio Llifogydd
  Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n cyflwyno gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr yng Nghymru, ac sy’n cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa ar yr amddiffynfeydd llifogydd hynny.
- Gosod seilbyst
  Gosod seilbyst ar hyd glannau'r afon i'w cryfhau a diogelu'r tir cyfagos ac atal tirlithriadau i'r afon ac achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn o dan y ddaear i raddau helaeth.
- Gwelliannau i geuffosydd a sianelau
  Atgyweirio neu ailosod ceuffosydd o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwella sianeli sy'n cynorthwyo llif cyrsiau dŵr.
- Strategaethau rheoli perygl llifogydd
  Datblygu strategaethau i gynnig opsiynau hirdymor o ran rheoli’r perygl o lifogydd i gynnwys ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau risg llifogydd unigol yn cael eu datblygu.
- Cynlluniau rheoli llifogydd
  Mae Cynlluniau Rheoli Lefel y Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch yn cael eu paratoi gyda'r nod o lunio polisïau rheoli’r perygl o lifogydd sy'n rheoli’r perygl o lifogydd mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor ar draws dalgylch.
- Gwaith arall
  Gwneud gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod. Creu dyluniad manwl o systemau trin dŵr i atal llygredd dŵr o fwyngloddiau. Llunio astudiaethau dichonoldeb, adeiladu a datblygu ceuffyrdd o amgylch y mwyngloddiau i ddargyfeirio'r dŵr i ffwrdd o'r mwyngloddiau.

Gwaith sy'n gwella statws cadwraeth tir nad yw o dan reolaeth uniongyrchol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwella safleoedd coetir hynafol a blannwyd â blaenoriaeth 1 a llwybrau newydd a adeiladwyd at ddefnydd y cyhoedd.

Gwneud gwelliannau i gronfeydd dŵr lle mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn gosod y cyfrifoldeb hwnnw ar berchennog y gronfa ddŵr. Yn benodol, cymerir y mesurau hyn er budd diogelwch.

**Grantiau cyfalaf**

Grantiau yw'r rhain, yn bennaf i awdurdodau lleol, sy'n ariannu gwaith o natur gyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru a grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

## 5. Gwariant arall

| | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Eitemau arian parod** | | |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 18,944 | 19,680 |
| Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 10,510 | 9,591 |
| Costau TGCh | 7,879 | 6,398 |
| Cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd coedwig | 5,319 | 4,718 |
| Deunyddiau ac offer | 4,423 | 4,396 |
| Costau cynnal swyddfeydd | 3,950 | 3,781 |
| Costau fflyd | 3,916 | 3,579 |
| Cytundebau cydweithredol | 1,405 | 2,654 |
| Grantiau | 1,087 | 2,631 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth | 2,450 | 2,289 |
| Costau cysylltiedig â staff | 2,242 | 2,199 |
| Rhent | 1,853 | 1,969 |
| Ffioedd a chostau llys | 1,165 | 1,681 |
| Ardrethi | 721 | 823 |
| Costau gweithredol | 564 | 562 |
| Teithio a chynhaliaeth | 440 | 227 |
| Ffioedd archwilio statudol | 193 | 188 |
| Grantiau Ewropeaidd | 88 | 167 |
| Colledion a thaliadau arbennig [1.] | 1,154 | 121 |
| **Is-gyfanswm** | **68,303** | **67,654** |
| | | |
| **Gwariant nad yw'n arian parod** | | |
| Gwerth y pren a werthwyd | 29,856 | 22,824 |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 9,700 | 8,855 |
| Dadgydnabod asedau [2.] | 1,928 | 451 |
| Colledion [1.] | 1,555 | 18 |
| Symudiad ar y golled credyd disgwyliedig | (778) | 199 |
| (Enillion)/Colledion wrth waredu | (219) | (250) |
| Symudiad ar ddarpariaethau eraill | 102 | (327) |
| Symudiad ar gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | (319) | (636) |
| **Is-gyfanswm** | **41,825** | **31,134** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **110,128** | **98,788** |

1. Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu, y colledion a'r taliadau arbennig yn cael eu dangos yn Adroddiad Seneddol ac Archwilio ar dudalen 80.
2. Cafodd asedau strwythur cyhoeddus gwerth £1,718k nad ydynt yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru nac yn cael eu cynnal ganddo a chostau datblygu TGCh anniriaethol gwerth £210,000 eu dadgydnabod yn ystod 2021/22 (costau datblygu TGCh gwerth £451k yn 20/21).

## 6. Dadansoddi incwm

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 19,132 | 18,795 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,563 | 6,917 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,158 | 3,346 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,029 | 2,405 |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,830 | 1,506 |
| Trwyddedau pysgota | 1,166 | 1,166 |
| Rheoleiddio niwclear | 1,375 | 474 |
| Gwastraff peryglus | 979 | 929 |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 684 | 671 |
| Trwyddedu morol | 300 | 299 |
| Masnachu allyriadau | 95 | 213 |
| **Incwm taliadau** | **37,311** | **36,721** |
| Incwm o bren | 36,944 | 30,561 |
| Incwm o ynni adnewyddadwy [1.] | 5,166 | 3,976 |
| Incwm o ardaloedd draenio mewnol | 1,611 | 1,630 |
| Incwm o ystadau | 2,966 | 1,448 |
| Costau cyfreithiol a adenillwyd ac incwm Deddf Elw Troseddau | 283 | 871 |
| Darparu gwybodaeth a gwasanaethau | 882 | 719 |
| Incwm amrywiol | 188 | 236 |
| Llog derbyniadwy | 32 | 26 |
| **Incwm masnachol ac arall** | **48,072** | **39,467** |
| Incwm Ewropeaidd [2.] | 1,773 | 1,657 |
| Grantiau a chyfraniadau | 425 | 561 |
| **Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall** | **2,198** | **2,218** |
| **Cyfanswm incwm** | **87,581** | **78,406** |

1. Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag incwm ynni gwynt. Mae'r balans o £5,166 (yn 2020/21, £3,976k) yn cynrychioli incwm gwerth £12,900k (yn 2020/21, £14,749k) ar ôl didynnu'r taliad ffioedd i Lywodraeth Cymru o £7,734k (yn 2020/21, £10,773k).

2. Yn cynnwys incwm a hawlir trwy Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

### 6.1 Dadansoddi ffioedd a thaliadau

| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | Incwm wedi'i filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 19,827 | 19,132 | **695** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,506 | 6,563 | **(57)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,498 | 3,158 | **340** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,106 | 2,029 | **77** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,599 | 1,830 | **(231)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,166 | 1,166 | **0** |
| Rheoleiddio niwclear | 1,339 | 1,375 | **(36)** |
| Gwastraff peryglus | 1,003 | 979 | **24** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 684 | 684 | **0** |
| Trwyddedu morol | 300 | 300 | **0** |
| Masnachu allyriadau | 94 | 95 | **(1)** |
| **Cyfanswm** | **38,122** | **37,311** | **811** |

| Ffigurau cymharol - ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 | Incwm wedi'i filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu | 18,979 | 18,795 | **184** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,421 | 6,917 | **(496)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,526 | 3,346 | **180** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,480 | 2,405 | **75** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,316 | 1,506 | **(190)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,166 | 1,166 | **0** |
| Rheoleiddio niwclear | 476 | 474 | **2** |
| Gwastraff peryglus | 989 | 929 | **60** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano | 671 | 671 | **0** |
| Trwyddedu morol | 312 | 299 | **13** |
| Masnachu allyriadau | 213 | 213 | **0** |
| **Cyfanswm** | **36,549** | **36,721** | **(172)** |

Cydnabyddir refeniw ar sail yr ystyriaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod refeniw yn unol â'r pum cam a nodir yn IFRS 15 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid. Cydnabyddir refeniw pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Gellir rhannu incwm taliadau i ddau brif gategori: cais am drwydded neu hawlen y cydnabyddir refeniw ar ei chyfer ar adeg y cais, a'r tâl cynhaliaeth sy'n gysylltiedig â thrwyddedau a hawlenni, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad am gyfnod o amser o dan reoliad Cyfoeth Naturiol Cymru. Cydnabyddir incwm cynhaliaeth o'r fath wrth gael ei filio ar yr adeg y mae cyfnod y drwydded newydd yn cychwyn.

Ar gyfer trafodion masnachol, mae'r cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd, a chydnabyddir y refeniw ar adeg benodol.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae ffioedd a thaliadau yn cael eu pennu ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau'r cynllun. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n ymwneud â'n cynlluniau taliadau yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Dim ond pan fyddant wedi codi ar ddamwain o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig a chronedig wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, nad yw, oherwydd gwahaniaethau amseru, yn cael ei ystyried yn briodol o fewn un flwyddyn ariannol.

Mae gennym drefniant trosiannol lle bydd balansau perthnasol heb gynllun yn cael eu lleihau erbyn 31 Mawrth 2023. Mae'r driniaeth hon yn mynd y tu hwnt i'r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

**Dyfarniad sylweddol**

Gwneir dyfarniad ynghylch bodloni rhwymedigaethau perfformiad ar ffioedd a thaliadau ac incwm masnachol yn unol ag IFRS15. O fewn symiau derbyniadwy (Nodyn 10) a symiau taladwy (Nodyn 12), mae balansau incwm cronedig a gohiriedig ar gyfer ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Fel y soniwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau codi tâl adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, ac mae angen dyfarniad wrth asesu'r ffactorau y tu ôl a fydd y gwarged neu'r diffyg yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn (a adroddir yn nodiadau 10 a 12).

Mae gwariant a ariennir gan gymorth grant wedi'i eithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19, ond mae'n cynnwys cyfraniadau cyflogwyr yn ystod y flwyddyn i'r cynlluniau pensiwn, sy'n cael eu trosglwyddo i dalwyr taliadau. Yr amcan ariannol ar gyfer y cynlluniau codi tâl yw adennill costau yn llawn gan gynnwys dibrisiant cost cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob adran yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu – codi tâl ar fusnesau sy'n tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddir hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano – incwm i adfer ymdrech adnoddau dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru ar lawr gwlad, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau pysgota – codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedau amgylcheddol: ansawdd dŵr – codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedau amgylcheddol: gosodiadau – caniatáu rheoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Rheoliadau trwyddedau amgylcheddol: rheoli gwastraff – trwyddedu ac eithriadau.
- Gwastraff peryglus – trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau ac Ymrwymiad Lleihau Carbon – rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear – rheoleiddio safleoedd niwclear a rhai nad ydynt yn niwclear a safleoedd niwclear sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symudiadau, prosiectau adeiladu ar wely'r môr neu oddi tano a phob math o lusgrwydo.
- Diogelu'r amgylchedd mewn ffordd arall – trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludo llwythi ar draws ffiniau, trwyddedu cyfrifoldeb cynhyrchwyr am offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig, cydsyniadau amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau anghyfredol

Mae dau gategori o asedau anghyfredol – asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth fo'i werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gellir grwpio eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000, a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, ei bod hi’n debygol y bydd manteision economaidd ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru ac y gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy. Mae costau dilynol wedi'u cynnwys yn swm cario'r ased neu'n cael eu cydnabod fel ased ar wahân, os yw'n briodol.

Mae asedau ar brydles i bartïon allanol o dan brydles weithredol yn cael eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol.

Gwneir dyfarniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a godir yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

**Mesur**

Adroddir ar yr holl asedau anghyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu naill ai ar werth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau a ddosberthir fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a diffyg gwerthoedd ar y farchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu cadw ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario. Cewch ragor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.3.

Mae peiriannau, offer technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol oll yn asedau tymor byr a defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac i’r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori asedau anghyfredol priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

<u>Mynegeio ac Ailbrisio</u>

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fethodolegau prisio a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau a adroddir yn Nodyn 7.1.

Sicrhawyd ansawdd y prisiadau a'r mynegeion a gymhwyswyd gan brif syrfëwr Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol o'r farchnad, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni'r prisiad yn gymwys.

Ymgymerwyd â'r holl brisiadau yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS.

Rhaglen Dreigl

| Colofn Adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarthiad Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2021/22 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystâd y Goedwig** | Ystad y Goedwig | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Tir Rhydd-ddaliad** | Tir Amaethyddol – Ased ag Adeiladau | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Tir amaethyddol – heb adeiladau | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Bruton Knowles, Mewnol, Llywelyn Humphreys |
| | Tir Ystad y Goedwig arall Llywodraeth Cymru | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| | Tir Rhydd-ddaliad | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| **Tir ar Les** | Tir ar Les | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| **Tir arall** | Ffermydd Gwynt | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Savills |
| | Cynlluniau Hydro | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Bwrdd gwaith | Mewnol |
| | Mynediad trydydd parti | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Bwrdd gwaith | Mewnol |
| | Mastiau telegyfathrebu | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Bwrdd gwaith | Mewnol |
| | Prydlesau mwynau | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Bwrdd gwaith | Mewnol |
| | Cytundebau eraill | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Bwrdd gwaith | Mewnol |
| | Forest Holidays | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Avison Young |
| **Adeiladau** | Anheddau | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners Bruton Knowles, Cooke & Arkwright |
| | Swyddfeydd a masnachol | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners, Bruton Knowles Mewnol |
| | Adeiladau eraill (heb fod yn arbenigol) | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Cooke & Arkright, Baileys & Partners, Bruton Knowles, Mewnol |
| | Prif swyddfeydd (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners, Bruton Knowles, Cooke & Arkwright, Mewnol |
| | Siediau ceirw (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Toiledau (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cuddfannau adar | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Canolfannau Ymwelwyr a Gwybodaeth (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners, Bruton Knowles, Cooke & Arkwright |
| | Arall (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners, Bruton Knowles, Cooke & Arkwright, Mewnol |
| | Amaethyddol (arbenigol) | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2016 | Prisiad llawn | Baileys & Partners, Bruton Knowles, Cooke & Arkwright, |

| Colofn Adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarthiad Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2021/22 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Strwythurau Gweithredol** | Dyfrdyllau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Gorsaf fesur | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Lociau a choredau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Strwythurau afonydd a'r môr | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Llifddorau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Arall | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Gorsafoedd pwmpio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| | Tramwyfeydd pysgod | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai SYG* | Mewnol |
| **Strwythurau Gweithredol (Strwythurau Cyhoeddus)** | Llwybrau pren | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Llwybrau beicio | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Arall | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Meysydd parcio | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Llwybrau cerdded | Gwerth ased cyfwerth modern | 31 Mawrth 2021 | Prisiad llawn | Mewnol |
| **Asedau Biolegol** | Asedau Biolegol | Gwerth y farchnad | 31 Mawrth 2021 | Prisiad dros dro | Savills |
| **Asedau Treftadaeth** | Asedau Treftadaeth | Cost hanesyddol | Ddim yn berthnasol | Delir ar gost | Ddim yn berthnasol |

* SYG - Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Ystad y Goedwig, tir, adeiladau a strwythurau cyhoeddus wedi cael eu prisio'n llawn yn broffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau gwerthuso a phrisio (Llyfr Coch) Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) .

Yn 2020/21, sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer prisiadau llawn. Cyn hyn, cwblhawyd y prisiadau pum mlynedd llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Mae'r prisiadau ar 31 Mawrth 2022 yn cael eu darparu gan gwmnïau perthnasol o syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol. Lle cynhaliwyd prisiad llawn, nodir hyn yn y tabl uchod. Rhwng y prisiadau llawn hyn, mae asedau yn wrthrych prisiad interim blynyddol.

Lle cynhaliwyd prisiadau mewnol, fe'u cyflawnwyd gan ein tîm mewnol o syrfewyr siartredig, o dan gyfarwyddyd y prif syrfëwr.

Lle nad oes prisiad wedi'i gynnal, cyflwynwyd y cyfraddau mynegeio priodol gan y prif syrfëwr.

Ar gyfer strwythurau gweithredol, byddai FReM yn disgwyl i ni ddefnyddio'r dull cost amnewid dibrisiedig. Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, mae hynny'n anymarferol ac nid yw'n gost-effeithiol, felly rydym wedi defnyddio cost hanesyddol wedi'i haddasu fel procsi ar gyfer cost amnewid dibrisiedig i roi gwerth teg i ni.

Mae addasiadau sy'n codi o fynegeio ac ailbrisiadau yn mynd i'r gronfa ailbrisio oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi'i ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisiad disgynnol, ac os felly, cydnabyddir y symudiad yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (ystad y goedwig a thir heblaw coedwig) a hawliau anniriaethol i dir yn cael eu dibrisio, oni bai bod y tir yn elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori peiriannau yn cael eu dibrisio ar sail cydbwysedd sy'n lleihau ar gyfradd o 21%. Mae pob ased arall yn cael ei ddibrisio/amorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig. Codir dibrisiant ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mis ei waredu, ond nid ym mis ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar yr oes economaidd ddefnyddiol sy'n ffurfio sylfaen i'r cyfnod y mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio. Mae amcangyfrif o oes asedau yn cael ei adolygu a'i addasu os yw'n briodol ar bob dyddiad adrodd. Y prif oesoedd defnyddiol a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant yw:

| **Categori'r ased** | **Prif oes ddefnyddiol** |
|---|---|
| **Asedau diriaethol** | |
| Adeiladau ac Anheddau | 10 - 60 mlynedd |
| Peiriannau | 4 - 25 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 - 10 mlynedd |
| Strwythurau Gweithredol | 5 - 100 mlynedd |
| **Asedau anniriaethol** | |
| Trwyddedau meddalwedd | 5 - 25 mlynedd |
| Trwyddedau eraill | 5 - 50 mlynedd |
| Datblygiadau meddalwedd | 3 - 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 - 10 mlynedd |

Mae'r ystod yn yr oesoedd defnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau yn y categorïau asedau. Byddai asedau gwella prydlesol yn eithriad, sydd â’r un oes â'r brydles gymharol. Mae trwyddedau eraill hefyd yn cynnwys asedau a ddelir am byth. Mae gan y mwyafrif o asedau yn y categorïau hyn oesoedd defnyddiol yn yr ystodau hyn.

**Gwarediadau**

Pan waredir ased, caiff ei swm cario ei ddileu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) hefyd yn cael eu credydu i'r enillion neu'r colledion wrth eu gwaredu. Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Cronfa Ailbrisio**

Mae'r gronfa ailbrisio yn dangos yr enillion a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth asedau anghyfredol. Mae'r balans yn cael ei leihau pan fo asedau ag enillion cronedig:

- Yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu wedi'u gwanhau a chollir yr enillion.
- Yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio trwy ddibrisiant.
- Yn cael eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Mae swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar swm cario ailbrisio'r asedau a dibrisiant yn seiliedig ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Amhariad**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu hadolygu o ran amhariad bob blwyddyn. Cydnabyddir amhariadau pan fydd swm adferadwy asedau anghyfredol yn disgyn yn is na'u gwerth llyfr net, o ganlyniad naill ai i gwymp mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad, colled mewn budd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau disgynnol sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn arwain at amhariad pan fydd yr ased yn cael ei ailbrisio yn is na'i swm cario cost hanesyddol yn unig. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol mai'r colledion amharu hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig y dylid eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisio. Cydnabyddir unrhyw swm yn ychwanegol at hyn yn amhariad trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Dylid cymryd colledion amhariad sy'n codi o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn llawn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

**Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu os bydd y swm cario yn cael ei adfer yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus, ac ystyrir bod gwerthiant o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd yn debygol iawn, bod y rheolwyr wedi ymrwymo i werthu a bod yr ased yn cael ei farchnata'n weithredol yn ei gyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i gyflwr presennol.
Daw dibrisiant i ben ar unwaith wrth ddosbarthu'r asedau fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Fe'u nodir ar y lefel isaf o'u swm cario a'u gwerth teg llai costau i'w gwerthu, ac fe'u cofnodir fel asedau cyfredol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau anghyfredol diriaethol

| | Ystad y goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **ar 1 Ebrill 2021** | 1,411,996 | 184,549 | 16,836 | 25,263 | 13,990 | 83,816 | 5,098 | **1,741,548** | 360,940 | 7,403 | **2,109,891** |
| Ychwanegiadau | 0 | 4,635 | 0 | 688 | 29 | 161 | 2,641 | **8,154** | 0 | 0 | **8,154** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 1,411 | 198 | 2,169 | (3,778) | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | 0 | (625) | (2,151) | (1,509) | (508) | (2,817) | 0 | **(7,610)** | 0 | 0 | **(7,610)** |
| Symud o / (i) a gedwir i werthu | 0 | 280 | (54) | 259 | 0 | 0 | 0 | **485** | 0 | 0 | **485** |
| Torri coed | (20,557) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(20,557)** | (7,797) | 0 | **(28,354)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 332,201 | 15,653 | (254) | 0 | 0 | 3,949 | 0 | **351,549** | 104,647 | 0 | **456,196** |
| Ailddosbarthiad | 0 | (19) | 193 | 119 | 0 | 314 | (626) | **(19)** | 0 | 0 | **(19)** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 1,723,640 | 204,473 | 14,570 | 26,231 | 13,709 | 87,592 | 3,335 | **2,073,550** | 457,790 | 7,403 | **2,538,743** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 0 | 0 | 3,157 | 16,085 | 13,182 | 21,034 | 0 | **53,458** | 0 | 0 | **53,458** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 604 | 1,685 | 131 | 3,483 | 0 | **5,903** | 0 | 0 | **5,903** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | 0 | 0 | (377) | (1,321) | (508) | (104) | 0 | **(2,310)** | 0 | 0 | **(2,310)** |
| Symud o / (i) a gedwir i werthu | 0 | 0 | (87) | 268 | 0 | 0 | 0 | **181** | 0 | 0 | **181** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | (3,192) | 7 | 0 | (853) | 0 | **(4,038)** | 0 | 0 | **(4,038)** |
| Ailddosbarthiad | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | (24) | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 0 | 0 | 105 | 16,748 | 12,805 | 23,536 | 0 | **53,194** | 0 | 0 | **53,194** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2021** | **1,411,996** | **184,549** | **13,679** | **9,178** | **808** | **62,782** | **5,098** | **1,688,090** | **360,940** | **7,403** | **2,056,433** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyllido Asedau** | | | | | | | | | | | |
| Yn eiddo | 1,675,323 | 200,380 | 14,465 | 9,483 | 904 | 64,056 | 3,335 | 1,967,946 | 457,790 | 7,403 | **2,433,139** |
| Ar brydles | 48,317 | 4,093 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **52,410** | 0 | 0 | **52,410** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau sydd â swm cario o £788k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2022 oedd £1,925,564k.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Ystad y goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | 788,517 | 188,383 | 18,946 | 21,589 | 13,511 | 90,709 | 3,215 | **1,124,870** | 135,744 | 7,099 | **1,267,713** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 115 | 1,440 | 404 | 843 | 4,238 | **7,040** | 0 | 304 | **7,344** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 393 | 0 | 1,863 | 79 | 140 | (2,475) | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (1) | (353) | (200) | (904) | (4) | 0 | 0 | **(1,462)** | 0 | 0 | **(1,462)** |
| Symud o / (i) a gedwir i werthu | 1 | 26 | 425 | (345) | 0 | 0 | 0 | **107** | 0 | 0 | **107** |
| Torri coed | (17,118) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(17,118)** | (6,493) | 0 | **(23,611)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 640,597 | (3,428) | (771) | 0 | 0 | (8,269) | 0 | **628,129** | 231,689 | 0 | **859,818** |
| Ailddosbarthiad | 0 | (472) | (1,679) | 1,620 | 0 | 393 | 120 | **(18)** | 0 | 0 | **(18)** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 1,411,996 | 184,549 | 16,836 | 25,263 | 13,990 | 83,816 | 5,098 | **1,741,548** | 360,940 | 7,403 | **2,109,891** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | 0 | 0 | 3,534 | 14,997 | 13,133 | 26,691 | 0 | **58,355** | 0 | 0 | **58,355** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 596 | 1,503 | 54 | 3,567 | 0 | **5,720** | 0 | 0 | **5,720** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | 0 | 0 | (126) | (833) | (5) | 0 | 0 | **(964)** | 0 | 0 | **(964)** |
| Symud o / (i) a gedwir i werthu | 0 | 0 | 0 | (323) | 0 | 0 | 0 | **(323)** | 0 | 0 | **(323)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | (100) | (6) | 0 | (9,224) | 0 | **(9,330)** | 0 | 0 | **(9,330)** |
| Ailddosbarthiad | 0 | 0 | (747) | 747 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 0 | 0 | 3,157 | 16,085 | 13,182 | 21,034 | 0 | **53,458** | 0 | 0 | **53,458** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2020** | **788,517** | **188,383** | **15,412** | **6,592** | **378** | **64,018** | **3,215** | **1,066,515** | **135,744** | **7,099** | **1,209,358** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **1,411,996** | **184,549** | **13,679** | **9,178** | **808** | **62,782** | **5,098** | **1,688,090** | **360,940** | **7,403** | **2,056,433** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyllido Asedau** | | | | | | | | | | | |
| Yn eiddo | 1,366,059 | 180,818 | 13,679 | 9,178 | 808 | 62,782 | 5,098 | **1,638,422** | 360,940 | 7,403 | **2,006,765** |
| Ar brydles | 45,937 | 3,731 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **49,668** | 0 | 0 | **49,668** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **1,411,996** | **184,549** | **13,679** | **9,178** | **808** | **62,782** | **5,098** | **1,688,090** | **360,940** | **7,403** | **2,056,433** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau sydd â swm cario o £325k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2021 oedd £1,595,339k.

### 7.1.1 Ystad y goedwig gan gynnwys asedau biolegol

Mae perchnogaeth gyfreithiol o ystad coetir Llywodraeth Cymru wedi'i breinio gyda Gweinidogion Cymru. Fe'i cynhwysir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y risgiau a'r gwobrau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ystad, a nhw sy'n ymgymryd â phob gweithgaredd rheoli'r ystad. Mae'r ystad yn cynnwys tir a phren sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol ar bren, gan gynnwys coed heb eu torri, wedi'i freinio yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu cadw a'u rheoli'n bennaf i gyflawni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd Cymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gellir rhannu eu diben rhwng economaidd (cyfraniad at economi ffyniannus a chynaliadwy Cymru) ac eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan safon cyfrifeg ryngwladol IFRS 41 (Amaethyddiaeth), rhaid dosbarthu pren a dyfir at bwrpas economaidd fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir sylfaenol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, peiriannau ac offer a chyfeirir ato fel ystad y goedwig.

Mae addasiadau sy'n codi o ailbrisio ystad y goedwig yn cael eu cludo i'r gronfa ailbrisio a'u rhyddhau i'r gronfa gyffredinol pan wireddir enillion wrth dorri coed. Cydnabyddir addasiadau sy'n codi o ailbrisio asedau biolegol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn ailbrisio.

**Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a dyfarniadau**

Mae elfennau o'r prisiad ac felly cyfrifo'r asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Nid yw'n cael ei ystyried yn gost-effeithiol i gynnal prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd o bob ardal o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr cymwys, bernir y gellir cael prisiad rhesymol trwy gynnal prisiadau o sampl ar hap o safleoedd sy'n cynrychioli rhwng 8% a 10% o'r ystad ac yna allosod y rhain ar gyfer yr ystad gyfan, gan ddefnyddio ffactorau lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd fod y dystiolaeth seiliedig ar y farchnad fwyaf priodol o werth yn deillio o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd dros 50 hectar mewn arwynebedd. Cydnabyddir y gall fod ystod eang o werthoedd o hyd a gall y rhain fod yn ddyfarniadau ychydig yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu rhywfaint ar farn broffesiynol. Yn dilyn hynny, mae'r priswyr allanol yn dosrannu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir bod gwerth tir ar les 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Rhannwyd coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio dyfarniadau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a gedwir yn bennaf at ddibenion economaidd, a defnyddiwyd y ganran hon i bennu gwerth coed a ddosbarthwyd fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn yr ystad goedwig sydd gennym o ddeg y cant neu fwy, byddai adolygiad dros dro o'r asesiad yn cael ei gynnal. Ni fu unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 27.5% ar gyfer asedau biolegol a 72.5% ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau yn ôl y costau amcangyfrifedig i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn 5% o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu'r goedwig.

### 7.1.2 Ffermydd gwynt

Mae rhywfaint o dir ar yr ystad goedwig yn cael ei brydlesu i bartïon allanol fel safleoedd ffermydd gwynt. Rhennir datblygiad fferm wynt yn dri cham. Mae pob cam yn gofyn am fath gwahanol o gytundeb prydles.

- Cam cyntaf yw'r Cytundeb Prydles Opsiwn. Mae hwn yn rhoi hawl i ddatblygwr y fferm wynt ddefnyddio’r opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Yr ail gam yw'r Cytundeb Prydles Ddatblygu. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Prydles Weithredu. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn dwy elfen o incwm: rhent sylfaenol gwarantedig a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Mae prydlesi ar gyfer ffermydd gwynt sydd yn y cam datblygu neu weithredu yn cael eu cyfalafu fel ased tir o fewn Tir Arall yn nodyn 7.1. Mae pedair (2020/21: pedair) fferm wynt wedi'u cynnwys mewn eiddo, peiriannau ac offer. Ar y pwynt cyfalafu, tynnir gwerth y tir oddi ar y prisiad o'r ystad goedwig a ddatgelir o fewn Tir Arall ac a gynhwysir gyda'r prisiad fferm wynt. Gwneir prisiad Llyfr Coch RICS ar y pwynt cydnabod. Ar 31 Mawrth 2022, darparodd Savills brisiad proffesiynol llawn ar gyfer pob un o'r pedair fferm wynt.

Dangosir isod werthoedd unigol y ffermydd gwynt ar 31 Mawrth 2022.

| | **£000** |
|---:|---:|
| Cefn Croes | 6,960 |
| Pen y Cymoedd | 88,645 |
| Gorllewin Brechfa | 17,235 |
| Clocaenog | 34,805 |
| **Cyfanswm** | **147,645** |

Mae dwy fferm wynt arall ar hyn o bryd yng ngham y Cytundeb Prydles Opsiwn. Dau gam yn unig fydd i'r ffermydd gwynt hyn gan y bydd y cam datblygu a'r cam gweithredu yn cael eu huno. Bydd y rhain yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn symud i'r cam nesaf.

### 7.1.3 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cadw a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Y bwriad yw eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein gwarchodfeydd natur cenedlaethol yn bodloni’r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir anweithredol mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (eiddo, peiriannau ac offer), mae'r asedau hyn wedi'u cyfalafu ar gost.

Ar 31 Mawrth 2022, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 56 o warchodfeydd natur cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (MNR). Ni phrynwyd unrhyw asedau treftadaeth (2020/21: £304k) yn ystod y flwyddyn.

Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr pan gânt eu gwario.

**Symudiadau asedau treftadaeth dros bedair mlynedd**

| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 6,432 | 7,000 | 7,099 | 7,403 |
| Ychwanegiadau | 295 | 0 | 304 | 0 |
| Ailddosbarthiadau | 273 | 99 | 0 | 0 |
| **Balans cau** | **7,000** | **7,099** | **7,403** | **7,403** |

Mae rhagor o wybodaeth am asedau a pholisïau treftadaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadw, rheoli, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

## 7.2 Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 9,581 | 2,337 | 24,610 | 477 | 9,992 | **46,997** |
| Ychwanegiadau | 298 | 0 | 1,239 | 0 | 6,168 | **7,705** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 5,746 | 9 | (5,755) | **0** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (504) | 0 | (2,277) | 0 | (1,613) | **(4,394)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiad | (3,653) | 19 | 3,653 | 0 | 0 | **19** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 5,722 | 2,356 | 32,971 | 486 | 8,792 | **50,327** |
| **Amorteiddiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | 7,021 | 48 | 12,186 | 434 | 0 | **19,689** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 453 | 12 | 3,280 | 52 | 0 | **3,797** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (490) | 0 | (2,271) | 0 | 0 | **(2,761)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiad | (3,020) | 0 | 3,020 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 3,964 | 60 | 16,215 | 486 | 0 | **20,725** |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2021** | **2,560** | **2,289** | **12,424** | **43** | **9,992** | **27,308** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **0** | **8,792** | **29,602** |
| **Cyllido asedau** | | | | | | |
| Yn eiddo | 1,758 | 2,296 | 16,756 | 0 | 8,792 | 29,602 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **0** | **8,792** | **29,602** |

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2022 oedd £625k.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | 9,341 | 2,338 | 17,587 | 477 | 8,866 | **38,609** |
| Ychwanegiadau | 246 | 0 | 496 | 0 | 8,085 | **8,827** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 6,978 | 0 | (6,978) | **0** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (6) | 0 | (451) | 0 | 0 | **(457)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiad | 0 | (1) | 0 | 0 | 19 | **18** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 9,581 | 2,337 | 24,610 | 477 | 9,992 | **46,997** |
| **Amorteiddiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | 6,349 | 38 | 9,782 | 391 | 0 | **16,560** |
| Taliadau yn ystod y flwyddyn | 678 | 10 | 2,404 | 43 | 0 | **3,135** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (6) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(6)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 7,021 | 48 | 12,186 | 434 | 0 | **19,689** |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2020** | **2,992** | **2,300** | **7,805** | **86** | **8,866** | **22,049** |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 31 Mawrth 2021** | **2,560** | **2,289** | **12,424** | **43** | **9,992** | **27,308** |
| **Cyllido asedau** | | | | | | |
| Yn eiddo | 2,560 | 2,289 | 12,424 | 43 | 9,992 | **27,308** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **2,560** | **2,289** | **12,424** | **43** | **9,992** | **27,308** |

Y swm a gedwir yn y gronfa ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2021 oedd £632k.

## 8. Atebolrwydd ac offerynnau ariannol

### 8.1 Atebolrwydd ariannol

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,844k a adroddwyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cynrychioli rhwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Ym 1989, er mwyn preifateiddio, trafododd Llywodraeth Ei Mawrhydi gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeio'n flynyddol ar y mynegai prisiau manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth am byth wedi'i gyfrifo ar sail cost amorteiddiedig, ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio os bydd cytundeb yn dod i ben, sy'n annhebygol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gan gynnwys y mynegeio blynyddol trwy ei daliadau tynnu dŵr.

Talwyd £6,282k i Dŵr Cymru yn ystod 2021/22 (2020/21: £5,926k) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeio. Mae'r rhain wedi'u cynnwys gyda thaliadau eraill o dan gytundebau gweithredu'r gronfa ddŵr yn Nodyn 5.

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar yn ymwneud â safonau uwch ar gyfer gorlifdiroedd, pibellau ac argaeau ynghyd ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol wedi arwain at Dŵr Cymru yn gweithredu rhaglen gyfalaf dros wyth mlynedd ar draws dalgylchoedd Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Gwy a Tywi. Mae'r rhaglen hon o waith newydd wedi cynyddu costau yn sylweddol i lefelau digynsail sydd wedi arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno ar amserlen taliadau cynyddrannol gyda Dŵr Cymru dros 13 mlynedd am gyfanswm cost amcanol o £39.4m.

Trwy 'lyfnhau' y costau hyn a thaliadau uwch hylaw ar gyfer y tynnwr, mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ragweld Cyfrif Tâl Uned safonol cynaliadwy dros gyfnod y llinell amser hon. Adroddir ar y gost mewn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr yn nodyn 5, ac mae'r gwarged yn ystod y flwyddyn wedi'i ddidynnu yn erbyn y symiau taladwy hirdymor yn nodyn 12. Adroddir am y gostyngiad cyfatebol yn yr incwm y gellir ei briodoli o fewn costau tynnu yn nodyn 6.1 a symiau derbyniadwy hirdymor yn nodyn 10.

### 8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf trwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risgiau nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig Cyfoeth Naturiol Cymru, ac felly nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i risgiau mawr o ran credyd, hylifedd a'r farchnad.

O dan IFRS 9 defnyddir model Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) i amcangyfrif a rhoi cyfrif am golledion credyd disgwyliedig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd a ddiwedderir ar gyfer problemau credyd hysbys yn y dyfodol.

## 9. Asedau Ariannol

| Anghyfredol | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Coedwig Llyn Efyrnwy | 16,807 | 13,528 |
| Forest Holidays | 0 | 600 |
| | | |
| **Ased cyfredol a gedwir i'w werthu** | | |
| Forest Holidays | 1,475 | 0 |
| | 18,282 | 14,128 |

**Coedwig Llyn Efyrnwy**
Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am reoli'r goedwig yn Llyn Efyrnwy, casglu'r incwm a thalu'r costau cymharol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl ymgynghorol o dan y cytundeb cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy.

**Forest Holidays**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o gyfranddalwyr lleiafrifol Forest Holidays trwy Forest Holidays LLP; sefydliad partneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Forestry England a Forestry Land Scotland. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Forest Holidays drefniadau ailgyllido lle nad oedd cyfle i gyfranddalwyr presennol ailfuddsoddi ac roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar Forest Holidays LLP i gefnogi'r prif gyfranddaliwr yn y canlyniad. Yn ystod 2021/22 cytunwyd y byddai Forest Holidays LLP yn gwaredu Forest Holidays. Cynhelir y gwerthiant yn gynnar yn 2022/23 a bydd Forest Holidays LLP yn cael ei ddiddymu. Yn y dyfodol, bydd y berthynas rhwng y tri sefydliad sector cyhoeddus a Forest Holidays yn un landlord a thenant, a bydd y taliadau presennol ar y lesau yn cael eu trosglwyddo i'r perchennog newydd.

## 10. Symiau masnach ac eraill yn dderbyniadwy

| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy masnach | 5,538 | 5,481 |
| Colled credyd disgwyliedig | (93) | (871) |
| Asedau contract - Masnachol ac eraill | 4,502 | 5,926 |
| Incwm cronedig - Ffioedd a thaliadau | 1,976 | 1,874 |
| Incwm cronedig - Arall | 6,881 | 1,033 |
| Incwm cronedig - Incwm Ewropeaidd | 1,746 | 942 |
| TAW derbyniadwy | 2,982 | 2,894 |
| Cyn-daliadau | 2,273 | 2,151 |
| Ernes | 713 | 0 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 18 | 26 |
| **Cyfanswm** | **26,536** | **19,456** |
| | | |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 3,451 | 3,342 |
| | | |
| **Cyfanswm masnach a symiau derbyniadwy eraill** | **29,987** | **22,798** |

## 11.Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Balans agoriadol | 7,855 | 25,101 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod | 1,138 | (17,246) |
| **Cyfanswm** | **8,993** | **7,855** |
| | | |
| Cadwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth | | |
| Gwasanaeth bancio’r Llywodraeth | 4,201 | 5,465 |
| Cyfrifon banc eraill | 4,790 | 2,388 |
| Arian parod mewn llaw | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **8,993** | **7,855** |

Mae arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler Nodyn 1.10) a balansau cyfredol a gedwir yng nghyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a Barclays. Gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod, ac nid oes risg mawr iddynt o ran newidiadau mewn gwerth. Nid oes darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond pan fydd gweithredwr y safle tirlenwi yn torri amodau'r drwydded y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi ystyriaeth ddyledus i dynnu'r ddarpariaeth sydd ar waith.

## 12. Symiau masnach ac eraill yn daladwy

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Croniad symiau taladwy masnach | 18,986 | 15,576 |
| Incwm Gohiriedig - Ffioedd a Thaliadau | 4,546 | 4,265 |
| Incwm Gohiriedig - Cyllid UE a chyllid arall | 7,148 | 3,492 |
| Rhwymedigaethau Contract - Ffioedd a Thaliadau | 144 | 198 |
| Rhwymedigaethau Contract - Masnachol | 426 | 437 |
| Tâl gwyliau | 3,467 | 3,607 |
| Symiau taladwy masnach | 1,943 | 3,117 |
| Bondiau a blaendaliadau | 1,301 | 1,301 |
| Prydlesi ariannol (cyfredol) | 20 | 20 |
| Symiau taladwy eraill | 215 | 4 |
| Trethi a diogelwch cymdeithasol | 10 | 9 |
| **Cyfanswm** | **38,206** | **32,026** |
| | | |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy hirdymor | 2,874 | 3,193 |
| Prydlesi ariannol (anghyfredol) | 452 | 456 |
| Incwm gohiriedig hirdymor | 217 | 216 |
| Bondiau a blaendaliadau hirdymor | 190 | 190 |
| **Cyfanswm** | **3,733** | **4,055** |
| | | |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **41,939** | **36,081** |

## 13. Darpariaethau

| | Grantiau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | 0 | 73 | 73 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 91 | 175 | 266 |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | 0 | (73) | (73) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **91** | **175** | **266** |
| **Amseru amcangyfrifedig llif arian gostyngedig** | | | |
| Dyledus o fewn blwyddyn | 91 | 175 | 266 |
| Dyledus rhwng un a phum mlynedd | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **91** | **175** | **266** |

Yn unol â gofyniad Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37 (Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol), lle mae hynny'n faterol berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol yn ddibynadwy.

Mae darpariaethau ar gyfer taliadau grant wedi'u cynnwys os oedd y gwaith a gafodd ei wneud gan y partneriaid grant wedi'i gwblhau ar neu cyn 31 Mawrth 2022, ond nad yw'r hawliad yn cael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru tan fis Mehefin 2022. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar y llythyr cynnig grant.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys taliadau iawndal i weithwyr cyflogedig y mae eu contractau cyflogaeth wedi'u diwygio mewn perthynas â dyletswyddau rota digwyddiadau ac ad-daliad sy'n ddyledus i gwsmer mewn perthynas â gwastraff peryglus. Cafodd y ddarpariaeth a ddygwyd ymlaen o £73k mewn perthynas â hawliad anaf personol ei rhyddhau yn ystod y flwyddyn.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y symudiad yn y golled credyd disgwyliedig yn cael ei dangos yn nodyn 5, a chyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwyliedig yn nodyn 10 ac wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Masnach a symiau derbyniadwy eraill.

## 14. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### 14.1 Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae CSPS yn agored i bob gweithiwr newydd.

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol plws) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu gyda chost y buddion a delir gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasur, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 oed a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gall aelodau cymwys sydd wedi cwblhau gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 gael hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol wedi'u diffinio neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae clasurol plws yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r clasurol a'r buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel yn y cynllun premiwm. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod o fod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae'r pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol, sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes o oed pensiwn neu dros oed pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a chlasurol plws, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn cynlluniau PCSPS neu alpha, fel sy'n briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddion yn y cynlluniau PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun ond gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan.
www.civilservicepensionscheme.org.uk

## 14.2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â chynllun trosglwyddo corff Cyfoeth Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i fod yn aelodau o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff derbyn.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio statudol, a lywodraethir yn bennaf gan reoliadau LGPS 2013 a rheoliadau LGPS (darpariaethau trosiannol, cynilion a diwygio) 2014. Gall y rhain newid dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk

Cyfanswm tâl pensiwn LGPS ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £16,353k (£9,191k yn 2020/21). Aseswyd y tâl pensiwn sy'n ymwneud â'r cynllun yn unol â chyngor actiwari cymwys annibynnol gan ddefnyddio'r dull prisio uned amcanol i gyfrifo'r costau gwasanaeth. Trefniadau cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru yw talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn naill ai bob mis neu fel taliadau cyfandaliad.

Roedd y prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraf o'r EAPF ar 31 Mawrth 2019. Roedd yr asedau a gymerwyd am werth y farchnad (£3.6 biliwn) yn ddigonol i gynnwys 106% o werth rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth yn y gorffennol a oedd wedi cronni i aelodau. Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr am y cyfnod tair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2023.

Amcangyfrifodd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF fod ganddo ddigon o asedau i fodloni 110% o'i rwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2022 ar sail ariannu barhaus. Mae cyfran Cyfoeth Naturiol Cymru o rwymedigaethau'r EAPF fel yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol hyn yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau actiwaraidd, sy'n ofynnol gan IAS19.

Mae dau brif wahaniaeth yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn ar sail gyfrifyddu (IAS 19) a'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido, fel yr adroddwyd gan EAPF. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt a'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF at ddibenion cyllido yn seiliedig ar ddisgwyliad darbodus o'r enillion a gynhyrchir o'r portffolio o asedau sy'n eiddo i'r EAPF. Ar 31 Mawrth 2019, y gyfradd ddisgownt hon oedd 3.1% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn natganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru (2.7% y flwyddyn) fel sy'n ofynnol gan IAS 19, yn seiliedig ar gynnyrch bondiau corfforaethol o ansawdd uchel heb unrhyw ragdybiaeth perfformiad ased ychwanegol. Mae tarddiad rhagdybiaeth cynnydd pensiwn at ddibenion cyfrifyddu wedi newid ers prisiad diweddaraf yr EAPF o ganlyniad i gyhoeddiadau diwygio RPI. Mae'r rhagdybiaeth o gynnydd pensiwn a adroddwyd gan yr EAPF, ar sail cyllido, yn caniatáu bwlch rhwng RPI a CPI o 1.0% y flwyddyn a phremiwm risg chwyddiant o 0.5% y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaeth a adroddir yn y datganiadau ariannol hyn yn caniatáu bwlch cyn-2030 rhwng RPI a CPI o 1% a bwlch ar ôl 2030 o 0.1%. Y rhagdybiaethau cynnydd pensiwn o ganlyniad yw 2.0% y flwyddyn ar sail cyllido a 3.2% y flwyddyn yn unol ag IAS19. Felly, mae'r gyfradd ddisgownt termau real yn y datganiadau ariannol hyn 2.1% yn is na'r gyfradd a ddefnyddir yn yr EAPF at ddibenion cyllido. Mae'r gyfradd is hon yn arwain at roi gwerth sylweddol uwch ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu.

Gwneir nifer o ragdybiaethau fel rhan o'r broses brisio actiwaraidd. Nid yw'r rhagdybiaethau actiwaraidd darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn ar symudiadau cyflog posibl yn y dyfodol. Tybiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2019 y bydd taliadau pensiynau nawr ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 2.5% y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniad sy'n daladwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 oddeutu £0 gan ei fod wedi talu ei holl gyfraniadau cyflogwr arferol.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr EAPF. Gwnaed yr holl gyfrifiadau gan actiwari annibynnol cymwys. Dim ond ar gyfer cyfrifyddu y defnyddir y rhagdybiaethau sy'n sail i gyfrifo rhwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2022, fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Nid yw'n ofynnol i'r rhwymedigaeth net yr adroddir amdano gael ei gyflawni fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu pennu trwy gyfeirio at ragdybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd tair blynedd o'r cynllun.

Ceir cydnabyddiaeth wirioneddol bod Cronfeydd Buddsoddi Cyfrifol wedi perfformio'n well yn ystod y pandemig byd-eang, gan helpu i ddiogelu gwerth ased net yr EAPF. Rhaid cofio bod cyflogwyr yn gallu gweithredu yn yr hirdymor trwy'r Gronfa Weithredol wrth ystyried goblygiadau ariannu lefel uchel siociau allanol. Roedd COVID 19 wedi amharu'n sylweddol ar farchnadoedd ym mis Mawrth 2020, ond gwelwyd adfywiad cadarn yn ystod blwyddyn 2020/21 a barhaodd yn 2021/22. Fodd bynnag, nid oes neb yn gwybod beth fydd effaith hirdymor COVID-19 ar yr economi ac ar gost hirdymor ariannu pensiynau buddion diffiniedig yn y pen draw.

Bydd y digwyddiad allanol newydd a ddatblygodd yn Nwyrain Ewrop ym mis Chwefror 2022 yn cael effaith ar sawl agwedd ar ein bywydau ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor. Er bod pawb yn canolbwyntio, yn gwbl ddealladwy, ar oblygiadau'r goresgyniad i bobl Wcráin a'r sefyllfa ddaearyddol a gwleidyddol yn Ewrop, mae'r gronfa bensiwn wedi rhoi sylw priodol i'w chysylltiad ag asedau o Rwsia. Ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng y Gronfa ag asedau o'r fath, a dim ond 0.01% o bortffolio asedau'r EAPF sydd wedi'i fuddsoddi yn Rwsia. Mae gwerth yr asedau hyn wedi'u gostwng i ddim ac mae cyfarwyddiadau ar waith i werthu'r daliadau hyn os oes modd.

## 14.2.1 Rhagdybiaethau hirhoedledd ac ariannol

| Cyfnod a ddaeth i ben | 31 Mar 2022<br>% y flwyddyn | 31 Mar 2021<br>% y flwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfradd cynyddu pensiynau | 3.20% | 2.85% |
| Cyfradd cynyddu cyflogau | 3.70% | 3.35% |
| Cyfradd disgownt | 2.70% | 2.00% |

Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, hyd rhwymedigaethau a ariennir gan y cyflogwr yw 22 mlynedd.

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Pensiynwyr presennol | 21.9 o flynyddoedd | 24.1 o flynyddoedd |
| Pensiynwyr y dyfodol* | 23.1 o flynyddoedd | 26.0 o flynyddoedd |

* mae ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 oed ar y dyddiad prisiad ffurfiol diwethaf

## 14.2.2 Dadansoddiad sensitifrwydd

| Newid mewn rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2022: | Cynnydd % bras i rwymedigaeth y | Swm ariannol bras (£000) |
|---|---|---|
| 0.1% o leihad yn y Gyfradd Disgownt Real | 2% | 11,680 |
| Cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4% | 20,712 |
| 0.1% o gynnydd yn y Gyfradd Cynyddu Cyflogau | 0% | 2,482 |
| 0.1% o gynnydd yn y Gyfradd Cynyddu Pensiynau | 2% | 9,088 |

## 14.2.3 Hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio

Cyfrifwyd hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (h.y. cyfartaledd wedi'i bwysoli o'r amser nes talu llif arian yn y dyfodol) ar gyfer aelodau'r cynllun a gyfrifwyd ar y prisiad teirblwydd diwethaf ar 31 Mawrth 2019 gan yr actiwari fel 22 mlynedd.

## 14.2.4 Gwerth Teg Asedau

### Gwerth teg asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| Categori'r Ased | 31 March 2022 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Heb ei bennu | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 65,729.6 | 0.0 | 0.0 | 65,729.6 | 14% |
| Stoc a Ffefrir | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 1,273.4 | 0.0 | 0.0 | 1,273.4 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Arall | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun:** | | | | | |
| Ecwiti | 0.0 | 141,236.6 | 0.0 | 141,236.6 | 30% |
| Bondiau | 0.0 | 160,377.2 | 0.0 | 160,377.2 | 35% |
| Cronfeydd – Stoc Gyffredin | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Cronfeydd – Eiddo Tirol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Cronfeydd – Cyfalaf Menter | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | 0.0 | 72,686.6 | 0.0 | 72,686.6 | 16% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau Dwbl | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deilliadol – Dyfodol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Contractau FX i'r dyfodol | 0.0 | (124.4) | 0.0 | (124.4) | 0% |
| **Arian Parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | 0.0 | 0.0 | 22,255.1 | 22,255.1 | 5% |
| **Cyfanswm** | 67,003.0 | 374,176.0 | 22,255.1 | 463,434.1 | 100% |

### Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| Categori'r Ased | 31 March 2021 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Heb ei bennu | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 94,234.9 | 0.0 | 0.0 | 94,234.9 | 22% |
| Stoc a Ffefrir | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 1,693.4 | 0.0 | 0.0 | 1,693.4 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | 0.0 | 38,279.9 | 0.0 | 38,279.9 | 9% |
| Bondiau Corfforaethol | 0.0 | 35,420.4 | 0.0 | 35,420.4 | 8% |
| Arall | 0.0 | 2,432.6 | 0.0 | 2,432.6 | 1% |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun:** | | | | | |
| Ecwiti | 0.0 | 108,165.2 | 0.0 | 108,165.2 | 25% |
| Bondiau | 0.0 | 67,774.4 | 0.0 | 67,774.4 | 16% |
| Cronfeydd – Stoc Gyffredin | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Cronfeydd – Eiddo Tirol | 0.0 | 14,145.8 | 0.0 | 14,145.8 | 3% |
| Cronfeydd – Cyfalaf Menter | 0.0 | 88.9 | 0.0 | 88.9 | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | 0.0 | 53,992.5 | 0.0 | 53,992.5 | 12% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau Dwbl | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deilliadol – Dyfodol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0% |
| Contractau FX i'r dyfodol | 0.0 | (128.3) | 0.0 | (128.3) | 0% |
| **Arian Parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | 0.0 | 0.0 | 19,119.4 | 19,119.4 | 4% |
| **Cyfanswm** | 95,928.3 | 320,171.4 | 19,119.4 | 435,219.1 | 100% |

## 14.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaeth net

| Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | Asedau | Rhwymedigaethau | (Rhwymedigaeth) / ased net |
|---|---|---|---|
| | £(000s) | £(000s) | £(000s) |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 435,219 | 0 | 435,219 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | 0 | 541,863 | (541,863) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021** | **435,219** | **541,863** | **(106,644)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| Cost bresennol y gwasanaeth | 0 | 16,182 | (16,182) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 171 | (171) |
| Effaith setliadau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **0** | **16,353** | **(16,353)** |
| Llog net | | | |
| Llog incwm ar asedau'r cynllun | 8,637 | 0 | 8,637 |
| Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | 0 | 10,931 | (10,931) |
| Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm llog net** | **8,637** | **10,931** | **(2,294)** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn elw neu (golled)** | **8,637** | **27,284** | **(18,647)** |
| Llifoedd arian | | | |
| Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,132 | 2,132 | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 6,909 | 0 | 6,909 |
| Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (8,345) | (8,345) | 0 |
| Buddion a dalwyd nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa orffenedig ddisgwyliedig** | **444,552** | **562,934** | **(118,382)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 0 | (42,935) | 42,935 |
| Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | (3,083) | 3,083 |
| Profiad arall | 0 | 892 | (892) |
| Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | 18,882 | 0 | 18,882 |
| Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn incwm cynhwysfawr arall** | **18,882** | **(45,126)** | **64,008** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | 0 | 0 | 0 |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 463,434 | 0 | 463,434 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | 0 | 517,808 | (517,808) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022** | **463,434** | **517,808** | **(54,374)** |

* Mae cost gyfredol y gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £298,149,000 mewn perthynas ag aelodau sy'n weithwyr, £87,497,000 mewn perthynas â phensiynwyr gohiriedig, a £132,162,000 mewn perthynas â phensiynwyr ar 31 Mawrth 2022. Mae gwerth teg asedau'r cynllun gan y cyflogwr tua 10% o gyfanswm y gronfa.

## 14.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaeth net (parhad)

| Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Asedau | Rhwymedigaethau | (Rhwymedigaeth) / ased net |
|---|---|---|---|
| | £(000s) | £(000s) | £(000s) |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 372,071 | 0 | 372,071 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | 0 | 373,582 | (373,582) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020** | **372,071** | **373,582** | **(1,511)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| Cost bresennol y gwasanaeth* | 0 | 9,119 | (9,119) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) ** | 0 | 72 | (72) |
| Effaith setliadau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **9,191** | **(9,191)** |
| Llog net | | | |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 8,506 | 0 | 8,506 |
| Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | 0 | 8,623 | (8,623) |
| Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm llog net** | **8,506** | **8,623** | **(117)** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn elw neu (golled)** | **8,506** | **17,814** | **(9,308)** |
| Llifoedd arian | | | |
| Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,038 | 2,038 | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 2,036 | 0 | 2,036 |
| Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (8,033) | (8,033) | 0 |
| Buddion a dalwyd nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Orffenedig Ddisgwyliedig** | **376,618** | **385,401** | **(8,783)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 0 | 152,421 | (152,421) |
| Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | 6,837 | (6,837) |
| Profiad arall | 0 | (2,796) | 2,796 |
| Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | 58,601 | 0 | 58,601 |
| Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn yr incwm cynhwysfawr arall** | **58,601** | **156,462** | **(97,861)** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | 0 | 0 | 0 |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 435,219 | 0 | 435,219 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | 0 | 541,863 | (541,863) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021** | **435,219** | **541,863** | **(106,644)** |

* Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf

Lle mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na ddarperir ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol, fe'u datgelir yn y tabl isod. Dangosir ymrwymiadau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn yn nodyn 4.

| | 31 Mawrth 2022<br>£'000 | 31 Mawrth 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo, peiriannau ac offer** | | |
| Peiriannau | 553 | 392 |
| Offer trafnidiaeth | 728 | 205 |
| Strwythurau gweithredol | 439 | 1,096 |
| Strwythurau cyhoeddus | 125 | 108 |
| **Total** | **1,845** | **1,801** |
| | | |
| **Asedau anniriaethol** | | |
| Technoleg gwybodaeth – trwyddedau meddalwedd | 14 | 22 |
| Technoleg gwybodaeth – datblygu meddalwedd | 151 | 581 |
| **Cyfanswm** | **165** | **603** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **2,010** | **2,404** |

## 16. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Mae'r penderfyniad a yw trefniant yn brydles, neu'n cynnwys prydles, yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n ddibynnol ar ddefnyddio ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased yn cael ei ystyried yn brydles.

Mae prydles cyllid yn un sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a buddion perchnogaeth ased i'r lesddeiliad. Mae prydles weithredol yn brydles heblaw prydles cyllid. Asesir prydlesi gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn IAS 17 (prydlesi). Nid yw tir a gedwir o dan brydles cyllid yn cael ei ddibrisio.

Codir costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y brydles ac fe'u dangosir yn nodyn 5.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar lefel isaf gwerth teg yr ased ar brydles neu werth presennol yr isafswm taliadau prydles. Cofnodir dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r lesydd. Codir taliadau cyllid i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae cerbydau a gedwir o dan brydles cyllid yn cael eu dibrisio dros dymor y brydles.

### 16.1 Prydlesi gweithredu

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 31 Mawrth 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Mae’r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 156 | 1,653 | 1,125 | 2,934 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mly | 250 | 4,555 | 2,237 | 7,042 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,870 | 601 | 0 | 2,471 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **2,276** | **6,809** | **3,362** | **12,447** |

| | 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Mae’r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 117 | 1,484 | 994 | 2,595 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mly | 349 | 3,043 | 2,128 | 5,520 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,998 | 1,054 | 0 | 3,052 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **2,464** | **5,581** | **3,122** | **11,167** |

### 16.2 Prydlesi cyllid

| **Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu:** | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|---|
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 20 | 20 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 47 | 48 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 405 | 408 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **472** | **476** |

### 16.3 Gweithredu IFRS16

Ar ôl 1 Ebrill 2022 bydd CNC yn defnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu i weithredu IFRS 16, felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi'i hailddatgan ac mae'n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17 “Prydlesi”.

Mae cyfrifiad rhwymedigaeth y brydles a ragwelir ac asedau hawl i'w defnyddio wedi'u cynnwys isod.

Wrth ddefnyddio IFRS 16 ar gyfer pob prydles (ac eithrio yn yr achosion a nodir isod), bydd CNC yn gwneud y canlynol:

a) cydnabod asedau hawl i'w defnyddio a rhwymedigaethau prydles yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar sail gwerth presennol taliadau prydles y dyfodol

b) cydnabod dibrisiad asedau hawl i'w defnyddio a llog ar rwymedigaethau prydles yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr; a

c) gwahanu cyfanswm yr arian parod sydd wedi'i dalu i brif gyfran (a gyflwynir mewn gweithgareddau ariannu) a llog (a gyflwynir mewn gweithgareddau gweithredu) yn y datganiad o lifoedd arian.

Bydd effaith gronnol mabwysiadu IFRS 16 yn cael ei chynnwys fel addasiad i ecwiti ar ddechrau'r cyfnod gweithredu.

O dan IFRS 16, mae asedau hawl i'w defnyddio yn cael eu profi ar gyfer amhariad yn unol ag IAS 36 Amhariad Asedau. Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i nodi darpriaeth ar gyfer contractau prydlesu llethol.

Ar gyfer prydlesi tymor byr (cyfnod prydles o 12 mis neu lai) a phrydlesi asedau gwerth isel (fel peiriannau llungopïo), bydd CNC yn dewis cydnabod traul prydles ar sail llinell syth yn unol â'r hyn a ganiateir gan IFRS 16.

Bydd y draul hon yn parhau i gael ei chyflwyno mewn gwariant arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effaith ddisgwyliedig mabwysiadu IFRS 16 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023:

| | **31 Mawrth 2022** | **Addasiadau Prydlesau gweithredu** | **Addasiadau Prydlesau Ariannol** | **1 Ebrill 2022 ar ôl Addasiad IFRS 16** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 2,020,356 | 0 | (52,410) | 1,967,946 |
| Asedau Hawl i'w defnyddio | 0 | 11,725 | 52410 | 64,134 |
| Rhagdaliad/croniad rhent | 358 | (358) | 0 | 0 |
| Symiau masnach yn daladwy (o fewn 1 blwyddyn) | (20) | 0 | 20 | 0 |
| Symiau masnach yn daladwy (ar ôl 1 blwyddyn) | (452) | 0 | 452 | 0 |
| Rhwymedigaeth prydles (cyfredol) | 0 | (2,683) | (20) | (2,703) |
| Rhwymedigaeth prydles (anghyfredol) | 0 | (8,684) | (452) | (9,136) |
| **Cyfanswm** | **2,020,242** | **0** | **0** | **2,020,242** |

| | **1 Ebrill 2022 £'000** |
|---|---|
| Prydles weithredu ar 31 Mawrth 2022 fel y'i datgelir o dan IAS 17 | 12,447 |
| Rhagdaliad/croniad rhent | 358 |
| Swm gostyngol gan ddefnyddio cyfradd benthyca cynyddrannol ar 1 Ebrill 2022 | (812) |
| Prydlesi â chyfnod llai na 12 mis/prydlesi gwerth isel | (237) |
| Eithriadau eraill (trwyddedau, hawliau etc.) | (31) |
| **Cyfanswm** | **11,725** |

## 17. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo na chawsant eu nodi yn nodyn 4 – Gwaith Cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn, nodyn 15 – Ymrwymiadau cyfalaf neu nodyn 16 – Ymrwymiadau o dan brydlesi. Cyfanswm y taliadau eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo iddynt ar 31 Mawrth 2022 yw:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 24,681 | 16,540 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 16,700 | 16,165 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,390 | 1,343 |
| **Cyfanswm** | **42,771** | **34,048** |

## 18. Symiau derbyniadwy o dan brydlesi

Mae asedau (tir ac adeiladau) sy'n cael eu prydlesu i bartïon allanol o dan brydles weithredol yn cael eu cyfalafu yn unol â'r polisi asedau anghyfredol a amlinellir yn nodyn 7. Rhoddir cyfrif am incwm prydles weithredol ar sail llinell syth a'r isafswm yn y dyfodol. Dangosir taliadau prydles sy'n dderbyniadwy o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo yn y tabl isod. Mae'r tabl yn cynnwys incwm a ragwelir o ffermydd gwynt, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli'r prydlesi hyn ar ran Llywodraeth Cymru a breindaliadau o'r rhaglen darparu ynni, mynediad trydydd parti, hydro a phrydlesi eraill.

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 14,076 | 13,774 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 54,679 | 52,999 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 205,465 | 222,455 |
| **Cyfanswm** | **274,220** | **289,228** |

Mae'r incwm o brydlesi fferm wynt yn cynrychioli rhan fawr o'r gwerthoedd a ddatgelir yn y tabl uchod. Lle mae ffermydd gwynt yn ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8), nid yw'r incwm yn cael ei gadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'n yn cael ei ildio i Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am yr incwm hwn ar gael yn nodyn 1.4.

Mae'r tabl yn cynnwys ymrwymiadau o dan y Brydles Weithredol ar gyfer fferm wynt Clocaenog am y 25 mlynedd nesaf. Er na lofnodwyd y Brydles Weithredol ar 31 Mawrth 22, mae'r fferm wynt ei hun yn weithredol ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn rhenti breindal yn seiliedig ar drydan a gynhyrchir yn union fel y byddai o dan y cytundeb prydles weithredol. Llofnodwyd y brydles ar 6 Ebrill 2022.

Mae'r gwerthoedd cymharol ar gyfer 31 Mawrth 2021 wedi'u hailddatgan i gywiro gwall dyblygu mewn perthynas â'r brydles Forest Holiday ym Meddgelert. Mae'r ymrwymiad cyffredinol wedi'i leihau gan £3,898k.

## 19. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau wrth gefn yn unol ag IAS 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli, yn dibynnu a yw rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nad yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru'r rhwymedigaethau wrth gefn canlynol:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Hawliadau gwerthu pren | 60 | 250 |
| Hawliadau difrod i eiddo | 802 | 836 |
| Atebolrwydd i'r cyhoedd a gweithwyr | 94 | 44 |
| Arall | 0 | 17 |
| **Cyfanswm** | 956 | 1,147 |

**Hawliadau gwerthu pren**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn hawliadau gan gwmni coed mewn perthynas â'i gontract gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r swm a ddatgelir yn y tabl uchod yn ymwneud ag un hawliad.

**Hawliadau difrod i eiddo**
Difrod i eiddo yn sgil methiant draeniau a chwlfertau storm o ganlyniad i stormydd Ciara, Dennis ac Arwen.

**Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr**
Mae gwerth deuddeg hawliad atebolrwydd i'r cyhoedd wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae'r hawliadau hyn yn ymwneud â niwed personol, difrod i eiddo a chwynion gweithwyr cyflogedig.

**Hawliadau eraill**
Mae gwerth dau hawliad yn ymwneud â difrod i eiddo wedi'u datrys yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

### Rhwymedigaethau wrth gefn heb eu mesur

Yn unol ag IAS 37, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu'r rhwymedigaethau wrth gefn heb eu mesur canlynol. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau wrth gefn canlynol:

**Hawliadau difrod i eiddo**
Derbyniwyd pedwar deg wyth o hawliadau lle nad yw'r gwerthoedd wedi'u mesur eto.

**Atebolrwydd i'r cyhoedd a gweithwyr**
Mae un hawliad wedi'i wneud yn ymwneud â Beiciwr Mynydd, aelod o Foel Downhill Riders, a gafodd anaf difrifol ar un o'n llwybrau beicio.

**Archwiliad Cyllid a Thollau EM**
Mae archwiliad Cyllid a Thollau EM o driniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o weithio y tu allan i'r gyflogres (IR35) ar y gweill a bydd yn parhau yn ystod 2022/23. Datgelir rhwymedigaeth wrth gefn heb ei mesur i gydnabod y posibilrwydd y bydd rhwymedigaethau diffyg cydymffurfio yn deillio o'r archwiliad.

**Clymog Japan**
Mae chwe hawliad ar gyfer difrod a achoswyd gan Glymog Japan yn aros am farn arbenigol ar gostau posibl difrod ac atgyweirio.

## 20. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes digwyddiadau i'w hadrodd ar ôl y cyfnod adrodd.

## 21. Dyddiad awdurdodi ar gyfer cyhoeddi

Mae Datganiadau Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gosod gerbron y Senedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS. Mae IAS 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu ddatgelu'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer cyhoeddi yw dyddiad adroddiad archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalennau 81 i 85.

## 22. Partïon cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael trafodion perthnasol sylweddol gyda Llywodraeth Cymru yn ystod busnes arferol (adroddir ar y cymorth grant a'r grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cael trafodion gydag endidau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel yr adran riant sef awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol Cymru, a thrafodion gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff eraill llywodraeth ganolog. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyllid a Thollau EM.

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystod ei fusnes arferol, i'r trafodion canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr oedd gan aelodau'r bwrdd ac aelodau gweithredol neu bartïon cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid oes gan y bwrdd na'r aelodau gweithredol unrhyw ran uniongyrchol yn y trafodion gyda'r partïon cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion am y flwyddyn lawn gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm taliadau £'000 | Cyfanswm incwm £'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canals and River Trust | Priod Julia Cherrett | Ymddiriedolwr | 0 | 2 | 0 | 2 |
| Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod | Athro | 67 | 10 | 31 | 0 |
| Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod | Cyd-Gyfarwyddwr | | | | |
| Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod a'i briod | Prif Ymchwilwyr | | | | |
| Canolfan y Dechnoleg Amgen | Rosie Plummer | Ymddiriedolwr | 0 | 1 | 0 | 0 |
| DEFRA gan gynnwys: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Chwmni Cefnogi | Karen Balmer | Aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Risg JNCC | 35 | 0 | 0 | 42 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | Steve Ormerod | Aelod o'r Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth | 3,151 | 340 | 130 | 398 |
| Groundwork Gogledd Cymru | Karen Balmer | Prif Weithredwr y Grŵp | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | Howard Davies | Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus | 125 | 0 | 2 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Rosie Plummer | Aelod o'r Bwrdd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 184 | 8 | 171 | 0 |
| Plantlife International | Rosie Plummer | Ymddiriedolwr | 52 | 0 | 29 | 0 |
| RSPB | Steve Ormerod | Is-lywydd | 726 | 28 | 552 | 1 |
| Wild Ground | Karen Balmer | Prif Weithredwr y Grŵp | 1 | 0 | 0 | 0 |

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystod ei fusnes arferol, i'r trafodiad uniongyrchol canlynol gyda'r aelod canlynol o'r bwrdd:

| Aelod | Natur y trafodion | Cyfanswm taliadau £'000 | Cyfanswm incwm £'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Geraint Davies | Cytundebau adran 16 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 7 | 0 | 0 | 0 |